Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 1 Gorffennaf 2013**

Amser:
**14:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Deddfwriaeth: Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

## Agenda
Preifat

## 1 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro (14.00 - 14.05)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (14.05)

## 3 Papurau i'w nodi (14.05 - 14.10)

**Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Llythyr gan y Dirprwy Weinidog i'r Cadeirydd dyddiedig 11 Mehefin 2013** (Tudalennau 1 - 3)
HSC(4)-22-13(ptn 1)

**Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Llythyr gan y Dirprwy Weinidog i'r Cadeirydd dyddiedig 17 Mehefin 2013** (Tudalennau 4 - 97)
HSC(4)-22-13(ptn2)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (14.10)
Eitem 4 a'r cyfarfod cyfan ar 4 Gorffennaf

**Cyfarfod preifat**

## 5 Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Ystyried yr adroddiad drafft (14.15 - 17.00) (Tudalennau 98 - 256)
HSC(4)-22-13(p1)

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF-GT-0482-13

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mehefin 2013

Annwyl Jocelyn,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 7 Mai 2013 yn ymwneud ag agweddau ariannol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac yn gofyn am esboniad pellach ar bwyntiau a wnaed yn fy ngohebiaeth flaenorol â chi ac yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Ebrill.

O ran yr wybodaeth ariannol a gaiff ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw a phryd, nodais ar 18 Ebrill mai fy mwriad oedd rhoi diweddariad i gefnogi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cyfeiriais hefyd at y gwaith y mae ADSS Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei wneud a nodais y byddem yn disgwyl bod â gwell syniad ynglŷn â'r gwaith hwnnw erbyn yr hydref. O ran y manylion a'r amserlen, fy mwriad ar hyn o bryd yw gwneud fel a ganlyn:

1. *Rhoi darlun clir o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu eisoes i Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â bras amcan o'r arian ychwanegol a gaiff ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r pontio i'r Bil. Disgwyliaf i'r wybodaeth hon fod ar gael, yn ogystal â datganiad ysgrifenedig i gyd-fynd â hi, cyn diwedd y tymor hwn.*

Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i atgyfnerthu un o'm negeseuon allweddol ynghylch ariannu'r ddeddfwriaeth hon, sef bod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn niwtral o ran cost dros yr hirdymor. Dengys tystiolaeth nad yw'r drefn gyfredol o ddarpariaeth ofal cymdeithasol yng Nghymru yn gynaliadwy bellach. Ymateb i hynny yw'r Bil hwn, a'i nod yw creu fframwaith cadarnach ar gyfer gofal a chymorth a fydd yn para am genhedlaeth. Mae'n dilyn felly ei bod yn holl bwysig yn ariannol i'r Bil fod yn niwtral o ran cost dros yr hirdymor. Nid oes rhagor o arian, ac nid oes modd yn y byd inni ddisodli'r fframwaith presennol ag un sy'n costio rhagor. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol feddwl mewn ffordd wahanol ynglŷn â'r ffyrdd y maent yn darparu neu'n comisiynu gwasanaethau, gan y bydd angen ailgyfeirio'r cyllid presennol i feysydd newydd. Bydd hyn yn cynnwys alinio'r cyllid presennol â dyletswyddau newydd ac â blaenoriaethau a nodir yn y Bil, fel hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol. Bydd rhoi darlun clir o'r cyllid sydd eisoes ar gael yn helpu Aelodau'r Cynulliad i ddeall pa adnoddau sydd gan Awdurdodau Lleol a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*   *Printed on 100% recycled paper*

chyrff cyhoeddus eraill i'w defnyddio i gyflawni'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth hon yn gofyn amdano.

Gwneir ymrwymiad ym mharagraff 144 o'r Memorandwm Esboniadol ac ynddo rwyf wedi cydnabod y bydd rhai costau untro cychwynnol yn ymwneud â rhoi'r system newydd ar waith. Rwyf eisoes wedi egluro, er enghraifft, y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyllid pontio tuag at gostau darparu gwybodaeth ynglŷn â'r newidiadau y bydd y Bil yn eu creu. Ystyriwyd costau hyfforddi hefyd ac eisoes darperir cyllid grant sylweddol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ar gyfer datblygu'r gweithlu. Bydd egluro ein syniadau diweddaraf yn y maes hwn yn rhoi'r darlun cliriaf sy'n bosibl i Aelodau'r Cynulliad o'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig ar gyfer pontio i'r Bil.

2. *Rhoi gwybodaeth bellach i gefnogi'r honiadau a wneir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y meysydd hynny lle na roddwyd awgrym o raddfa'r budd posibl. Darperir yr wybodaeth hon ar ddiwedd cam 2 (mis Hydref).*

Rwy'n dal yn hyderus y bydd y budd a ddaw o symud tuag at fwy o integreiddio, atal ac ymyriadau cynnar yn sylweddol dros yr hirdymor, ac y bydd hefyd yn gwella'r gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru. Mae creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn enghraifft o sut y gallwn sicrhau arbedion o ran costau, yn ogystal â gwelliannau. Ar y dechrau, roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dryloyw iawn wrth ddatgan y câi budd ei ragweld yn y meysydd hyn ond y byddai angen ei asesu'n fanylach pan gâi Rheoliadau eu datblygu fel rhan o'n gwaith. Felly y mae o hyd, ond rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i dystiolaeth bellach o fannau eraill sy'n cefnogi'r honiadau hyn. Mae sicrhau'r budd sy'n deillio o'r drefn newydd yn allweddol i wneud y ddeddfwriaeth yn niwtral o ran cost dros yr hirdymor, ac felly bydd sicrhau rhagor o wybodaeth yma yn rhoi hyder pellach i'r Pwyllgor ac i Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â phwnc y craffwyd cryn dipyn arno hyd yma.

Bydd yr wybodaeth ychwanegol yn ategu, yn hytrach nag yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd eisoes yn bodoli.

3. *Darparu rhagor o fanylon am y bwriad polisi y tu ôl i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo trafodaethau gydag ADSS Cymru a CLILC ynghylch modelu ariannol ar gyfer agweddau gweithredol ar y Bil. Cytunir ar fwriad polisi ar gyfer y prif Reoliadau erbyn diwedd y flwyddyn galendr a rhoddir gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor ar sail ryngweithiol cyn y bleidlais Cam 4 ar y Bil ar 26 Tachwedd.*

Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Ebrill ac mewn ymateb i gwestiwn gan Kirsty Williams AC, ymrwymais i roi manylion pellach am y prif Reoliadau wrth iddynt ddatblygu fel bod y Pwyllgor ac Aelodau'r Cynulliad yn y sefyllfa orau i bleidleisio ar y Bil. Dechreuais wneud hynny drwy roi manylion ychwanegol ynglŷn â phrosesau craidd sy'n sail i'r Bil (gan gynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, Asesu, Cymhwysedd, Cynlluniau Gofal a Hygludedd) pan ysgrifennais at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwethaf ar 20 Mai.

Mae'n bwysig yn y man hwn sylweddoli beth yw'r cysylltiadau rhwng y bwriad polisi hwn sy'n datblygu a goblygiadau gweithredol y drefn newydd – goblygiadau y mae CLILC ac ADSS Cymru wedi nodi eu bod eisoes yn edrych arnynt gyda golwg ar roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ni ellir creu darlun llawn o gostau a budd o'r fath nes bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y dewisiadau a wneir o dan y Rheoliadau. Yn hyn o beth byddwch wrth gwrs yn gwybod bod datblygu is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'w broses Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei hun, proses y datblygir safbwyntiau ar gostau a budd drwyddi. Bydd ymgynghori ffurfiol hefyd ar ddeddfwriaeth o'r fath a bwriedir i hynny ddigwydd yn 2014 os bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Ar 18 Ebrill atgoffais y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'm hymrwymiad parhaus i drafod â rhanddeiliaid gan gynnwys CLILC ac ADSS Cymru, yn bennaf drwy fy Fforwm Partneriaeth a'r Grŵp Arweiniad. Mae CLILC hefyd wedi gwneud datganiad ers hynny yn dweud y byddent yn awyddus i weithio gyda ni ar fodelu ariannol. Yn ôl a ddeallaf, nid yw'r gwaith y mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud i ddatblygu costiadau o dan y Bil ar gael eto i'r Pwyllgor ond byddwn yn gobeithio y byddent yn rhannu'r gwaith hwn â mi pan fydd wedi ei gwblhau. Ond fel yr wyf wedi dweud sawl gwaith, byddwn hefyd yn gobeithio ei fod yn adlewyrchu mewn ffordd gywir a theg nid yn unig gostau'r diwygiadau hyn, ond hefyd y budd a geir ohonynt.

Byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar gynnydd yn y maes hwn cyn diwedd Cam 2.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : LF/GT/508/13

Vaughan Gething AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Vaughan,

17 Mehefin 2013

Mae'n bleser gennyf roi rhagor o dystiolaeth i chi i'ch helpu i ystyried Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r dystiolaeth a'r papur cwmpasu atodedig, a luniwyd gan fy swyddogion, yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am fentrau cymdeithasol a modelau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau. Maent yn adnoddau pwysig ar gyfer datblygu ffordd ymlaen i Gymru a fydd yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr fel a nodir yn adran 7 o'r Bil.

Mae'r adran hon o'r Bil yn rhoi dyletswyddau penodol i Awdurdodau Lleol hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae'r dystiolaeth a'r papur cwmpasu yn adnoddau pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y sector ynghylch sut y gellir datblygu a gweithredu modelau newydd ac arloesol. Mae'r papur yn adnodd pwysig i ni ac i'n partneriaid i helpu i ddatblygu dull o'r fath.

Hoffwn gadarnhau ein hymrwymiad i fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ac i'r trydydd sector. Yn fy nhyb i, mae'r Bil drwyddi draw yn ymgorffori model Cymreig mewn cyfraith lle gall cydgynhyrchu a mathau eraill o weithgarwch cydweithredol a phartneriaeth ffynnu. Nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu ddigon ym maes gofal cymdeithasol. Ei hanfod yw hyrwyddo gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu'r dull newydd o atal ac ymyrryd yn gynnar a nodir yn ein polisi, ac i roi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl. Mae'r modelau hyn yn golygu bod llawer o gyfleoedd cyffrous newydd i'w harchwilio, ac mae llawer o enghreifftiau yn dangos sut y mae'r modelau hyn wedi helpu i alluogi pobl i gyfrannu'n llawn at ddarparu gwasanaethau.

Rwyf eisoes wedi darparu copi o'r papur i Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd yn werthfawr i chi ac i aelodau'r Pwyllgor.

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

**“Mentrau Cymdeithasol mewn Gofal Cymdeithasol” – Papur Tystiolaeth a Chwmpasu**

Rhagfyr 2012

> **“Allwch chi ddim hyrwyddo menter gymdeithasol a gwneud iddi ddigwydd o’r ymylon. Nid y Llywodraeth sy’n gwneud i’r pethau hyn ddigwydd; unigolion sy’n gwneud hynny (…). All y Llywodraeth ddim ond rhoi rhwydd hynt i’r pethau hyn.”**[1]


| Adran | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | |
| | | |
| Un | Pam mentrau cymdeithasol? | 3 |
| Dau | Deall mentrau cymdeithasol | 5 |
| Tri | Twf model y mentrau cymdeithasol ledled y DU | 6 |
| Pedwar | Mentrau cymdeithasol yng Nghymru | 8 |
| Pump | Llywodraeth Cymru a mentrau cymdeithasol | 10 |
| Chwech | Manteision mentrau cymdeithasol | 11 |
| Saith | Rhwystrau a heriau | 13 |
| Wyth | Mae gofal cymdeithasol yn faes parod i ddatblygu mentrau cymdeithasol | 16 |
| Naw | Ymagwedd Llywodraeth y DU at ofal cymdeithasol a mentrau cymdeithasol | 19 |
| Deg | Beth sy’n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru? | 21 |
| Un ar ddeg | Dysgu oddi wrth wledydd eraill | 31 |
| Deuddeg | Profiadau modelau mentrau cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol | 42 |
| | | |
| | | |
| Atodiad 1 | Mathau o fentrau cymdeithasol | |
| Atodiad 2 | Cronoleg polisi llywodraeth y DU | |
| Atodiad 3 | Cynlluniau peilot ymarfer gwaith cymdeithasol | |
| Atodiad 4 | Gwefannau/safleoedd cyfeirio defnyddiol | |
| Atodiad 5 | Astudiaethau achos Cymreig | |
| Atodiad 6 | Mathau eraill o ymgysylltu cymdeithasol | |
| Atodiad 7 | Astudiaethau achos o Loegr | |
| Atodiad 8 | Astudiaethau achos o’r Alban | |


[1] Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 22 Medi 2012, y Pwyllgor Menter a Dysgu “Glas Cymru”

**Crynodeb Gweithredol**

**Yr her**

- Sut allwn ni reoli'r galwadau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol oherwydd newidiadau demograffig?
- Sut allwn ni gynorthwyo pobl i reoli eu canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol eu hunain?
- Sut allwn ni sicrhau bod pobl a chymunedau'n rhan o broses cynllunio a darparu gwasanaethau?
- Sut allwn ni sicrhau y caiff llais y dinesydd ei glywed?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod **rôl gadarnhaol mentrau cymdeithasol** o ran helpu i greu economi gref a chynhwysol.

Mae'r papur hwn yn edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch mentrau cymdeithasol ledled y DU. **Mae'n defnyddio cyfweliadau un-ag-un** a'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos ymhle a sut y mae mentrau cymdeithasol yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled y DU. Mae'r papur hefyd yn edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael o ran y negeseuon allweddol ynghylch manteision darparu gofal cymdeithasol drwy fodel mentrau cymdeithasol a'r rhwystrau y bydd yn rhaid i'r sector eu goresgyn.

Dengys y gwaith ymchwil hwn mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth werthuso sy'n dangos effaith y sector mentrau cymdeithasol (ac yn arbennig felly'r effaith economaidd) ac mai astudiaethau achos yw llawer o'r dogfennau sydd ar gael.

Mae'r sefyllfa sydd ohoni'n ddelfrydol i fodelau mentrau cymdeithasol newydd ddatblygu ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus, o ofal iechyd sylfaenol, i addysg, gofal plant, gofal cymdeithasol a gwasanaethau rheoli troseddwyr.
Mae lle penodol i fentrau cymdeithasol yn y farchnad. Maent yn pontio'r bwlch rhwng darpariaeth gyhoeddus a phreifat. Fel sefydliadau, gall fod iddynt yr holl egni entrepreneuraidd a'r creadigrwydd cyfundrefnol y mae llawer o bobl yn meddwl sy'n nodweddu'r sector preifat. Maent yn ymateb i'r farchnad, ac yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr a chwsmeriaid yrru gwelliannau i wasanaethau.

Ar yr un pryd maent yn rhan annatod o'r economi gymdeithasol, ac yn greiddiol iddynt mae'r un set o werthoedd a dyheadau cymdeithasol â'r sector cyhoeddus. Mae'r gwerthoedd hyn – ynghylch cydraddoldeb, mynediad, rhoi grym i bobl a gofal o ansawdd da – yn hollbwysig i fentrau cymdeithasol, ac nid yn rhywbeth a gaiff ei ychwanegu am resymau marchnata.

Os caiff defnyddwyr a'u teuluoedd eu cynnwys yn y drefn, gall mentrau cymdeithasol fod yn uniongyrchol atebol i'r rhai hynny sy'n derbyn y gwasanaeth, a bod yn sensitif i anghenion yr unigolyn mewn ffordd sydd ddim ond i'w gweld fel arfer mewn cynlluniau taliadau uniongyrchol.

Oherwydd bod mentrau cymdeithasol yn rhoi grym i bobl mae'n bosib iddynt wneud gwelliannau hollbwysig o ran ansawdd. Mae llawer o staff yn gweithio

heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ac mae'r sefyllfa'n aml yn atal defnyddwyr rhag dweud yn union beth yw eu hanghenion.

**Adran Un: Pam mentrau cymdeithasol?**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod rôl benodol a gwerthfawr i fentrau cymdeithasol cynaliadwy o ran helpu i greu economi gref a chynhwysol.

Mae mentrau cymdeithasol yn ymdrin ag amryw helaeth o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol. Maent yn cystadlu yn y farchnad yn union fel pob busnes arall, ac yn defnyddio'u sgiliau busnes i gyflawni amcanion cymdeithasol. Mae sawl math o fenter gymdeithasol, a phob un yn esiampl o'r gwerthoedd sy'n bwysig i Gymru. Maent yn cyfrannu at fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac at ddod â'r rhai hynny sy'n economaidd anweithgar yn ôl i fyd gwaith. Maent yn cynnig dewis arall gwirioneddol i'r rhai hynny nad yw'r sector gwneud elw'n apelio atynt. Mae iddynt rôl allweddol o ran rhoi sylw teilwng i'r dinesydd.

Dywedodd Llywodraeth Cymru yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy[2]:

*"Rydym yn disgwyl i'r trydydd sector gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth yn y gymuned, yn arbennig yng nghyd-destun datblygu mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae gofal cymdeithasol yn faes parod ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol, a disgwyliwn weld mwy o amrywiaeth o wasanaethau yn cael eu rhedeg gan y bobl eu hunain, fel defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a phobl sy'n darparu'r gwasanaethau hynny."*

O safbwynt perchnogaeth gymdeithasol yng Nghymru, mae traddodiad o ddarpariaeth gydweithredol a chydfuddiannol wedi mynd law yn llaw yn hanesyddol â darpariaeth y wladwriaeth. Drwy roi grym i bobl a sicrhau bod buddiannau'r gymuned wrth wraidd penderfyniadau gallwn wella'r ffordd y darperir gwasanaethau a gwella'r canlyniadau i'n dinasyddion. A gallwn wneud hynny ac arloesi hefyd o ran darpariaeth o safon uchel. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae atebion mentrau cymdeithasol yn fwy ac nid yn llai perthnasol.

**Sut mae mentrau cymdeithasol yn cyfrannu at gymdeithas?**

Yn union fel pob busnes arall, nod mentrau cymdeithasol yw cynnal eu busnes a gwneud elw; yr hyn y maent yn ei wneud â'r elw hwnnw sy'n wahanol. Er enghraifft mae mentrau cymdeithasol yn ceisio:

- Ymdrin â rhai o heriau cymdeithasol ac amgylcheddol dyfnaf cymdeithas.

---

[2] -
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/;jsessionid=0EC301A4038E7057F6C218264C2EBF2A?skip=1&lang=cy

- Gosod safonau newydd o ran marchnadoedd moesegol, a chodi'r bar o ran cyfrifoldeb corfforaethol.
- Gwella gwasanaethau cyhoeddus, dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio ac arloesi o ran dulliau newydd o weithredu.
- Codi lefelau mentergarwch, a denu pobl newydd i fyd busnes.

Drwy sefydlu menter gymdeithasol o'r sector cyhoeddus, daw cyfle i arloesi, i ddatblygu ffyrdd newydd deinamig o ddarparu gwasanaethau ac i weithio gyda chydweithwyr, preswylwyr a busnesau i ddarparu gwasanaeth gwell.

Nid yw mentrau cymdeithasol yn addas i bawb. Ond dengys tystiolaeth dros 62,000 o fentrau cymdeithasol llwyddiannus yn y DU y gall gwerthoedd tegwch, buddsoddi cymunedol, rheolaeth leol a chenhadaeth gymdeithasol neu amgylcheddol esgor ar wasanaethau mwy effeithlon, profiadau gwell i ddefnyddwyr a staff hapusach.

**Adran Dau: Deall mentrau cymdeithasol**

Mae datblygu'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu wedi amlygu'r dryswch sydd y tu ôl i'r label "menter gymdeithasol". Golyga lawer o bethau i wahanol bobl. Mae'n bwysig peidio â glynu'n rhy gaeth at un diffiniad o fenter gymdeithasol, ond mae'n hollbwysig hefyd sicrhau bod pawb yn rhannu'r un diddordeb. Cysyniad yw menter gymdeithasol ac nid endid, ac ni ellir cofrestru busnes fel menter gymdeithasol. Mae'n rhaid i gwmni ddewis y ffurf fwyaf addas er mwyn cyflawni ei amcanion fel menter gymdeithasol.

Mae mentrau cymdeithasol o bob lliw a llun, o fusnesau mawr cenedlaethol a rhyngwladol i fentrau bach cymunedol. Dyma sy'n gyffredin i bob un ohonynt:

- Busnesau ydynt y daw'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'u hincwm o werthu nwyddau a gwasanaethau;
- Mae ganddynt ymdeimlad clir o'u 'cenhadaeth gymdeithasol' – maent yn gwybod pa wahaniaeth y maent yn ceisio'i wneud, pwy maent yn ceisio'i helpu a sut maent yn bwriadu gwneud hynny;
- Mae ganddynt reolau clir ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud â'u helw, ac yn ailfuddsoddi elw er budd y 'genhadaeth gymdeithasol'.

**Cyd-ddealltwriaeth o beth yw menter gymdeithasol**

Fel rheol, mae gan fentrau cymdeithasol bum nodwedd allweddol:

- Mae iddynt bwrpas cymdeithasol, amgylcheddol neu foesegol.
- Maent yn gweithredu ar sail model busnes masnachol.
- Mae iddynt ffurf gyfreithiol sy'n addas i statws 'nid er elw personol'.
- Maent yn sicrhau bod gan y rhai hynny sy'n elwa o'r busnes ran yn ei berchnogaeth a'u bod yn cyfrannu at ei lywodraethu.
- Mae ganddynt 'glo asedau' diogel.

Nid oes un model cyfreithiol penodol a gall menter gymdeithasol fod ar ffurf cwmni cyfyngedig drwy warant neu gwmni buddiannau cymunedol, ymhlith eraill. Mae sawl model, megis cwmnïau cydweithredol, undebau credyd, cwmnïau cydfuddiannol, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cymdeithasol a sefydliadau datblygu cymunedol.

## Adran Tri: Twf model y mentrau cymdeithasol ledled y DU[3]

Gellir olrhain arloeswyr y fenter gymdeithasol yn ôl at y 1840au o leiaf, pan sefydlwyd cwmni cydweithredol y gweithwyr yn Rochdale i ddarparu bwyd fforddiadwy o ansawdd da am fod pobl o'r farn fod yr amodau yn y ffatrïoedd yn camfanteisio ar y gweithwyr. Yn y DU, cafwyd adfywiad ym maes mentrau cymdeithasol ddiwedd y 1990au pan ddaeth gwahanol draddodiadau ynghyd, yn eu plith gwmnïau cydweithredol, sefydliadau gwirfoddol mentrus a mathau eraill o fusnesau cymdeithasol.

Awgryma amcangyfrifon o faint y sector yn seiliedig ar ddata'r Llywodraeth a ryddhawyd yn 2005[4] fod 55,000 o fentrau cymdeithasol yn y DU yn cyd-fynd â diffiniad y Llywodraeth o fenter gymdeithasol. Gyda'i gilydd mae eu trosiant yn £27 biliwn ac maent yn cyfrannu £8 biliwn i CMC. Ond mae eu cyfraniad i fusnes mewn gwirionedd yn fwy o lawer na'r pethau hyn: drwy ddod â phobl a oedd gynt wedi'u heithrio yn ôl i mewn i'r economi, neu drwy wella'r amgylchedd neu'r gymdeithas, maent yn gwella ffyniant a chyfiawnder cymdeithasol fel ei gilydd.

Yn ôl arolwg YouGov a ryddhawyd yn 2007 byddai'n well gan dros 60% o'r cyhoedd ym Mhrydain weld mentrau cymdeithasol yn rhedeg eu gwasanaethau lleol yn hytrach na'r llywodraeth, busnesau elw preifat neu elusennau traddodiadol.

Mae adroddiad Social Enterprise UK Fightback Britain yn 2011 ar gyflwr mentrau cymdeithasol yn rhoi darlun diweddar i ni o fentrau cymdeithasol sy'n ffynnu yn yr economi ar hyn o bryd.

Casgliad yr adroddiad oedd fod sector y mentrau cymdeithasol yn ddeinamig, yn denu entrepreneuriaid, yn gweithio yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y DU i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd amddifadedd a'i fod, fel sector, yn gwneud yn well a'i fod yn fwy arloesol na busnesau bach a chanolig tebyg iddo.

### Cipolwg ar ganfyddiadau'r ymchwil

- Mae 39% o fentrau cymdeithasol yn gweithio yn yr 20% o gymunedau sydd fwyaf difreintiedig yn y DU o gymharu â 13% o fusnesau arferol.
- Roedd 58% o fentrau cymdeithasol yn dweud eu bod wedi tyfu yn 2010 o'u cymharu â dim ond 28% o fusnesau bach a chanolig.
- Roedd 57% yn darogan twf y flwyddyn nesaf o gymharu â 41% o fusnesau bach a chanolig.
- Mae 14% o fentrau cymdeithasol yn fusnesau sydd newydd ddechrau, ac yn llai na dwy flwydd oed.
- Mae trosiant blynyddol canolrifol mentrau cymdeithasol wedi tyfu o £175,000 yn arolwg 2009 i £240,000 yn arolwg 2011.

---

[3] Rhoddodd Robin Miller o Brifysgol Birmingham gyflwyniad defnyddiol yn yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd ar faint y farchnad ym mis Ebrill 2012 - http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/opendoc/189490

[4] Arolwg Blynyddol y Busnesau Bach

- Mae mentrau cymdeithasol yn cyflogi mwy o bobl mewn perthynas â throsiant na busnesau bach prif ffrwd.
- Mae menywod mewn timau arwain mentrau cymdeithasol yn herio'r nenfwd gwydr, ac 86% o dimau arwain yn cynnwys o leiaf un cyfarwyddwr sy'n fenyw.
- Mae gan 27% o dimau arwain gyfarwyddwyr o gymunedau pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig.
- Mae 82% o fentrau cymdeithasol bellach yn ailfuddsoddi elw yn y cymunedau lle gwnaed yr elw hwnnw er mwyn hyrwyddo eu nodau cymdeithasol neu amgylcheddol.
- Mae mentrau cymdeithasol yn atebol i'w cymunedau. Mae 74% o fentrau cymdeithasol yn mynd ati i gynnwys buddiolwyr mewn penderfyniadau am y busnes – cyfran sy'n codi i naw o bob deg menter gymdeithasol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y DU.
- Mae 88% o fentrau cymdeithasol yn ceisio lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Yn ôl arolwg gan lywodraeth y DU yn 2005[5], gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw'r categori masnachu mwyaf ar gyfer mentrau cymdeithasol, gydag addysg yn ail ar y rhestr. Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn weithgar iawn mewn marchnadoedd ynni, trafnidiaeth ac ailgylchu.

[5] Arolwg Blynyddol y Busnesau Bach

## Adran Pedwar: Mentrau cymdeithasol yng Nghymru

Mae hanes hir i gymuned y mentrau cymdeithasol yng Nghymru, ac mae yma nifer o fentrau cymdeithasol sefydledig a record gref o ddatblygu ar lawr gwlad dan arweiniad y gymuned. Mae mentrau cymdeithasol yn gweithio bron ym mhob diwydiant, o iechyd a gofal cymdeithasol, cyllid a manwerthu i ailgylchu, cyflogaeth a hyd yn oed glybiau pêl-droed.

Mae sector y mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n cynhyrchu refeniw o dros £2 biliwn y flwyddyn yn ôl ymchwil a wnaed yn 2010 gan Brifysgol Morgannwg, ar ran Canolfan Gydweithredol Cymru[6].

Ym mis Mai 2008 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru[7] broses o fapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol ledled Cymru, gan gynnwys maint, cwmpas, natur, iechyd a rôl mentrau cymdeithasol, er mwyn rhoi gwybod i'r Llywodraeth sut y gallai gefnogi'r sector yn fwy effeithiol.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

- Nodwyd dros 3,000 o sefydliadau ac o'r rheiny:
    - Roedd dwy ran o dair yn sefydledig, sy'n golygu eu bod yn ennill o leiaf hanner eu hincwm,
    - Roedd oddeutu chwarter yn hunangynhaliol ac yn ennill 100 y cant o'u hincwm.

- Amcangyfrifir mai £2.2 biliwn yw trosiant y sector yn seiliedig ar ffigurau 2007/08 (oddeutu 2.6 y cant o drosiant yr holl fentrau yng Nghymru).
- Mae ystod eang o sefydliadau yn y sector a Glas Cymru, y cwmni dŵr cenedlaethol, yw'r mwyaf (â throsiant o £623 miliwn yn 2007/08, neu 28 y cant o gyfanswm trosiant y sector).
- Mae llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn sefydliadau mawr a gyda'i gilydd amcangyfrifir eu bod yn cyfrannu 26 y cant o gyfanswm trosiant y sector.
- Mae traean y mentrau cymdeithasol yn fach iawn, a'u trosiant yn llai na £25,000.
- Amcangyfrifir mai £50,000 yw'r trosiant cyfartalog canolrifol.
- Amcangyfrifir bod mentrau cymdeithasol yn cyfrif am 29,000 o swyddi llawn amser, 20,000 o swyddi rhan amser a 105,000 o gyfleoedd gwirfoddoli (oddeutu 3.6 y cant o swyddi yng Nghymru).

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod graddfa economi gydfuddiannol a chymdeithasol Cymru wedi'i lleoleiddio ac yn dameidiog. Ac eithrio gwasanaethau carthffosiaeth/dŵr, tai cymdeithasol a chymdeithasau adeiladau wedi'u lleoli yng Nghymru, pob un ohonynt yn berchen i'r aelodau

---

[6] Darllenwch fwy http://www.walesonline.co.uk/business-in-wales/business-news/2010/10/20/2-billion-benefit-to-wales-from-social-enterprises-sector-91466-27464104/#ixzz1p17Kbvut

[7] Llywodraeth Cymru – Mapio Mentrau Cymdeithasol 2008 – http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=188364&ds=7/2010

ac yn cael ei reoli ganddynt i ryw raddau, nid yw sefydliadau sydd â phwrpas cymdeithasol iddynt eto wedi treiddio i economi Cymru i unrhyw raddau arwyddocaol.

Nid yw diffyg dyfnder a graddfa o reidrwydd yn rhywbeth negyddol. Gallai adlewyrchu materion penodol y bydd angen eu hystyried er mwyn i’r sector ehangu ei gwmpas. Ymhlith y rhwystrau, y byddwn yn edrych arnynt eto yn nes ymlaen, mae llywodraethu, ac yn arbennig amharodrwydd i fynd ar drywydd strategaethau twf a’u rhoi ar waith, sy’n adlewyrchu’n rhannol agweddau at risg ariannol; profiadau amrywiol ar draws yr haen reoli; crynhoi dylanwad penderfyniadau prynu cyhoeddus mewn ffordd sy’n cefnogi twf yr economi gymdeithasol; diffyg cyfalaf tymor estynedig sylweddol o ansawdd uchel ar lefelau a all gael effaith drawsnewidiol.

Os ydym am estyn ôl troed yr economi gymdeithasol o fewn gofal cymdeithasol, rhaid rhoi ystyriaeth i heriau sydd y tu hwnt i’w ddylanwad uniongyrchol.

**Adran Pump: Llywodraeth Cymru a mentrau cymdeithasol**

Yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) sy'n gyfrifol am ddatblygu mentrau cymdeithasol o fewn Llywodraeth Cymru. Penodwyd tîm yn BETS i gefnogi datblygiad y sector.

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru". Ynddo, nodir mai'r weledigaeth yw:

*"mentrau cymdeithasol deinamig a chynaliadwy sy'n cryfhau ein heconomi gynhwysol sy'n tyfu".*

Ategwyd hynny yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012[8]

*"Rydym yn cydnabod y cyfraniad positif a wneir gan fentrau cymdeithasol hyfyw i economi gynaliadwy, amrywiol a chryf. Mae mentrau cymdeithasol yn dod yn fwy, ac nid yn llai, perthnasol yn yr economi fodern – wrth ddarparu atebion i ddulliau newydd a rhai sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus; wrth alluogi pobl leol ac adfywio cymunedau; ac wrth gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol."*

Mae Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu amgylchedd sy'n annog mentrau cymdeithasol newydd ac yn sefydlu cymorth integredig a fydd o gymorth i greu mentrau cymdeithasol sy'n ffynnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynllun gweithredu ar sail tair elfen ac mae camau ar waith i fwrw ymlaen â'r tair:

- Ysbrydoli pobl a sefydliadau â phriodweddau unigryw mentrau cymdeithasol.
- Gweddnewid rôl mentrau cymdeithasol yn economi Cymru drwy estyn ystod y cyfleoedd i gael swyddi, creu atebion busnes gwyrdd a lledaenu cyfoeth yn decach.
- Rhyddhau egin fentrau cymdeithasol a'r rhai sy'n tyfu rhag amryw o rwystrau a beichiau sydd ar hyn o bryd yn llesteirio'u potensial.

---

8 Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd, 5 Gorffennaf 2012 – Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Adran Chwech: Manteision mentrau cymdeithasol**

Mae sawl ffordd o ffurfio menter gymdeithasol. Efallai y bydd awdurdod cyhoeddus yn penderfynu darparu gwasanaeth penodol yn allanol drwy gorff newydd di-elw, fel a ddigwyddodd gydag ymddiriedolaethau hamdden. Neu gallai elusen neu fudiad di-elw sydd eisoes yn bodoli noddi ffurfio corff i ddarparu gwasanaethau newydd. Er enghraifft, efallai y bydd cymdeithas dai'n noddi meithrinfa newydd neu y bydd grŵp o reolwyr entrepreneuraidd a blaengar yn y sector cyhoeddus yn ffurfio endid newydd sy'n deillio allan wasanaeth sy'n bodoli eisoes, fel sy'n dechrau digwydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r sefyllfa sydd ohoni'n ddelfrydol i fodelau mentrau cymdeithasol newydd ddatblygu ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus, o ofal iechyd sylfaenol, i addysg, gofal plant, gofal cymdeithasol a gwasanaethau rheoli troseddwyr.
Mae lle penodol i fentrau cymdeithasol yn y farchnad. Maent yn pontio'r bwlch rhwng darpariaeth gyhoeddus a phreifat. Fel sefydliadau, gall fod iddynt yr holl egni entrepreneuraidd a'r creadigrwydd cyfundrefnol y mae llawer o bobl yn meddwl sy'n nodweddu'r sector preifat. Maent yn ymateb i'r farchnad, ac yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr a chwsmeriaid yrru gwelliannau i wasanaethau.

Ar yr un pryd maent yn rhan annatod o'r economi gymdeithasol, ac yn greiddiol iddynt mae'r un set o werthoedd a dyheadau cymdeithasol â'r sector cyhoeddus. Mae'r gwerthoedd hyn – ynghylch cydraddoldeb, mynediad, rhoi grym i bobl a gofal o ansawdd da – yn hollbwysig i fentrau cymdeithasol, ac nid yn rhywbeth a gaiff ei ychwanegu am resymau marchnata.

Os caiff defnyddwyr a'u teuluoedd eu cynnwys yn y drefn, gall mentrau cymdeithasol fod yn uniongyrchol atebol i'r rhai hynny sy'n derbyn y gwasanaeth, a bod yn sensitif i anghenion yr unigolyn mewn ffordd sydd ddim ond i'w gweld fel arfer mewn cynlluniau taliadau uniongyrchol.

Oherwydd bod mentrau cymdeithasol yn rhoi grym i bobl mae'n bosib iddynt wneud gwelliannau hollbwysig o ran ansawdd. Mae llawer o staff yn gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ac mae'r sefyllfa'n aml yn atal defnyddwyr rhag dweud yn union beth yw eu hanghenion.

Mae gan fentrau cymdeithasol allu cynhenid i roi grym i ddefnyddwyr a staff.

Wrth roi rhan i staff ym mherchnogaeth y fenter, fel y gwna rhai modelau, maent yn gallu mynd i'r afael â mater arall. Gall cynnwys staff yng ngwaith rheoli'r fenter arwain at weithio hyblyg, cyflogau gwell, parch at allu proffesiynol a herio gwahaniaethu – ac mae hyn oll yn gwneud y gweithle'n fwy deniadol. Mae problemau recriwtio a chadw'n gyffredin mewn sawl math o gyflogaeth yn y sector. Gallai mentrau cymdeithasol fod yn un ffordd o'u datrys.

Nid yw perchnogaeth gymdeithasol yn un o ofynion allweddol pob menter gymdeithasol, ond mae'n hollbwysig i'r rhai hynny yn y traddodiad cydweithredol lle mae rheolaeth ddemocrataidd yr aelodau'n un o'r

egwyddorion cydweithredol. Gall eu cwsmeriaid, y gweithwyr, yr ymddiriedolwyr, cyrff cyhoeddus, y gymuned ehangach neu gyfuniad o wahanol grwpiau rhanddeiliaid fod yn berchen ar fentrau cymdeithasol.

Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn creu gwaith a chyfleoedd i bobl leol ddatblygu eu sgiliau, pobl sydd efallai dan anfantais yn y farchnad waith. Maent felly'n cyfrannu'n uniongyrchol at strategaethau adfywio a gwella iechyd. Gall fod iddynt rôl bwysig o ran darparu a datblygu gwasanaethau sy'n ddiwylliannol sensitif.

Mae mantais arall i atebion mentrau cymdeithasol. A hwythau'n agos at eu cymunedau ac yn aml yn eu cynrychioli, maent yn gweithio'n unol â blaenoriaethau'r gymuned. Mae ganddynt well dealltwriaeth hefyd o amodau'r farchnad yn lleol gan eu bod wedi ymwreiddio yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gallant ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig yn unol ag agenda wirioneddol gymunedol.

**Adran Saith: Rhwystrau a heriau**

Bydd sawl her wrth sefydlu, datblygu a thyfu menter gymdeithasol. Efallai'n wir mai newid i fod yn fenter gymdeithasol fydd y dewis gorau ac efallai mai dyna'r peth iawn i'w wneud o safbwynt strategol, ond nid yw'n opsiwn hawdd. Bydd yn rhaid wrth strategaethau i gynorthwyo darpar entrepreneuriaid cymdeithasol i oresgyn yr heriau hyn.

- **Mynediad i gyllid**

Hyfywedd ariannol yw un o gerrig sylfaen menter gymdeithasol gynaliadwy ac mae hynny'n golygu sicrhau cymysgedd o ffrydiau refeniw, megis incwm a enillir, benthyciadau, grantiau a rhoddion elusennol. Er nad yw mor ddibynnol ar incwm y wladwriaeth â'r sector gwirfoddol, bydd sector y mentrau cymdeithasol yn wynebu bygythion a chyfleoedd heb eu tebyg o'r blaen yn ystod y blynyddoedd nesaf. Er y gallai cefnogaeth gyffredinol ym maes polisi agor cyfleoedd masnachu newydd wrth i'r sector cyhoeddus gilio oddi wrth ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol, gallai cynlluniau gwario cyhoeddus hefyd olygu bod incwm cyhoeddus yn dod i ben yn gynt nag y mae'r marchnadoedd cyhoeddus yn agor.

Mae'n amhosib darogan beth yn union fydd effaith yr heriau hyn gan fod gormod o ffactorau i'w hystyried. Dyma'r prif ystyriaethau:

- a fydd mathau newydd a mwy arloesol o *gyllid* ar gael i helpu'r sector i weithredu ar raddfa fwy; ac
- a fydd rheolwyr *caffael* yn y sector cyhoeddus yn dod yn llai amharod i gymryd risg a masnachu â mentrau cymdeithasol.

Canfu arolwg diweddar o'r sector fod bron i 40% o'r mentrau a holwyd yn dibynnu ar lywodraeth leol a chanolog am fwy na hanner eu hincwm a chasglodd mai cyllid yw'r arf galluogi mwyaf pan fydd ar gael a'r rhwystr mwyaf o bell pan na fydd. [9]

- **Caffael**

Gall caffael cyhoeddus hefyd roi hwb i ragolygon sector y mentrau cymdeithasol, ond ni all wneud hynny oni fydd rheolwyr y sector cyhoeddus yn dysgu bod yn fwy creadigol o ran y ffordd y maent yn cynllunio ac yn rheoli'r ffordd y maent yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Yn 2009-10, roedd caffael cyhoeddus yn cyfrif am £236 biliwn ar draws y sector cyhoeddus cyfan yn y DU. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae hynny'n bennaf oherwydd tri ffactor yn benodol:

- mae rheolwyr y sector cyhoeddus yn gweithio mewn diwylliant rheoli, lle mae'r gosb yn fwy na'r wobr os aiff gweithredu arloesol o'i le;

---

[9] (SEC, 2009: 32).

- mae natur y metrigau prynu'n golygu yr ystyrir yn aml fod costau isel yn rhoi'r gwerth gorau; ac
- mae'r strwythur llywodraethu o ran caffael yn dameidiog iawn, yn cynnwys cynifer â 44,000 o gyrff cyhoeddus, ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd i arfer da ledaenu oddi wrth y rhai sy'n arwain i'r rhai sydd ar ei hôl hi, ac felly cafwyd nad yw arfer da'n teithio'n dda iawn.[10]

Er bod caffael cydweithredol bellach yn lledaenu drwy'r sector cyhoeddus, mae'r argyfwng ariannol yn golygu bod perygl y bydd y targedau cymdeithasol ac amgylcheddol a gafodd eu cynnwys mewn contractau cyhoeddus yn cael eu taflu o'r neilltu wrth i ddarbodaeth fynd yn drech na chynaliadwyedd.[11]

- **Sgiliau rheoli**

Un o'r ystyriaethau allweddol yn fewnol yw a all y sector gyfiawnhau ei enw – drwy wella'i sgiliau rheoli o ran *menter* gymdeithasol. Yn ogystal â gwella sgiliau pob menter, mae angen i'r sector yn ei gyfanrwydd ddatblygu ei allu ar y cyd i ffurfio consortia er mwyn iddo allu cyflawni pethau ar y cyd na allai un fenter ar ei phen ei hun mo'u cyflawni. Mewn geiriau eraill, mae angen i'r sector sicrhau ar fyrder drefn o gefnogi'r naill a'r llall o fewn yr economi gymdeithasol.[12]

Os oes angen i gomisiynwyr a rheolwyr caffael y sector cyhoeddus gymryd mentrau cymdeithasol yn fwy o ddifrif, mae angen i sector y mentrau cymdeithasol yntau brofi y gall weithredu ar y cyd, drwy ffurfio consortia, er enghraifft, pan fydd am gynnig am gontractau cyhoeddus mawr. Mae angen i'r sector fod yn ddigon mawr i wneud cynnig ac yn ddigon bach i gyflawni – hynny yw, rhaid iddo fod yn ddigon mawr i wneud cynnig dilys am gontract mawr, ac unwaith y bydd wedi ennill y contract, gall rannu'r contract hwnnw rhwng y mentrau cymdeithasol sy'n aelodau, a all ei gyflwyno yn eu cymunedau eu hunain, lle maent yn adnabod yr ardal yn well na neb.

Er mwyn i fenter gymdeithasol lwyddo, mae'n rhaid iddi ystyried:
- Efallai y bydd angen gwneud newidiadau mawr i drefniadau staffio, rheoli a llywodraethu corfforaethol presennol.
- Efallai y bydd yn rhaid i aelodau allweddol o staff fod yn fwy 'entrepreneuraidd'.
- Efallai y bydd yn rhaid i 'ethos' y sefydliad esblygu.
- Gall proses datblygu strategaeth hirdymor lesteirio gwaith rheoli byrdymor.
- Gallai fod risg i'w statws elusennol.
- Gallai fod gwrthwynebiad i'r newid yn fewnol.

Rhaid ymdrin â'r tri hyn – cyllid, caffael a sgiliau – gyda'i gilydd oherwydd maent yn heriau sy'n annatod gysylltiedig. Os gellir ymdrin â'r tair her hon,

10 (Morgan a Sonnino, 2010).
11 (Morgan, 2011)
12 (Pearce, 2003: 115).

mae'r rhagolygon ar gyfer sector y mentrau cymdeithasol yn well nag y buont erioed.

**Rhwystrau mewnol i ddatblygu**

Nid yw'n hawdd newid i fod yn fenter gymdeithasol. Mae sawl rhwystr mewnol y bydd yn rhaid eu goresgyn yn fewnol, yn eu plith:

- Efallai y bydd angen gwneud newidiadau mawr i drefniadau staffio, rheoli a llywodraethu corfforaethol presennol.
- Efallai y bydd yn rhaid i aelodau allweddol o staff fod yn fwy 'entrepreneuraidd'.
- Efallai y bydd yn rhaid i 'ethos' y sefydliad esblygu.
- Gall proses datblygu strategaeth hirdymor lesteirio gwaith rheoli byrdymor.
- Gallai fod risg i'w statws elusennol.
- Gallai fod gwrthwynebiad i'r newid yn fewnol.

**Heriau datblygiad y farchnad**

Yn ogystal â'r uchod, gallai mentrau cymdeithasol newydd ei chael yn anodd iawn cystadlu â darparwyr sefydledig. Er enghraifft:

- Efallai y bydd yn rhaid iddynt gynnig cyflogau uwch na chwmnïau sefydledig er mwyn denu a chadw staff
- Sut all menter fach leol gynhyrchu pryd bwyd sy'n benodol o ran diwylliant i nifer fach o bobl am yr un pris ag y mae cwmni rhyngwladol yn cynhyrchu prydau wedi'u rhewi i nifer o awdurdodau?

**Adran Wyth: Mae gofal cymdeithasol yn faes parod i ddatblygu mentrau cymdeithasol**

Mae'r rhagolygon o ran newidiadau yn y boblogaeth dros y degawd nesaf, ynghyd â nifer gynyddol o bobl hŷn a chyfradd genedigaethau sy'n gostwng, yn golygu bod sawl her i sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Mae amcanestyniadau poblogaeth ledled Cymru'n nodi rhai newidiadau arwyddocaol dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda 75% yn fwy o bobl 75+ fel cyfran o'r boblogaeth gyffredinol erbyn 2031. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn digwydd yn ardaloedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Yn ystod yr un cyfnod, mae gostyngiad yn nifer y bobl o oedran gweithio. Mae goblygiadau arwyddocaol i'r newid yn y proffil demograffig, a bydd yn dod yn fwyfwy o her i'r GIG a llywodraeth leol reoli'r gofynion sydd arnynt, oni ddatblygir dulliau a modelau gwasanaeth newydd sy'n manteisio ar gyfleoedd i gydweithio, gan gynnwys y rhai hynny y gall y trydydd sector eu cynnig.

Mae polisi cenedlaethol yn amlinellu ac yn atgyfnerthu'r angen i ddiogelu a chefnogi annibyniaeth, a gwneud yn fawr o gyfleoedd i fyw'n annibynnol.

Oherwydd pwysau cynyddol y newid demograffig hwn, sy'n arwain at fwy o alw a llai o wariant cyhoeddus, mae angen mynd ati i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd wahanol, a rhoi mwy o bwyslais o lawer ar atal ac ymyrraeth gynnar, a datblygu mwy o gefnogaeth yn y gymuned a fydd yn golygu na fydd angen gwasanaethau mwy costus.

Mae traddodiad hir o gynnwys y gymuned wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cyn sefydlu'r GIG, byddai llawer o gymunedau'n codi ac yn rheoli eu hysbytai eu hunain. Mae elusennau a sefydliadau gwirfoddol bob amser wedi ariannu a darparu gwasanaethau hanfodol i bobl hŷn, ac maent yn dal i wneud hynny. Yn y blynyddoedd diwethaf mae strategaethau Llywodraeth Cymru wedi annog amrywiaeth yn y ddarpariaeth, a datblygu'r sector annibynnol. Ar yr un pryd mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus wedi canolbwyntio mwy ar gomisiynu a chaffael gwasanaethau, ac mae hynny wedi arwain i raddau at ddarparu'n allanol rai gwasanaethau oedd yn arfer cael eu darparu'n fewnol.

Mae mentrau cymdeithasol yn ymwneud â gofal ac iechyd am dri rheswm:

- er mwyn darparu gofal
- er mwyn darparu swyddi
- er mwyn adeiladu cryfder cymunedau

Mae'n dibynnu'n llwyr ar pam y mae pobl am weithio fel hyn, a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni. Er enghraifft:

- Efallai y bydd cwmni cydweithredol gweithwyr sy'n darparu gofal yn y cartref yn ymwneud yn bennaf â chreu mwy o swyddi neu swyddi gwell i weithwyr gofal yn y cartref, ond bydd hefyd yn ymwneud ag ansawdd y gofal, ac ehangu'r dewis i'r rhai hynny sydd ei angen.

- Nid yw banc amser, sy’n dod ag adnoddau cymunedol i helpu pobl hŷn i wneud tasgau ymarferol, ac sy’n rhoi gwerth ar gyfraniad pobl hŷn i’w cymunedau, yn ymwneud yn bennaf â darparu gofal cymdeithasol cymhleth a dwys. Mae’n ymwneud ag adeiladu cymunedau, yn ogystal â darparu adnodd allweddol sy’n golygu y gall pobl hŷn fyw bywydau hwy a mwy annibynnol. Mae’n bosib na fydd yn creu ond ychydig o swyddi, neu ddim o gwbl.

- Mae gan ymddiriedolaeth ddatblygu sy’n rhedeg canolfan gofal ychwanegol i bobl hŷn ddiddordeb yn natblygiad a chynaliadwyedd y gymuned y mae’n ei chynrychioli, creu swyddi yn y gymuned a helpu pobl hŷn i gael gofal yn y gymuned lle maent yn byw.

- Efallai y bydd sefydliad cymunedol bach lleol sy’n rhedeg canolfan ddydd i bobl hŷn â dementia, dan gontract i awdurdod lleol, yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd da ar gael yn rhwydd i’r rhai sydd ei angen. Er hynny, drwy ei aelodaeth leol, a’i waith eirioli ac ymgyrchu, mae’n debyg y bydd hefyd yn ymwneud â helpu’r gymuned leol i dderbyn a deall dementia. Mae’n bosib y bydd yn defnyddio gwirfoddolwyr i helpu yn y ganolfan, neu i helpu gyda chludiant.

Noda’r Adran Iechyd[13] y manteision isod i gleifion a’r rhai sy’n defnyddio gwasanaethau, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a’r trydydd sector...

**...i gleifion a’r rhai sy’n defnyddio gwasanaethau**

- Mae mentrau cymdeithasol yn cynnwys cleifion, staff a’r rhai sy’n defnyddio gwasanaethau wrth gynllunio’r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Golyga hynny fod gwasanaethau wedi’u teilwra’n well at anghenion y cleifion a’r rhai sy’n defnyddio gwasanaethau a’u bod yn seiliedig ar wybodaeth arbenigol am ardal benodol.
- Mae mentrau cymdeithasol yn buddsoddi unrhyw elw dros ben yn ôl yn y gymuned neu i ddatblygu gwasanaethau. Golyga hynny fod mentrau cymdeithasol yn aml iawn o fudd i’r gymuned gyfan yn ogystal â’r bobl sy’n defnyddio’u gwasanaethau.
- Mae cleifion, staff a’r rhai sy’n defnyddio’r gwasanaethau’n rhan o’r gwaith o gynllunio gwasanaethau.

**...i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol**

- Mae mentrau cymdeithasol yn cynnig cyfle i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn ffyrdd sy’n hyblyg, heb fod yn fiwrocrataidd, a chanddynt botensial i roi gwerth am arian. Mae hefyd yn golygu y gall sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu gwasanaethau wedi’u teilwra at anghenion y boblogaeth leol, a gwneud gwahaniaeth i’r gymuned leol. Am fod y staff yn rhanddeiliaid mewn mentrau cymdeithasol, mae profiad yn dangos eu bod yn ymroddedig iawn i amcanion y gwasanaeth, a bod

13 http://www.dh.gov.uk/en/Managingyourorganisation/Socialenterprise/Whataretheadvantages/index.htm

hynny'n dod â budd i'r sefydliad, er enghraifft drwy iddo allu cadw ei staff yn well.
- Gwasanaethau o ansawdd da: hyblyg, heb fod yn fiwrocrataidd, gwerth da.

**...i'r trydydd sector**

- Mae gan sefydliadau'r trydydd sector arbenigedd mewn meysydd penodol, ac maent yn deall y grwpiau y maent yn eu cynrychioli. Maent yn deall sut y dylid darparu gwasanaethau i fodloni anghenion pobl hŷn orau. Mae modelau mentrau cymdeithasol yn gyfle i feithrin perthynas fasnachol gref rhwng y rhai sy'n comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector cyhoeddus a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hynny yn y trydydd sector.
- Mae ganddynt arbenigedd ac maent yn deall y grwpiau y maent yn eu cynrychioli.

**Adran Naw: Ymagwedd Llywodraeth y DU at ofal cymdeithas a mentrau cymdeithasol**

Dros y deng mlynedd neu fwy diwethaf, mae'r diddordeb wedi tyfu mewn ffurfiau cyfundrefnol gwahanol ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae sawl rheswm cydgysylltiedig am hyn, gan gynnwys:

- Pwysau parhaus i leihau costau darparu gwasanaethau ac i weithio'n fwy effeithlon
- Awydd i greu sefydliadau sy'n meithrin ymagwedd entrepreneuraidd tuag at wasanaethau cyhoeddus, sy'n ysgogi gwaith arloesol ac ymatebion mwy hyblyg i ymdrin ag anghenion
- Ffordd o greu marchnadoedd mwy amrywiol, sy'n rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i'r cwsmer
- Rhywfaint o dystiolaeth bod staff sy'n gweithio mewn sefydliadau o'r fath yn debyg o fod yn fwy brwd a theimlo bod ganddynt fwy o ymreolaeth, a hynny'n arwain at waith mwy cynhyrchiol gyda llai o absenoldebau o'r gwaith, sydd yn ei dro'n gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Roedd y diddordeb mewn dewisiadau eraill yn lle darparu gwasanaethau'n uniongyrchol yn un elfen o'r diwygiadau i iechyd a gofal cymdeithasol a gyflwynwyd gan y llywodraeth flaenorol. Dyma rai o'r datblygiadau arwyddocaol:

Ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth '*Our health, our care, our say: a new direction for community services',* a gyhoeddwyd yn 2006, cyflwynwyd cynlluniau i newid yn sylfaenol y modd y darperir gwasanaethau, ar sail awydd am wasanaethau sydd wedi'u 'personoleiddio', a dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau, ac roedd hynny'n cynnwys croesawu ymdrechion gan staff y GIG i sefydlu eu busnesau eu hunain ar ffurf mentrau cymdeithasol.

- Sefydlwyd Uned Menter Gymdeithasol o fewn yr Adran Iechyd i oruchwylio a chydlynu'r gwaith a chyflwynwyd *Rhaglen Arloeswyr Menter Gymdeithasol* er mwyn deall yn well y cyfraniad y gallai mentrau cymdeithasol ei wneud i iechyd a gofal cymdeithasol. Dilynodd y rhaglen hon 26 o fentrau cymdeithasol ac aseswyd y rhaglen yn fanwl; ceir crynodeb o'r asesiad hwnnw yn "*Leading the way through social enterprise: the social enterprise pathfinder programme evaluation".* Amlygodd yr asesiad hwnnw y ffactorau hynny sydd fel petaent yn ddangosyddion cynnar o lwyddiant, yn ogystal â rhai o'r prif heriau.

- Yn 2007, sefydlodd yr Adran Iechyd y Gronfa Buddsoddi mewn Mentrau Cymdeithasol (SEIF) i sbarduno rôl mentrau cymdeithasol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, drwy ddarparu buddsoddiadau i helpu mentrau cymdeithasol newydd i gychwyn a helpu'r rhai sydd eisoes yn bodoli i dyfu a gwella eu gwasanaethau. Mae Cronfa SEIF yn dal i fynd ac fe'i rheolir ar ran yr Adran Iechyd gan y Busnes Buddsoddi

Cymdeithasol (*Social Investment Business*) yn gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Lleol

- Cyhoeddwyd *Next Stage Review of the NHS Final Report* yn 2008, ac mae'n cydnabod y cyfraniad pwysig y gallai mentrau cymdeithasol ei wneud i wasanaethau iechyd cymunedol, ac yn rhoi ymrwymiad y bydd staff Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn cael yr 'hawl i wneud cais' i sefydlu mentrau cymdeithasol, ac mae hynny'n gysylltiedig â'r gofyniad bod yr Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn ildio'u darpariaeth iechyd cymunedol uniongyrchol.
- Yn sgil hynny, rhoddwyd cymeradwyaeth i dair ton ddilynol o'r 'hawl i wneud cais', a phedwar ohonynt yn ne ddwyrain Lloegr
- O ran gofal cymdeithasol, ym mis Rhagfyr 2007, cyhoeddwyd *Putting People First* (PPF), sy'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer gweddnewid gofal cymdeithasol i oedolion ar sail pedair colofn gyfalaf gymdeithasol, sef gwasanaethau i bawb; atal problemau ac ymyrryd yn gynnar; a dewis a rheoli drwy Gyllidebau Personol. Yn sgil gweddnewid y gyfundrefn gyfan, roedd disgwyl dull lleol ac integredig o weithio a fyddai'n cynnwys cefnogi "arloesi yn y trydydd sector/y sector preifat, gan gynnwys mentrau cymdeithasol."
- Tua'r un pryd cychwynnodd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ar gynllun peilot o Bractisau Gwaith Cymdeithasol i blant sy'n derbyn gofal yn Lloegr. Dechreuodd y gwaith peilot hwn yn 2008, gan gynnwys un yng Nghaint, a phedwar cynllun peilot arall a lansiwyd ym mis Medi 2010. Yn sgil y Practisau Gwaith Cymdeithasol crëwyd sefydliadau annibynnol, dan arweiniad gweithwyr cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal. Mae hynny wedi golygu bod gweithwyr cymdeithasol yn gadael swyddi yn y sector cyhoeddus i greu eu mentrau cymdeithasol eu hunain sy'n berchen i'r gweithwyr.
- Mae'r Llywodraeth Glymblaid wedi parhau â'r 11 o gynlluniau peilot ac maent yn cael eu hasesu gan Gyngor Datblygu Gweithlu'r Plant, er y dylid nodi nad yw pob un o'r cynlluniau peilot wedi ymsefydlu fel sefydliadau newydd cwbl annibynnol.
- Mae'r Llywodraeth Glymblaid yn hyrwyddo modelau busnes eraill yn gryf, megis mentrau cydfuddiannol a chydweithredol, yn rhan o'i chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus ac agenda'r 'Gymdeithas Fawr'.
- Y gred ar hyn o bryd yw y bydd modd i gymunedau a gweithwyr yn y sector cyhoeddus weddnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu drwy ddefnyddio modelau amgen.

## Adran Deg: Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru?

Wrth lunio'r papur tystiolaeth hwn, cafwyd trafodaethau â sawl menter gymdeithasol yng Nghymru, y trydydd sector, arbenigwyr caffael, uned menter gymdeithasol Llywodraeth Cymru, y sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol ac arweinwyr polisi yn Lloegr, a llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Heb os, mae diddordeb a pharodrwydd mawr iawn i ddeall mwy am fentrau cymdeithasol, eu manteision i'r dinasyddion yn ogystal ag awydd i ddeall mwy am sut y gellid cynorthwyo'r sector a'i ddatblygu'n lleol. Serch hynny, mae darlun mentrau cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol ledled Cymru, at ei gilydd, yn wasgaredig a thameidiog. Ceir enghreifftiau penigamp o fentrau cymdeithasol yng Nghymru ac mae rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi amser i ddatblygu eu strategaethau.

**Canlyniadau Ymchwil**
Dengys y gwaith ymchwil[14] fod sawl elfen allweddol sydd i'w gweld yn ymddangos yn gyson drwy'r holl destunau perthnasol cyfredol a'r enghreifftiau o arfer. Gellid eu crynhoi fel hyn:

**Fframweithiau Eang a Rhaglenni Gofal a Reolir**

- Dulliau sy'n integredig ar draws y disgyblaethau o ddatblygu a rheoli gofal
- Targedu pobl sydd mewn perygl mawr a chynllunio gwasanaethau i fodloni eu hanghenion
- Ymateb yn gyflym er mwyn osgoi dirywiad a "throsglwyddo gofal"

**Ymgysylltu â Defnyddwyr**

- Gofal sy'n canolbwyntio ar y cleient/claf gyda phartneriaeth ddilys rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau/cleifion wrth reoli cyflyrau
- Strategaethau a phrosesau clir i gynnwys defnyddwyr wrth wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau
- Llawer iawn o hunan-reoli ac addysg

**Ymgysylltu â'r Gymuned**

- Mynd ati i ddatblygu adnoddau cymunedol er mwyn datblygu gwaith ymateb cyntaf, monitro a mentrau cymdeithasol
- Dychymyg wrth ddefnyddio cyfleusterau cymunedol lleol

**Defnyddio Technoleg**

- Teleofal a monitro
- **Dysgu Gweithredol yn y Sefydliad**

[14] Cynhaliwyd yn ystod mis Ionawr – Ebrill 2012

- Gallu cael gafael yn rhwydd ar sgiliau arbenigol, gwybodaeth a rhannu arfer da
- Gwerthuso a dysgu ffurfiannol a chyfunol parhaus
- Dychymyg wrth ddatblygu'r gweithlu gan gynnwys estyn ac ailddiffinio rolau traddodiadol a datblygu rolau newydd ar draws ffiniau proffesiynol

Mae gwaith ymchwil[15] a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn 2008 gan Sector Projects, Geoeconomics a The Research Unit yn dangos:

- **bod y rhan fwyaf o fentrau cymdeithasol yng Nghymru'n gweithio ym maes hyfforddiant ac addysg (yn aml i bobl ddifreintiedig); y celfyddydau a'r Gymraeg; gwasanaethau menter gymdeithasol, y sector gwirfoddol neu gymorth i fusnesau; iechyd a gofal cymdeithasol; a chwaraeon a hamdden.**

Mae bron i bedair o bob deg (37%) yn darparu gwasanaethau i blant a thros eu chwarter yn gweithio gyda phobl hŷn. Mae tuedd i ganolbwyntio hefyd ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae sefydliadau mwy, a'u trosiant yn fwy na £500,000, yn fwy tebygol o fod yn gweithio ym maes tai (24%), gofal iechyd (11%) ac ailgylchu (10%). Ymhlith y mentrau cymdeithasol mwyaf un, y rhai hynny y mae eu trosiant yn fwy na £5m, mae 60% yn darparu tai cymdeithasol, chwarter (27%) yn darparu gofal cymdeithasol ac 8% yn cynnig darpariaeth addysgol a chelfyddydol.

- **Mae mentrau cymdeithasol yn cyfrif am oddeutu 29,000 o swyddi llawn amser, 20,000 o swyddi rhan amser a 105,000 o gyfleoedd gwirfoddoli.**

Nid oes gan oddeutu hanner y sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch mentrau cymdeithasol staff llawn amser. Ymhlith y rhai hynny a chanddynt staff llawn amser, dim ond eu chwarter sydd â mwy na deg aelod o staff llawn amser.

- **Yn ne-ddwyrain Cymru a Chaerdydd yn benodol mae mentrau cymdeithasol mwy ond mae mwy o fentrau cymdeithasol y pen yng ngweddill Cymru.**

Yng Nghaerdydd y mae 22% o'r mentrau mawr (trosiant blynyddol o dros £1 filiwn), ond mae cyfran y mentrau bach yn llai o lawer yno – ychydig dros 6%. Mae'r patrwm hwn yn debyg i awdurdodau eraill yn y de-ddwyrain.

Mae dros draean (36%) y mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n darparu gwasanaethau o fewn ardal ddeng milltir, ac yn arbennig felly sefydliadau llai.

---

15 http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=social%20enterprise%20%20social%20care%20case%20studies%20in%20wales&source=web&cd=20&ved=0CGgQFjAJOAo&url=http%3A%2F%2Fwww.assemblywales.org%2Fbus-home%2Fbus-committees%2Fbus-committees-scrutiny-committees%2Fbus-committees-third-els-home%2Fbus-committees-third-els-agendas.htm%3Fact%3Ddis%26id%3D188364%26ds%3D7%2F2010&ei=RFfDT4bUJMri8APF6q3TCg&usg=AFQjCNH25YxNd6iTa5F3CuxZ_7P-eKpS2Q

Dim ond un o bob wyth menter gymdeithasol yng Nghymru ddywedodd ei bod yn darparu gwasanaethau ledled Cymru, ac mae'r rheiny'n fwy tebygol o fod yn sefydliadau mwy.

- **Dywedodd dros hanner y sefydliadau a gafodd eu cyfweld (55%) eu bod wedi gwneud gwarged elw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac roedd oddeutu hanner y sefydliadau a gafodd eu cyfweld (48%) yn bwriadu cynyddu eu cyfran o incwm a enillir ymhen tair blynedd.**

Mae bron i hanner y sefydliadau sy'n gwneud gwaith mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n hŷn na phymtheg oed. Mae gan y rhan fwyaf (59%) o'r sefydliadau hyn statws elusennol. Mae'r proffil hwn yn newid: nid oes gan y rhan fwyaf (60%) o sefydliadau o dan bum mlwydd oed statws elusennol. Mae data'n awgrymu bod y sefydliadau hynny'n dechrau fel mentrau cymdeithasol, yn hytrach na'u bod yn elusennau sy'n arallgyfeirio i fod yn fentrau cymdeithasol.

Gall mentrau cymdeithasol newydd ddod yn gymharol hunangynhaliol yn gyflym iawn: ym mhob categori band oedran isod, mentrau cymdeithasol sefydledig yw'r math mwyaf cyffredin o fentrau cymdeithasol.

- **Mae dros dwy ran o dair (68%) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg barn yn awyddus i ddarparu mwy o wasanaethau neu wasanaethau newydd i'r sector cyhoeddus, ac eto mae cryn dipyn o broblemau o ran ymwybyddiaeth a materion yn ymwneud â chontractau ar yr ochr gyflenwi a galw fel ei gilydd.**

Mae gwasanaethau cyhoeddus dan gontract yn ffynhonnell incwm bwysig i rai mentrau cymdeithasol, er nad ydynt cyn bwysiced â gwerthu cynnyrch a gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion neu sefydliadau eraill. I rai, mae'r newid o gyllid grant i gaffael cyhoeddus yn digwydd yn rhy gyflym ac maent am weld cyllid grant craidd yn ystod y cyfnod trosglwyddo er mwyn iddynt allu meithrin gallu i gynnig am gontractau a'u hennill.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn dangos parodrwydd i dyfu mentrau cymdeithasol ac yn rhoi pwyslais cynyddol ar roi cyfleoedd i fentrau cymdeithasol ffynnu, ond roedd bron i un o bob pump o'r ymatebwyr o'r farn mai'r her fwyaf i'w sefydliad o ran darparu gwasanaethau'r sector cyhoeddus oedd diffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiad ar ran cyrff y sector cyhoeddus. Roedd ddiffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiadau cyfeiliornus am fentrau cymdeithasol yn thema gref yn y cyfweliadau.

Ymhlith yr heriau eraill i fentrau cymdeithasol sydd am ddarparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus mae:

- Cyndynrwydd ymddangosiadol cynghorau lleol i roi ar gontract wasanaethau y mae'r cyngor ei hun yn eu darparu ar hyn o bryd.
- Graddfa fawr contractau, sy'n golygu bod yn rhaid i lawer o fentrau cymdeithasol gynnig fel isgontractwyr, os gallant gynnig o gwbl.

- Diffyg cydnabyddiaeth i werth creu budd cymdeithasol ym manylebau'r tendrau.
  Telerau talu hwyr a thaliadau araf cyrff y sector cyhoeddus.

Mae llai nag 20% o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld wedi'u cofrestru â 'GwerthwchiGymru' er mwyn cael newyddion am gyfleoedd tendro.

Dim ond un o bob deg sy'n gwybod am y Siarter Agor Drysau, set Llywodraeth Cynulliad Cymru o egwyddorion ar gyfer caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig (a mentrau cymdeithasol).

At ei gilydd, y farn yw fod canllawiau ar gael i sicrhau bod rheolau caffael yn gyfeillgar tuag at y trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ond bod angen rhoi'r canllawiau hyn ar waith yn fwy eang yn lleol.

- **Dywedwyd mai cynghorau lleol oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin a'r mwyaf pwysig o ran cymorth busnes, sy'n tanlinellu pwysigrwydd y berthynas â'r sector cyhoeddus i waith y mentrau cymdeithasol. Roedd galw am gymorth proffesiynol mwy penodol wedi'i deilwra.**

Er y cyfeiriwyd at y cynghorau lleol fel y ffynhonnell bwysicaf o gymorth busnes, mae hynny'n fwy tebygol o ymwneud â dangos y ffordd a rhoi gwybodaeth am gyfleoedd cyllid a chontractau yn hytrach na chymorth strwythuredig o ran datblygu'r busnes neu feithrin gallu.

Nesaf ar restr y rhai mwyaf pwysig sy'n darparu cymorth mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), ynghyd â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol. Mae mwy o alw am gymorth CGGC ymhlith y sefydliadau hynny sydd wedi'u cofrestru'n elusennau, a chan 'egin' fentrau cymdeithasol. Roedd 13% o'r rhai a ymatebodd yn cael cyngor gan Gymunedau'n Gyntaf.

Darparwyr sy'n arbenigo ar roi cymorth i fentrau cymdeithasol oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin arall o gymorth busnes, ac yn arbennig felly Ganolfan Gydweithredol Cymru (17%), Menter Gymunedol Cymru (4%), DTA Cymru (4%) a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru (2%).

Mae galw am ddatblygu ymhellach y seilwaith cymorth busnes i fentrau cymdeithasol – mwy o ddarparwyr cymorth annibynnol, arbenigol sy'n adnabod ac yn deall mentrau cymdeithasol a busnes ac sy'n dod â sgiliau'r sector preifat i fentrau cymdeithasol.

Mae rhywfaint o alw hefyd am rwydweithio a mentora rhwng cymheiriaid; roedd 7% o' rhai a ymatebodd yn cael cyngor a chymorth busnes gan fentrau cymdeithasol eraill.

Y maes lle'r hoffai'r nifer fwyaf o dipyn o ymatebwyr weld rhagor o gyngor a chymorth yw mynediad i gyllid; cyfeiriodd 44% o'r ymatebwyr at hyn. Ymhlith y meysydd eraill lle hoffai mentrau cymdeithasol gael mwy o gyngor mae

cynllunio strategol a busnes (18%), gwirfoddoli (15%), arallgyfeirio ffrydiau incwm (14%), datblygu partneriaethau (14%), a rheoli ariannol (13%).

- **Mae mentrau cymdeithasol yn teimlo y gallant arloesi drwy eu model busnes a thrwy fwy o gysylltiad â'r gymuned a defnyddwyr gwasanaethau, ond maent yn teimlo bod dulliau caffael y sector cyhoeddus a diffyg cydweithio o fewn yn sector yn eu llesteirio.**

Roedd diffyg dealltwriaeth gan yr awdurdodau lleol ynghylch mentrau cymdeithasol a diffyg ymgysylltu â hwy'n peri llawer o rwystredigaeth.

Er y gallant ymaddasu ac ymateb i agendâu newydd o ran gwasanaethau cyhoeddus, gall contractau, rheolau a ffyrdd o weithio yn y sector cyhoeddus beri rhwystredigaeth i fentrau cymdeithasol, a hoffent allu cael gafael ar gyllid prif ffrwd lle gallant gyflawni'n effeithiol yn erbyn targedau.

Mae llawer o fentrau cymdeithasol nad ydynt yn barod i weithredu ar raddfa fwy neu nad ydynt am wneud hynny. Mae bron i hanner y sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn gweithio o fewn radiws 20 milltir, a chan mai ymateb i anghenion lleol yw un o'r cryfderau allweddol, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y bydd y rhan fwyaf o fentrau cymdeithasol yng Nghymru'n parhau i ganolbwyntio ar yr elfen leol.

Mae dyblygu'n un ffordd y gellid cyfuno gweithredu ar raddfa fwy ac aros yn lleol – mae gweithio gyda busnesau lleol a'u gweddnewid yn fentrau cymdeithasol yn strategaeth arloesol arall ar gyfer twf y mae rhai mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n edrych arni.

Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn cydnabod bod angen mwy o gydweithio a phartneriaethau i feithrin arloesedd a datblygiad.

- **Roedd barn yr ymatebwyr am rôl a dylanwad Llywodraeth Cymru'n gadarnhaol at ei gilydd. Roedd barn yr awdurdodau lleol yn fwy cymysg.**

Y farn gyffredinol oedd y dylai Llywodraeth Cymru helpu i fywiogi'r sector a chefnogi twf y sector, ac yn arbennig felly yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Y prif faes yr hoffai ymatebwyr ei weld yn cael mwy o sylw gan Lywodraeth Cymru yw cyllid, naill ai'n gyllid uniongyrchol neu'n gymorth i gael gafael ar gyllid. Cyfeiriodd cyfanswm o 59% o'r rhai a gafodd eu cyfweld at gyllid mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Yn nodweddiadol, hoffai mentrau cymdeithasol allu cael gafael ar gyllid craidd tymor hwy (o leiaf dair i bum mlynedd) i'w fuddsoddi i ddatblygu eu gwaith yn hytrach na chyllid untro i brosiectau penodol. Mae hyrwyddo, cydnabod a defnyddio mentrau cymdeithasol hefyd yn uchel ar agenda'r hyn yr hoffai'r rhai a gafodd eu cyfweld i Lywodraeth Cymru wneud mwy ohono. Mae canfyddiad bod diffyg dealltwriaeth ynghylch mentrau cymdeithasol yn llesteirio twf a chyfleoedd. Un alwad gyffredin oedd i

Lywodraeth Cymru fod yn fwy blaengar o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth mentrau cymdeithasol.

Dywedodd pob un o'r rhai a gafodd eu cyfweld nad yw pobl yn deall y term menter gymdeithasol yn eang o fewn eu sefydliad neu o fewn eu cymunedau, ac roedd pob un o'r farn y byddai o fudd i'w busnes pe bai dealltwriaeth ehangach o'r term. Fodd bynnag, roedd llawer o'r farn nad oedd barn glir am yr hyn y mae bod yn fenter gymdeithasol yn ei olygu, hyd yn oed ymhlith mentrau cymdeithasol eu hunain. Efallai y byddai segmentu marchnad y mentrau cymdeithasol yn fuddiol i'r perwyl hwnnw.

Y farn oedd fod Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru'n arfer da ac roedd enw da iddo. Ond credir bod angen i'r dull hwn ymwreiddio'n systematig i arferion comisiynu. Dywedwyd hefyd nad oes digon o gyfarwyddyd i gomisiynwyr ar ffyrdd o ysgogi cydfuddiannu wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau.

**Golwg ar Awdurdodau Lleol**

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, cafwyd trafodaethau â nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru, sef: Caerffili, Sir Benfro, Abertawe, Casnewydd, Ceredigion, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Wrecsam ac Ynys Môn. Cafwyd trafodaethau hefyd â CGGC, darparwyr y sector gwirfoddol a'r AGGC.

Roedd y trafodaethau hyn yn ategu canfyddiadau'r gwaith ymchwil arall, sef bod y darlun yn gymysg drwy Gymru. Mae pob awdurdod lleol yn awyddus i ddatblygu mentrau cymdeithasol yn lleol, ond nid oedd y rhan fwyaf yn siŵr sut i fynd ati i wneud hynny na beth yn union yw menter gymdeithasol. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'u sefyllfa bresennol o ran mentrau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, soniodd llawer o awdurdodau lleol am brosiectau bach a oedd yn gweithio'n lleol (adfer dodrefn, caffis, radio, gerddi marchnad), neu am gyfle anabledd neu gynllun creu swyddi a hyfforddi. Ychydig iawn o enghreifftiau a gafwyd o fentrau cymdeithasol go iawn yn darparu gofal cymdeithasol.

Roedd pob un o'r farn y gallai mentrau cymdeithasol, o'u deall a'u rheoli'n iawn, fod yn allweddol i wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy a helpu i weddnewid y sector yn y ffordd sydd ei angen.

Roedd sawl un wedi ystyried y cyfleoedd o ran mentrau cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol yn sgil Southern Cross ond araf fu unrhyw gamau i fwrw ymlaen â hynny. Mae'r rhan fwyaf yn aros am gyngor clir oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae Abertawe wedi paratoi achos busnes ar opsiynau ar gyfer rheoli eu cartrefi gofal fel Cwmni Masnachu Annibynnol ac er nad yw hynny'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, mae gwersi gwerthfawr i bawb eu dysgu o'r broses yr aethant drwyddi.

Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro Ynys Môn bryd hynny wedi sefydlu menter gymdeithasol, y mae hefyd yn ei rheoli, sydd bellach yn darparu gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae gwersi gwerthfawr i'w dysgu o'r profiad hwn.

Dyma'r rhwystrau y cyfeiriodd bron pob un o'r awdurdodau atynt:

- Diffyg dealltwriaeth o beth yw menter gymdeithasol
- Dim amgyffred ynghylch y gofynion llywodraethu
- Angen deall effaith a chanlyniadau menter gymdeithasol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a staff – astudiaethau achos go iawn
- Porth/lle canolog ar gyfer gwybodaeth a chyngor
- Diffyg gwybodaeth am "sut i …."
- Diffyg rhwydwaith canolog/opsiwn dysgu
- Cyllid
- Pryderon am asedau cyfalaf a buddsoddi cyfalaf yn enwedig mewn cartrefi gofal
- Cydbwysedd rhwng sgiliau busnes ac ymwybod cymdeithasol
- Ofn newid a cholli rheolaeth
- Diffyg dealltwriaeth ymhlith uwch swyddogion ac aelodau etholedig
- Diffyg arweinyddiaeth a gweledigaeth gan Lywodraeth Cymru
- Risg ariannol uchel

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol gwneud y pethau hyn:

- Hyrwyddo manteision mentrau cymdeithasol gydag enghreifftiau go iawn
- Digwyddiadau ymwybyddiaeth rhanbarthol ar gyfer aelodau etholedig a staff uwch
- Astudiaethau achos sy'n dangos effaith a chanlyniadau'r model darparu hwn
- Arweinyddiaeth go iawn a chyllid i roi hwb i'r farchnad
- Strategaeth ac ymagwedd hirdymor
- Cefnogi cynlluniau peilot yng Nghymru
- Rôl hwyluso
- Sefydlu rhwydwaith ymarfer a llawlyfr ar sut i wneud hyn….
- Edrych yn greadigol ar reoliadau a chaffael
- Sicrhau cymorth da i fusnesau
- Annog gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau
- Rhannu'r dysgu
- Setiau dysgu gweithredol
- Gweithdai ar gaffael
- Mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu fel banc go iawn yn hytrach na rhoi grantiau ariannol blynyddol
- Peidio â cheisio gwneud popeth – canolbwyntio ar rai llwyddiannau da

Awgrymwyd y cyfleoedd gofal cymdeithasol isod y gallai mentrau cymdeithasol eu darparu:

- Cartrefi gofal preswyl.
- Clybiau cinio.
- Adfywio cymunedau a gwella iechyd.
- Gofal canolraddol.
- Gofal cartref.
- Darparu gwaith cymdeithasol.
- Ailalluogi.
- Ymateb cyflym.
- Tele ofal.
- Maethu.
- Gofal ychwanegol.
- Gwasanaethau penodol i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Cefnogi pobl yn eu cartrefi: gofal yn y cartref, gofal seibiant a gofal dydd.
- Gwasanaethau cymorth yn y cartref.
- Cynlluniau gwaith a hyfforddi i bobl anabl.
- Tai gwarchod.
- Trwsio cartrefi er mwyn i'r henoed allu aros allan o ofal preswyl.
- Undebau credyd sy'n rhoi sicrwydd ariannol i bobl sy'n agored i niwed.
- Cydweithfeydd bwyd.
- Hosbisau.
- Clinigau osteopatheg a chlinigau iechyd cyflenwol eraill.
- Gwasanaethau atodol, megis cyfeillio, mân swyddi, cludiant a garddio.
- Darparu gwasanaethau atodol:
    - ➢ Defnyddio gwirfoddolwyr a gydlynir gan fenter gymdeithasol i ddarparu gwasanaethau atodol.
    - ➢ Gweinyddu cynlluniau taliadau uniongyrchol, er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau allu prynu eu gofal eu hunain.
    - ➢ Asiantaethau hyfforddi a recriwtio, er mwyn i bobl allu prynu gofal yn uniongyrchol oddi wrth ofalwyr cymwys ac addas.
    - ➢ Creu cydweithfeydd 'eilaidd' neu 'asiantaeth' i ddarparu gwasanaethau marchnata a chymorth i weithwyr gofal hunangyflogedig.

Fel pob busnes, mae mentrau cymunedol yn cael eu harwain gan y farchnad. Bydd cyfleoedd ar gael lle bynnag y ceir:

- pobl neu gyrff, gan gynnwys y llywodraeth, a chanddynt anghenion neu flaenoriaethau
- cyllid sydd ar gael i dalu am wasanaethau i fodloni'r anghenion hynny
- modelau mentrau cymdeithasol sy'n gallu cyflawni'r ddarpariaeth, neu sydd â rhyw fantais dros fathau eraill o fusnesau

Bydd y twf a ddisgwylir yn niferoedd pobl hŷn yn golygu y bydd agweddau tuag at bobl hŷn, a'r gwasanaethau iddynt, yn newid:

- Bydd mwy o bobl hŷn yn rheoli'r ffordd y caiff eu gofal ei gyllido

- Bydd y farchnad gofal yn y cartref yn newid gan y bydd y rolau a ddisgwylir gan ddarparwyr gofal yn y cartref yn mynd yn fwy amrywiol
- Bydd y farchnad cartrefi gofal yn dal i gydgyfnerthu a bydd cartrefi gofal yn tyfu'n fwy
- Bydd y rhan y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel darparwyr gofal uniongyrchol yn parhau i leihau
- Mae'n debyg y bydd gan y to nesaf o bobl hŷn olwg ehangach o ran lle y byddant yn treulio eu blynyddoedd olaf

**Enghreifftiau o fentrau cymdeithasol yng Nghymru**

Mae llawer o astudiaethau achos ac enghreifftiau da o fentrau cymdeithasol yn digwydd eisoes yng Nghymru, yn darparu gwell gwasanaethau am gostau llai. Yn aml iawn fe'u datblygwyd fel modelau newydd ar sail cydgynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, lle mae'r gweithgareddau a'r gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu gan ystod eang o gyrff â diddordeb, gan ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus, gyda'r dinesydd a'r gymuned yn y canol. Gallai'r dull hwn o weithio olygu:

- Cymorth wedi'i anelu at y dinesydd
- Gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny
- Gwasanaethau a arweinir gan y gymuned
- Gwasanaethau â chymysgedd o wirfoddolwyr a staff
- Gwasanaethau integredig

Dyma rai enghreifftiau:[16]

- Cludiant o'r ysbyty ar ôl oriau arferol, a chymorth i bobl hŷn na allant ddychwelyd adref am resymau clinigol, sy'n helpu i leihau'r nifer o gleifion sy'n gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty. Roedd yr arian a arbedwyd wrth beidio ag anfon cleifion yn ôl i'r ysbyty yn fwy na chostau'r gwasanaeth yn 2009.
- Cynnwys gwirfoddolwyr yn y cymorth a'r cyswllt dros dymor hwy â phobl ifanc sy'n gadael gofal, ac yn eu tro, pobl sy'n gadael gofal hwythau'n gwirfoddoli drwy Wirfoddolwyr y Mileniwm
- Cynnwys gwirfoddolwyr wrth wella profiadau cleifion mewn ysbytai mewn modd trefnus a gymeradwyir gan yr undebau
- Cydblethu'r gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector i ffurfio Gwasanaeth Gofal Canolradd di-dor.
- Cynlluniau taliadau uniongyrchol sy'n gwella boddhad y defnyddwyr, a'u gwneud yn fwy annibynnol a rhoi mwy o reolaeth iddynt, yn ogystal â chreu arbedion a gwell gwasanaeth.
- Cynghreiriau cymunedol yn dwyn ynghyd y bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a grwpiau lleol i feithrin rhwydweithiau a strwythurau, ffurfiol ac anffurfiol, i fodloni eu hanghenion.

---

[16] Developing a Co-operative Model for Increasing Involvement in the Delivery of Public Service, *Canolfan Gydweithredol Cymru, Gorffennaf 2008*

**Vision 21 (Cyfle Cymru)** – enghraifft ardderchog o fenter gymdeithasol gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu hyfforddiant o safon i ddeunaw o fentrau cymdeithasol a hynny ers bron i 25 o flynyddoedd (gweler hefyd Atodiad 5).

Mae **Partneriaeth Parc Caeau** yn Wrecsam ar waith ers 15 mlynedd ac mae'n darparu gwasanaethau hyfforddiant, cymorth a chyngor gan gynnwys gofal dydd a phryd ar glud.

Rhoddir rhagor o enghreifftiau yn Atodiad 5.

**Cymorth Strategol gan Lywodraeth Gymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n helaeth at sefydlu rhwydwaith cymorth strategol sy'n cynnwys

- Canolfan Gydweithredol Cymru
- Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
- Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
- Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru

Roedd gan bawb a gymerodd ran feddwl uchel ohonynt.

**Cyfleoedd cyllido diweddar**

**Cyfenter**
Ym mis Ionawr 2012, sefydlwyd cronfa £4m o'r enw Cyfenter i helpu sefydliadau'r trydydd sector i dyfu a darparu gwasanaethau hanfodol yn eu cymunedau, a chreu 36 o swyddi gan ddefnyddio cronfeydd cymdeithasol Ewrop. Gall grwpiau cymunedol y trydydd sector a mentrau cymdeithasol yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych gael gafael ar rhwng £10,000 a £75,000 tuag at gostau ailwampio adeiladau, staffio a chostau cychwynnol. Disgwylir y gellid creu hyd at 26 o fentrau cymdeithasol newydd.

Bydd Cronfa Gystadleuol Cyfenter hefyd yn cael ei sefydlu i nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Gwahoddir cynigion cystadleuol gan fentrau cymdeithasol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes am gyllid i ddarparu'r gwasanaethau hyn, a fydd yn sicrhau bod mentrau'n bodloni'r angen a'r galw yn eu cymunedau.

**CGGC – Ffyrdd newydd o ariannu newid i wasanaethau cyhoeddus**

Ar ôl dadansoddi'r angen i gefnogi newid i ofal yn y gymuned sy'n cynnwys y trydydd sector, mae CGGC yn cydnabod bod angen i'r sector allu cael gafael ar arian o gronfa a fydd yn ymdrin â materion yn ymwneud ag ymrwymiad, risg a chyllid. Ym mis Ebrill 2012 lansiodd fodel cymorth newydd y bwriedir iddo ymdrin â risg a chyllid mewn modd trawsnewidiol drwy:

- Sicrhau bod darparwyr yn bodloni safonau ansawdd a diogelwch

- Cynnig buddsoddi £10m mewn dulliau newydd dros y ddwy flynedd nesaf
- Ymateb i'r risg y gellid methu

Dyma'r model sylfaenol:

1. Bydd Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a Byrddau Iechyd yn nodi gwasanaethau newydd neu ffyrdd newydd o ddarparu a fydd yn arwain at arbedion 'banciadwy' neu ddarparu gwasanaethau'n well yn y tymor hwy.
2. Bydd sefydliadau'r trydydd sector (ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd) yn cynllunio ac yn cytuno ar wasanaeth(au) gydag Awdurdodau Lleol neu Fyrddau Iechyd gyda chanlyniadau mesuradwy y cytunir arnynt, meini prawf llwyddo, safonau ansawdd a diogelwch, cyfnod cychwynnol (mewn blynyddoedd) a graddfa ac amodau'r adenillion.
3. Y Gronfa Buddsoddi Cymunedol (Bwrdd Lles Cymru) fydd yn ariannu'r cyfnod cychwynnol.
4. Bydd y cyllid hwn yn talu i sefydliadau'r trydydd sector ddarparu'r gwasanaeth.
5. Unwaith y bydd y gwasanaeth wedi ymsefydlu ac yn darparu'n unol â'r targedau y cytunwyd arnynt ar y cychwyn, bydd y Bwrdd Iechyd neu'r Awdurdod Lleol yn talu'r swm gwreiddiol yn ôl. Dim ond bryd hynny y bydd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol/Bwrdd Iechyd dalu arian (pan fydd y gwasanaeth wedi'i brofi).
6. Os nad yw'r gwasanaeth yn 'gweithio' y Gronfa sy'n ysgwyddo'r risg a'r golled.
7. Os bydd yn gweithio caiff yr arian a ad-delir ei ailgylchu i mewn i fuddsoddiadau pellach.

Mae £10m ar gael drwy CGGC i fuddsoddi mewn proses o'r fath dros y 2 flynedd nesaf.

**Adran Un ar Ddeg: Dysgu oddi wrth wledydd eraill**

Mae sawl enghraifft ragorol o fentrau cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol yn Lloegr. Tynnwyd sylw at y rhain ar sawl achlysur:

**Enghreifftiau o Arfer Da**

**Sunderland Home Care Associates** – Tyfodd Sunderland Home Care Associates o siop gydweithredol bwydydd cyflawn ynghyd â chwmni gofal plant cydweithredol, Little Women, a sefydlwyd yn Sunderland yn y 1970au. Datblygodd hyn yn Little Women Household Services a oedd yn darparu gofal yn y cartref ar ran y gwasanaethau cymdeithasol, wedi'i ariannu drwy'r Taliad Gofynion Ychwanegol yr oedd Little Women yn helpu pobl i wneud cais amdano. Pan ddaeth y taliad hwnnw i ben, daeth Little Women hefyd i ben, ond yn 1993 dechreuodd Cyngor Sunderland broses o ddarparu ei wasanaethau gofal yn allanol a sefydlwyd SHCA a'i gofrestru'n gwmni cydweithredol y gweithwyr. Mae'r 160 o bobl a gyflogir gan Sunderland Home Care Associates yn berchen ar y cwmni, maent yn rhannu rhywfaint o'r elw ac yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae SHCA yn ddarparwr gwasanaethau cymdeithasol pwysig i Gyngor Dinas Sunderland, gan gynnwys cymorth i'r henoed, pobl fregus a phobl anabl gael aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwaith yn golygu helpu pobl i'w codi eu hunain, ymolchi a gwisgo, rhoi brecwast iddynt a'u helpu i dacluso wedyn. Rhoddir cymorth cymdeithasol yn ogystal â'r cymorth corfforol mwy amlwg. I gleientiaid eraill, mae SHCA yn darparu gwasanaethau megis gwaith tŷ, siopa a golchi dillad. Maent hefyd wedi ehangu i ddarparu staff llanw i ofalu am yr henoed a phlant a chanddynt anableddau mewn cartrefi preswyl. Mae SHCA hefyd yn darparu gwasanaethau i fyfyrwyr anabl ym Mhrifysgol Sunderland i helpu â'u gwaith academaidd a gofal personol.

Enillodd SHCA fwy a mwy o gontractau ers ei lansio yn 1994: cynyddodd ei oriau o 400 i 4,000 yr wythnos ac mae ei drosiant bellach yn fwy nag £1.75 miliwn y flwyddyn. Yn 2005 gwnaeth elw cyn treth o £176,000. Mae hefyd wedi trosglwyddo 14.8 y cant o'i gyfranddaliadau i'r gweithwyr ers 1994.

Cwmni cydweithredol oedd SHCA ar y cychwyn ond mae bellach wedi newid ei statws ac mae'n gwmni arferol a chanddo ymddiriedolaeth er budd y gweithwyr ac ymddiriedolaeth rhannu elw. Ar ôl gweithio i'r cwmni am chwe mis mae'r gweithwyr yn gymwys i gael cyfranddaliadau a bwrw'u bod yn gweithio o leiaf ddeg awr yr wythnos. Dyrannwyd cyfranddaliadau dair gwaith, – y tro cyntaf, yn 1998, yn seiliedig ar hyd gwasanaeth a chyflog a'r ddau dro arall yn seiliedig ar gyflog hyd at uchafswm o £12,500.

Mae strwythur rheoli'r cwmni'n weddol gonfensiynol – Rheolwr Gyfarwyddwr a saith cydlynydd ar wahanol agweddau ar y busnes. Ar y bwrdd (sydd â'r un aelodau â'r ymddiriedolaeth) mae wyth aelod gan gynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr (Margaret Elliott), tri gweithiwr gofal a dau aelod allanol o'r bwrdd. Caiff y gweithwyr eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau drwy adroddiadau ar y cyfarfodydd a chylchlythyrau achlysurol.

Gellir mesur boddhad y gweithwyr a gyflogir yn ôl trosiant y staff, sy’n ddim ond 3.5% y flwyddyn. I’r 85% o’r staff sy’n fenywod mae’r oriau gweithio hyblyg hefyd yn fonws.

Roedd yr awdurdod lleol yn gefnogol i SHCA a darparodd grant o £10,000 ar y cychwyn yn ogystal â thalu digon o gostau ei gontract ymlaen llaw er mwyn i SHCA allu talu ei fil cyflogau cychwynnol. Cafodd SHCA hefyd grant o £11,000 gan y Tyne & Wear Foundation i dalu’r costau sefydlu.

Mae SHCA bellach wedi symud y tu hwnt i’w gartref yn Sunderland drwy rannu’r model â HCAau yng Ngogledd Tyneside, Newcastle a Manceinion. Mae’r cwmnïau hyn yn cyflogi 30, 30 a 27 o bobl yn y drefn honno. Gwnaed hynny drwy sefydlu CASA (Care and Share Associates) sy’n sefydliad ambarél a sefydlwyd i rannu’r model i ddemocrateiddio gwasanaethau gofal cartref ymhellach:

‘Mae CASA o’r farn, os caiff pobl gyfle i ddatblygu drwy hyfforddi, a ffynnu drwy deimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, y byddant yn rhoi gwell gwasanaeth i’r defnyddiwr yn y pen draw. Mae’r gweithlu’n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, yn rhannu yn ffyniant y cwmni drwy gael cyfranddaliadau ac yn cael eu hannog i gynnig syniadau. Credwn fod hynny’n un o’r rhesymau pennaf pam mae SHCA yn fodel cystal. Fe’i ffurfiwyd gan y gweithwyr.’

Dywed y sylfaenydd Margaret Elliot ‘Yn ein profiad ni, mae’r dulliau hyn o weithio’n ffordd rymus iawn o hybu hunan-barch a hyder y gweithwyr … Mae’r staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn teimlo cyfrifoldeb. Does dim teimlad ‘ni a nhw’ yma.’ (o wefan Cynghrair y Mentrau Cymdeithasol).

**The Foster Care Co-operative –** Sefydlwyd The Foster Care Co-operative Cyfyngedig ym mis Hydref 1999 ac mae ganddo ddwy brif swyddfa ym Malvern, Swydd Gaerwrangon ac yng Nghaerdydd. Mae wedi’i gorffori’n Gwmni Cyfyngedig trwy Warant ac ymhlith ei aelodau mae gofalwyr maeth a gweithwyr. Ond mae Rheoliadau Maethu’r Llywodraeth yn gwahardd gofalwyr maeth rhag cymryd rhan yn uniongyrchol ym mhroses lywodraethu neu reoli asiantaeth gofal maeth, ac felly’n gyfreithiol, mae’r gofalwyr maeth yn aelodau cyswllt o’r cwmni cydweithredol ac nid oes ganddynt felly bleidlais.

Ar hyn o bryd, mae’n rheoli lleoliadau 114 o blant, 48 ohonynt o Gymru ac wedi’u lleoli gyda theuluoedd yng Nghymru. Ond mae’r niferoedd yn tueddu i amrywio, a’r duedd yn y tymor hir yw eu bod wedi’u rhannu 50/50 rhwng Cymru a Lloegr.

Mae The Foster Care Co-operative yn recriwtio darpar ofalwyr maeth sy’n cael eu hasesu a’u hyfforddi cyn cael eu hargymell i’w cymeradwyo gan banel maethu’r cwmni. Wedi iddynt gael eu cymeradwyo rhoddir gwybod i’r awdurdodau lleol eu bod ar gael a phan fydd hynny’n briodol cynhelir proses ofalus i ddod o hyd i blentyn (plant) a gofalwyr sy’n gweddu i’w gilydd.

Mae'r strwythur yn amrywio o ran taliadau, yn dibynnu ar oedran y plentyn a'r math o leoliad. O'r ffioedd a godir ar awdurdodau lleol, caiff 51% eu trosglwyddo ymlaen i'r gofalwyr maeth, caiff 26% ei wario ar gostau staffio canolog (sy'n talu ar hyn o bryd am 40 o staff cyflogedig a rhai aelodau llawrydd), a'r gweddill yn talu am orbenion eraill.

Mae prinder lleoliadau gofal maeth yn genedlaethol, ac mae hynny'n rhoi gofalwyr mewn sefyllfa gref o ran bargeinio ag asiantaethau. Er hynny, mae yna lawer o asiantaethau sector preifat a gwirfoddol ac wrth ddewis darparwyr, mae'r pris yn ffactor bwysig i awdurdodau lleol. Bydd gan yr asiantaethau hynny a chanddynt ofalwyr da yn y mannau iawn fantais yn y farchnad ac mae The Foster Care Co-operative yn ceisio codi ffioedd canolig ar yr awdurdodau lleol, ond recriwtio'r gofalwyr gorau a fydd, mae'n gobeithio, yn dewis gweithio iddo.

Laurie Gregory yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol ac roedd yn chwilio ar y cychwyn am ddewis arall yn lle sefydliad 'gwneud elw' ac roedd eisoes wedi cael profiad gwael o weithio mewn elusen. Roedd Laurie o'r farn y gallai cwmni cydweithredol fod yn ateb delfrydol gan fod llawer o sensitifrwydd ynghylch y rheiny sy'n elwa ar anawsterau plant.

Ym mlwyddyn ariannol 2007-2008, £3.4 miliwn oedd trosiant y cwmni, gyda gwarged o oddeutu £300,000. Er nad gwneud elw yw'r nod, mae elw'n helpu i ariannu ehangu'r gwaith. Mae'r sefydliad yn gweithio'n bennaf ar hyn o bryd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, Cymru a De Swydd Efrog. Ei uchelgais yw gweithio ledled Prydain, ac fe hoffai sefydlu swyddfa weithredol yn Llundain. Fodd bynnag, oherwydd costau colledion cychwynnol tra bo'r busnes yn ymsefydlu ni fu modd gwireddu'r nod hwnnw eto.

Menter gymdeithasol yw **Community Foster Care** (CFC) sy'n helpu i arallgyfeirio'r farchnad gofal cymdeithasol – lle'r amcangyfrifir bod prinder o 10,000 o ofalwyr maeth ledled y DU. Asiantaeth annibynnol yw CFC ac mae'n llenwi'r bwlch yn y farchnad gofalwyr maeth, ac yn darparu gofalwyr maeth i 'blant sy'n derbyn gofal' sy'n cael eu lleoli gan awdurdodau lleol. Mae CFC wedi darparu swyddi i lawer o bobl leol, ac yn arbennig felly yn ardaloedd cymdeithasol ac economaidd ddifreintiedig Swydd Gaerloyw. Mae'n recriwtio gofalwyr maeth ac yn rhoi hyfforddiant a chymorth parhaus iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel sy'n ofynnol o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu 2002 a Deddf Safonau Gofal 2000. CFC sy'n cymryd y risg ariannol, gan nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol ond yn mynd at asiantaethau annibynnol pan na all eu gofalwyr mewnol gymryd plentyn, a dim ond pan fydd y plentyn yn y lleoliad y maent yn talu. Mae CFC yn ystyried dyblygu ei fodel busnes. **www.communityfostercare.co.uk**

Yn **Bologna,** mae cwmnïau cydweithredol sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, dros yr ugain mlynedd diwethaf, wedi dod yn un o'r cynlluniau mwyaf arloesol ym maes y modelau cydweithredol traddodiadol. Mae **cwmnïau cydweithredol cymdeithasol** yn dod â darparwyr a'r rhai sy'n elwa ar y gwasanaeth cymdeithasol ynghyd fel aelodau sy'n cymryd rhan. Darperir dros 87% o wasanaethau cymdeithasol yn y ddinas gan gwmnïau cydweithredol cymdeithasol a arweinir gan y defnyddwyr dan gontract i'r fwrdeistref.

Mae rôl allweddol i'r sector cyhoeddus o ran darparu gofal cymdeithasol ac mae'n darparu cryn dipyn o gyllid, ond mae'r cynllunio a'r darparu yn nwylo'r rhai hynny sy'n darparu'r gofal a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd. Fodd bynnag, cefnogir y cwmnïau cydweithredol unigol gan gonsortia cydweithredol sy'n trafod ag awdurdodau'r fwrdeistref faterion megis meini prawf asesu, safonau ansawdd, gwerthuso a gweithdrefnau caffael.

Er eu bod yn cael eu hariannu i raddau helaeth gan y fwrdeistref, gall y cwmnïau cydweithredol cymdeithasol hyn hefyd gael gafael ar ffrydiau incwm ychwanegol – er enghraifft, drwy godi tâl ar yr aelodau hynny sy'n gallu fforddio talu am rai o'r gwasanaethau a ddarperir, drwy werthu gwasanaethau i grwpiau neu unigolion eraill a thrwy ddenu buddsoddiadau gan berthnasau aelodau sy'n ddefnyddwyr. Yn ogystal â hyn, gan fod yr hawliau rheoli a arferir gan ddefnyddwyr a gwirfoddolwyr yn cymedroli dosbarthiad yr elw a chynnydd mewn costau, gall cwmnïau cydweithredol cymdeithasol ddarparu gwasanaethau'n fwy cost effeithiol.

Mae'r cwmnïau cydweithredol cymdeithasol wedi ehangu amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau gofal cartref a'r gwasanaethau cymorth yn fawr i ofalwyr teuluol yn Bologna (ac, yn fwy diweddar, mewn rhannau eraill o'r Eidal), ac mae costau'r gwasanaethau hynny wedi bod yn is o lawer nag yr oeddent pan oedd y sector cyhoeddus neu breifat yn eu darparu. Mae hynny'n rhannol oherwydd bod cwmnïau cydweithredol cymdeithasol yn dibynnu nid yn unig ar weithwyr proffesiynol ond hefyd ar wirfoddolwyr, ac maent felly'n creu dimensiwn cymunedol. Yn ogystal â lleihau costau, ystyrir hefyd fod y dull hwn wedi gwella ansawdd y gwasanaeth gan ei fod yn crisialu elfen o ofalu y credid ei bod ar goll yn y sector cyhoeddus neu wrth ddarparu gwasanaethau'n fasnachol. Yn y bôn, mae cwmnïau cydweithredol cymdeithasol yn seiliedig ar syniad o berthynas bersonol neu 'gymdeithasgarwch' sy'n gwella profiad y defnyddiwr.

Oherwydd bod angen rheoli gwariant ar wasanaethau cymdeithasol a chreu swyddi newydd yn yr economi leol, cynhaliodd llywodraeth **Quebec** waith ymchwil i fodelau darparu gan fentrau cymdeithasol a phenderfynu cyflwyno gwasanaeth 'gofal cartref' ledled Quebec gyfan, a darparu gwasanaethau drwy fodel cydweithredol. Mae 'gofal carterf' yn ymwneud â sicrhau bod dewis arall gwirioneddol i bobl yn hytrach na gofal preswyl. Canolbwyntiwyd i ddechrau ar wasanaethau lefel isel yn y cartref a fyddai'n helpu'r unigolyn i

fod yn annibynnol, megis siopa, gwaith tŷ neu arddio. Yn ddiweddarach, daeth i ddarparu ystod lawn o ofal cartref, gan gynnwys gofal personol.

Roedd gofal cartref yn faes lle nad oedd yr angen yn cael ei fodloni yn Quebec ar y pryd. Dywedodd y llywodraeth yn glir iawn nad oedd yn cael gwared ar gyfle busnes masnachol drwy ei ymyriadau. Y bwriad oedd creu gwasanaeth nad oedd, bryd hynny, yn cael ei ddarparu gan y sector preifat – gwasanaeth gofal cartref oedd hwn i'r henoed ar incwm isel iawn. Nid oedd cystadlu â'r sector preifat yn ystyriaeth gan fod y sector preifat yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai hynny a allai fforddio talu amdanynt.

Roedd y llywodraeth yn allweddol o ran creu'r rhaglen a'r diwylliant a fyddai'n galluogi iddi ddatblygu. Mae'r farchnad bellach yn 'warchodedig' ac ers cwblhau'r broses dendro gychwynnol i sefydlu'r cwmnïau cydweithredol ni fu cystadlu ffurfiol yn y farchnad.

Ar ôl cynnal nifer o gynlluniau peilot, dewiswyd model **cwmnïau cydweithredol aml-randdeiliad**, y byddai eu haelodau'n ddefnyddwyr ac yn gefnogwyr yn y gymuned (yn unigolion ac yn sefydliadau).

Ers cyflwyno model y cwmnïau cydweithredol aml-randdeiliad yn 1997, nodwyd y canlyniadau hyn:

- Twf gwasanaethau yn y cartref i hybu ansawdd gofal cartref a hybu ansawdd swyddi i fenywod.
- Crëwyd oddeutu 6,000 o swyddi newydd – yn bennaf i fenywod heb arbenigedd na chymwysterau.
- Datblygwyd amryw o raglenni hyfforddi er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth.
- Mae oddeutu 81,000 o unigolion wedi elwa ar y gwasanaethau a ddarperir
- Yn 2011, darparwyd bron i 6 miliwn o oriau o wasanaeth.
- Oddeutu $55 miliwn yw'r gost flynyddol i lywodraeth Quebec.
- Datblygwyd dros 100 o gwmnïau cydweithredol lleol sy'n darparu gwasanaethau. Busnesau aml-randdeiliad yw'r rhain, i raddau helaeth, a reolir gan aelodau sy'n ddefnyddwyr, yn weithwyr ac yn gefnogwyr yn y gymuned. Mae rhai cwmnïau cydweithredol ymylol yn darparu gwasanaethau cymorth.

Ffederasiwn o **gwmnïau cydweithredol y gweithwyr** yng **Ngwlad y Basg** yng ngogledd Sbaen yw Corfforaeth Mondragon. Fe'i sefydlwyd yn nhref Mondragon yn 1956, ac mae bellach yn gyfrannwr pwysig i'r economi. Heddiw, y gorfforaeth yw prif grŵp busnes Gwlad y Basg ac, o ran trosiant, mae'n un o'r deg cwmni mwyaf yn Sbaen. Mae'n cynnwys 120 o gwmnïau cydweithredol, yn cyflogi dros 83,000 o aelodau ac mae ei drosiant yn 14 biliwn Ewro. Mae cwmnïau'r gorfforaeth yn cynhyrchu nwyddau i ddefnyddwyr, nwyddau cyfalaf a chydrannau diwydiannol. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau i fusnesau.

Un o nodweddion cwmni cydweithredol y gweithwyr yw bod y rhan fwyaf o'r gweithlu'n berchen ar gyfranddaliadau a'r gweithlu sydd biau'r rhan fwyaf o'r cyfranddaliadau. Er nad yw'n orfodol i'r gweithwyr fod yn aelodau bob amser, fel rheol dim ond gweithwyr all fod yn aelodau.  Er hynny, am resymau gwleidyddol, mae'r rheol hon yn amrywio o wlad i wlad ac mewn rhai gwledydd mae aelodaeth a chyflogaeth yn orfodol. Yn Sbaen mae'r gyfraith yn caniatáu i berchen-aelodau gofrestru'n hunangyflogedig a gall gweithwyr-berchnogion felly sefydlu trefn reoleiddio sy'n cefnogi gweithio'n gydweithredol ond sydd gryn dipyn yn wahanol i gwmnïau cydweithredol sy'n dilyn cyfraith Eingl-Americanaidd.  Awgryma gwybodaeth anecdotaidd y gallai'r gost i ddarpar weithwyr o ran prynu cyfranddaliadau (ac felly swyddi) ym Mondragon fod yn eithaf uchel.

Mae John Restakis, arbenigwr blaenllaw ar gwmnïau cydweithredol aml-randdeiliad a gyfrannodd yn helaeth at y cynlluniau peilot yn Quebec, o'r farn fod angen cyfarwyddyd o'r brig er mwyn i gysyniad y cwmni cydweithredol gofal cartref lwyddo. Roedd y ffaith i lywodraeth Quebec osod cyfarwyddyd polisi clir iawn i gwmnïau cydweithredol gofal cartref a rhoi cymorth ariannol iddynt yn nyddiau cynnar y rhaglen yn hollbwysig o ran hyrwyddo'r newid i'r model newydd hwn o ddarparu gwasanaethau. Mae wedi cefnogi'r cwmni cydweithredol aml-randdeiliad, yn hytrach nag unrhyw fath arall o fenter gymdeithasol, am mai dyma'r model mwyaf addas i wasanaeth sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n ymatebol, yn arloesol ac yn gallu addasu. Er hynny, mae ganddo amheuon ynghylch sicrhau'r newid diwylliant sydd ei angen heb gostau ychwanegol yn y tymor byr ac mae'n nodi'n glir y gallai'r broses o newid fod yn un hir oherwydd y byddai angen ei gyflwyno'n raddol law yn llaw â gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach nag yn eu lle.  Gwnaeth argymhellion mwy penodol hefyd ar rôl ganolog y wladwriaeth. Awgryma'n benodol:

- Mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau, darparwyr gofal a defnyddwyr, y dylai'r wladwriaeth reoleiddio a monitro'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu, sefydlu safonau i'r gwasanaethau, trwyddedu darparwyr y gwasanaethau, a gorfodi'r darpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol;

- Y dylai'r gwasanaethau sy'n cael eu hariannu ac nad ydynt o dan reolaeth uniongyrchol y wladwriaeth gael eu trosglwyddo'n unig i'r cyrff hynny sy'n rhoi'r hawl dros gynllun a darpariaeth y gwasanaethau i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.

**Adran Deuddeg: Profiadau modelau mentrau cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol**

**Cwmnïau Masnachu Mewnol Awdurdodau Lleol**

Ar 1 Gorffennaf 2009 sefydlwyd Essex Cares Cyfyngedig gan Gyngor Sir Essex, cwmni masnachol cyntaf awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal mewnol. Fel y dywedodd Mike Walsh, Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro ar Essex Cares Cyfyngedig adeg y lansiad, “Deilliodd y corff newydd arloesol hwn yn bennaf o’r angen i ymateb i’r ffaith fod ‘personoleiddio’ yn cael ei gyflwyno. Gwelwyd y twf mewn cymorth hunangyfeiriol a chyllidebau personol yn fygythiad i’r gwasanaethau drud gan ddarparwyr mewnol a oedd yn wynebu’r posibiliad na fyddent yn gallu masnachu ac y byddent yn cael eu prisio allan o fusnes”.

Nid cwmni masnachu o dan yr awdurdod lleol oedd yr unig ddewis a ystyriwyd gan Gyngor Sir Essex, ond yn sgil ymgynghori eang ymhlith y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, dyma’r dewis oedd orau gan bob grŵp, gan gynnwys staff yr awdurdod lleol, yr undebau llafur a defnyddwyr y gwasanaethau. Pan wnaethpwyd y penderfyniad terfynol i sefydlu cwmni masnachu o dan yr awdurdod lleol, cymerwyd wyth mis wedyn i gael popeth yn barod er mwyn lansio’r cwmni.

Cwmni daliannol grŵp yw Essex Cares Cyfyngedig i dri chwmni sy’n darparu gofal i oedolion yn y sir:

- Essex Community Support Cyfyngedig sy’n darparu gwasanaethau ailalluogi, gwasanaethau synhwyraidd, anghenion iechyd meddwl a gwasanaethau gofal dydd
- Essex Employment & Inclusion Cyfyngedig sy’n darparu cyflogaeth o ddydd i ddydd a chymorth ymarferol i oedolion a chanddynt anabledd dysgu
- Essex Equipment Services Cyfyngedig sy’n darparu ystod lawn o gymhorthion byw o ddydd i ddydd, addasiadau i gartrefi, offer meddygol a nwyddau treuliadwy drwy Essex gyfan

Mae Essex Cares Cyfyngedig yn cynnig cymorth i oddeutu 100,000 o bobl bob blwyddyn ac fe’i sefydlwyd dan ‘gontract bloc’ tair blynedd gyda Chyngor Sir Essex a oedd yn cynnwys 2.5% o ostyngiad bob blwyddyn er mwyn ysgogi’r cwmni i weithio’n effeithlon. Mae i’r contract 39 o ddangosyddion perfformiad allweddol a bydd lefel y taliadau’n dibynnu ar berfformiad yn erbyn y meincnodau hyn.

Elwodd Cyngor Sir Essex ar hyn o’r cychwyn cyntaf, gan mai dim ond 60% o’r gorbenion a briodolid i’r gwasanaethau perthnasol pan oedd y cyngor yn eu darparu a ddefnyddiwyd gan Essex Cares Cyfyngedig, ac felly cafwyd arbedion ‘ystafell gefn’ o £1m–£2m yn y flwyddyn gyntaf. Yn ystod cyfnod y contract tair blynedd mae’r cyngor yn disgwyl arbed 10% o swm cyfan y contract, ac os gwneir yr elw a ragwelir, dylent weld enillion o 6% y flwyddyn gyda chyfran o hynny’n mynd yn ôl i’r cyngor ar ffurf difidendau.

Pan sefydlwyd y cwmni, trosglwyddodd 850 o staff yr awdurdod lleol i Essex Cares dan delerau TUPE. Yn debyg i lawer o gwmnïau masnachu awdurdodau lleol, dywedir bod y staff, ers trosglwyddo, yn teimlo'n fwy brwd, fod morâl yn uwch, ac absenoldebau staff wedi gostwng yn y flwyddyn gyntaf o 16% i 4%. Un o egwyddorion sylfaenol cwmnïau masnachu awdurdodau lleol, ac un y mae Essex Cares Cyfyngedig yn falch o'i harddel, yw fod modd, drwy sefydlu corff annibynnol, meithrin diwylliant o 'allu gwneud' o Fwrdd y Cyfarwyddwyr i staff y rheng flaen a chanlyniad hynny yn y pen draw yw bod defnyddwyr y gwasanaethau'n cael gwasanaethau gwell, a'r awdurdod lleol yn gweithio'n fwy effeithlon ac yn lleihau costau. Mantais arall ehangach yw y bydd awdurdod lleol, pan fo'i staff yn comisiynu gwasanaethau gan gwmni masnachu awdurdod lleol, yn deall beth yw gwir gost y gwasanaethau hynny. Pan gomisiynir gwasanaethau gan adran arall yn yr awdurdod lleol, tueddir i feddwl weithiau nad oes cost uniongyrchol i'r gwasanaethau hynny. Dylai hynny olygu y bydd comisiynwyr yn fwy gofalus wrth wneud archebion ac y bydd hynny'n arwain yn y pen draw at arbed mwy o arian.

**Trosglwyddo Gwasanaethau i Fenter Gymdeithasol**

Cafwyd rhai problemau wrth drosglwyddo gwasanaethau gofal cymdeithasol i fentrau cymdeithasol. Er enghraifft, yn Blackburn, roedd Cyngor Darwen yn bwriadu trosglwyddo gweddill ei wasanaethau gofal mewnol i oedolion i fenter gymdeithasol. Y bwriad oedd trosglwyddo gwasanaethau gofal preswyl, gofal cartref ailalluogi, gofal dydd, tai â chymorth i gleientiaid iechyd meddwl a darparu taliadau uniongyrchol, ac £8,400,000 y flwyddyn oedd y gyllideb. Bwriedid y byddai'r fenter gymdeithasol yn gallu gwneud arbedion drwy dorri gorbenion a dod o hyd i ffyrdd o fodloni anghenion y defnyddwyr yn well.

Byddai'r staff a fyddai'n trosglwyddo o'r awdurdod lleol i'r fenter gymdeithasol yn cadw telerau ac amodau'r cyngor o dan TUPE, ond gwylltiodd y cynigion gangen leol Unsain – roedd ganddi amheuon ynghylch diswyddiadau posib a diffyg ymgynghori priodol. Felly, tynnodd swyddogion y cyngor eu hargymhellion i barhau â model y fenter gymdeithasol yn ôl ym mis Mehefin 2010 ac yn lle hynny mae cyfnod ymgynghori wedi dechrau ynghylch pob opsiwn i ddarparu gwasanaethau gofal yn y dyfodol, gan gynnwys eu cadw o fewn y cyngor. Digwyddodd rhywbeth tebyg yn Swydd Amwythig pan oedd Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Swydd Amwythig yn ystyried defnyddio menter gymdeithasol i ddarparu gwasanaethau gan gynnwys nyrsio ardal, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol. Unwaith eto, roedd undebau lleol yn gwrthwynebu'r cynlluniau, gan ddweud eu bod "hanner ffordd at breifateiddio'r GIG" a honni bod y rhan fwyaf o'r staff wedi pleidleisio yn erbyn sefydlu menter gymdeithasol. Yn sgil y dadlau, cytunodd yr ymddiriedolaeth yn hytrach i ffurfio Ymddiriedolaeth Sefydledig Gymunedol ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol arall Swydd Amwythig.

**Partneriaethau â'r Sector Annibynnol**

Mae trosglwyddo gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r sector annibynnol, h.y. i sefydliadau nad oes ganddynt ethos sector cyhoeddus, yn digwydd ers tro

byd ond gall beri anawsterau o hyd. Fodd bynnag, un o’r rhesymau pam roedd awdurdodau lleol yn ystyried yr opsiynau hyn oedd cost ac effeithlonrwydd. Yn gyntaf, mae cartrefi gofal mewnol yn costio cryn dipyn yn llai o’u darparu gan y sector annibynnol yn hytrach na gan gynghorau. Yn ail, mae’r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn newid, a’r gred gyffredinol yw fod y sector annibynnol yn gallu ymaddasu’n well i amgylcheddau sy’n newid, ac mae hynny hefyd yn lleihau’r risg i’r sector cyhoeddus.

Yn hanesyddol, y trydydd sector di-elw oedd y ffordd arferol o drosglwyddo gwasanaethau’n allanol fel hyn, ac mae hynny’n cynnwys endidau megis sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac elusennau. Mae trosglwyddo cartrefi gofal yn Swydd Rydychen a Swydd Gaerloyw yn ddwy enghraifft dda o’r math hwn o brosiect. Sefydlwyd The Oxfordshire Care Partnership yn gwmni menter ar y cyd di-elw rhwng yr elusen darparu gofal The Orders of St John Care Trust a Bedfordshire Pilgrims Housing Association (a elwir bellach yn bpha).

Yn sgil proses gaffael gan Gyngor Sir Rhydychen, trosglwyddwyd 19 o gartrefi gofal, yn gofalu am dros 800 o bobl hŷn, i The Oxfordshire Care Partnership. Sefydlwyd y contract rhwng Cyngor Sir Rhydychen a The Oxfordshire Care Partnership am 25 mlynedd ac roedd yn rhaid codi hyd at 11 o gartrefi gofal newydd o’r radd flaenaf yn arbenigo mewn gofal preswyl, nyrsio ac iechyd meddwl. Mae’r berthynas rhwng y ddwy ochr wedi closio gydag amser ac mae prosiectau newydd yn cael eu cyflwyno yn sgil hynny. O safbwynt y Cyngor Sir, mae’r risgiau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau o’r fath wedi’u trosglwyddo i rywun arall, ac mae’r costau wedi lleihau.

Bu’r model hwn yn llwyddiant mawr, ac felly sefydlwyd The Gloucestershire Care Partnership mewn ffordd debyg a throsglwyddwyd 21 o gartrefi gofal o Gyngor Sir Caerloyw o dan gontract 35 mlynedd i redeg, cynnal a datblygu’r cartrefi gofal. Rhoddwyd buddsoddiad cyfalaf o £40 miliwn o’r neilltu i’w fuddsoddi mewn cartrefi newydd, a throsglwyddwyd oddeutu 1,200 o staff i’r sefydliad newydd.

**Atodiad 1 Mathau o Fentrau Cymdeithasol**

Nid oes un model cyfreithiol unigol ar gyfer mentrau cymdeithasol. Mae'r sector yn cynnwys 'cwmnïau cyfyngedig drwy warant' a 'chymdeithasau diwydiannol a darbodus'. Mae rhai sefydliadau yn anghorfforedig ac mae eraill yn elusennau cofrestredig.

Mae'r sector yn cynnwys sefydliadau amrywiol megis undebau credyd, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, busnesau cymunedol neu gymdeithasol, mentrau cydweithredol, busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr, entrepreneuriaid cymdeithasol, marchnadoedd llafur trosiannol a chwmnïau cymdeithasol ac elusennau a mudiadau gwirfoddol eraill sy'n cael eu hincwm o weithgareddau masnachu yn bennaf.

Mae menter gymdeithasol sydd wedi datblygu'n llawn yn fwy na dim ond mudiad gwirfoddol neu elusennol sy'n cael ei redeg fel busnes. Mae hefyd yn fwy na dim ond busnes preifat sy'n cael ei redeg mewn ffordd gyfrifol o safbwynt cymdeithasol. Mae'n sefydliad sy'n ymwneud yn bennaf ag achosion cymdeithasol a/neu amgylcheddol, ac sy'n defnyddio dull busnes (h.y. gwerthu cynnyrch neu wasanaethau a chadw cyfrif o elw a cholled) er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl.

Gellir dewis amrywiaeth o strwythurau cyfreithiol gwahanol i gyflawni pwrpas a gwerthoedd craidd y fenter, megis Cwmni Buddiannau Cymunedol, Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, Elusen neu Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus. Mae'r model Tai Cymunedol Cydfuddiannol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig dewis ychwanegol, sef perchnogaeth gydweithredol i gymdeithasau tai. Gall mentrau cymdeithasol hefyd fabwysiadu gwahanol fodelau cyfundrefnol anghyfreithiol megis cwmnïau cymdeithasol, ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cydweithredol neu fentrau cymunedol.

Mae pob menter gymdeithasol yn ceisio cyflawni pwrpas deublyg neu driphlyg drwy greu budd economaidd, cymdeithasol a/neu amgylcheddol. Mae mentrau cymdeithasol yn aml yn ffynnu lle mae busnesau preifat yn wan, megis mewn ardaloedd lle mae amddifadedd trefol neu arwahanrwydd gwledig, a gallant chwarae rhan bwysig iawn yn y gwaith o adfywio cymunedau. Gallant helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol yn fwy fforddiadwy a hygyrch, rhannu gwybodaeth am ffyrdd newydd o weithio, paratoi pobl ar gyfer byd gwaith, hybu diogelwch cymunedol neu gynhyrchu cyfoeth lleol mewn cymunedau ymylol.

Gall mentrau cymdeithasol fod yn seiliedig ar nifer o ffurfiau cyfreithiol gan gynnwys y canlynol:

**Menter gydweithredol** – Sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau ac sy'n cefnogi egwyddorion sefydledig cydweithredu. Mae gan yr aelodau – defnyddwyr, staff, pobl eraill yn y gymuned neu gyfuniad o'r rhain – i gyd hawl gyfartal i fynegi barn ynglŷn â'r hyn y mae'r fenter yn ei wneud. Mae menter gydweithredol sy'n eiddo i'r gweithwyr yn sefydliad sy'n eiddo i'r bobl sy'n gweithio ynddo, a dylai'r gweithwyr reoli o leiaf 51% o'r cyfrannau pleidleisio

neu fod yn berchen ar y busnes yn anuniongyrchol drwy ymddiriedolaeth sy'n eiddo i'r gweithwyr.

**Menter gydweithredol sy'n cael ei harwain gan ddefnyddwyr** – Busnes sy'n eiddo i'w gwsmeriaid yw hwn. Fel arfer, gall gweithwyr ddod yn aelodau hefyd. Mae'r aelodau'n pleidleisio ar benderfyniadau pwysig ac yn ethol bwrdd cyfarwyddwyr o'u plith hwy eu hunain. Sefydlwyd y busnes cyntaf o'i fath yn 1844 yng Ngogledd-orllewin Lloegr gan wehyddion oedd eisiau gwerthu bwyd am bris is na'r siopau lleol. Y fenter gydweithredol fwyaf yn y byd sy'n cael ei harwain gan ei defnyddwyr yw'r Co-operative Group yn y DU sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau manwerthu a gwasanaethau ariannol.

**Sefydliad cydfuddiannol** – Diffiniad syml o sefydliad cydfuddiannol yw sefydliad sy'n anelu'n bennaf at greu budd i aelodau (yn aml yn gyfnewid am dâl aelodaeth o ryw fath). Maent yn cael eu sefydlu i ddiben cyffredin megis gwasanaethu cymuned gaeedig o aelodau a rhannu budd economaidd rhyngddynt (fel menter gydweithredol amaethyddol); neu gellir eu sefydlu i ddiben cymunedol allgarol (megis ymddiriedolaeth gwasanaethau hamdden sy'n cael ei sefydlu i weithredu canolfannau hamdden a arferai gael eu rhedeg gan gynghorau). Mae sefydliadau cydfuddiannol yn eiddo i'w haelodau (ond nid oes gan unrhyw unigolyn hawl i gyfran o'r asedau sylfaenol) ac fel arfer maent yn gweithredu systemau pleidleisio democrataidd, ar sail ‘un aelod: un bleidlais’, felly nid oes grwpiau buddiant na ‘phrif gyfranddalwyr’ a all drechu'r gweddill yn awtomatig drwy bleidlais. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y term ‘cydfuddiannol’ wedi dod yn derm ambarél cyffredin ar gyfer llawer o wahanol fathau o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau sy'n eiddo i'r gweithwyr.

**Undebau Credyd** - Mae Undebau Credyd yn fathau penodol o fentrau cydweithredol sy'n darparu gwasanaethau ariannol i aelodau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae allgáu cymdeithasol ac ariannol.

**Perchnogaeth Gweithwyr** – Yn ôl y Gymdeithas Perchnogaeth Gweithwyr, mae'r rhain yn gwmnïau lle mae gweithwyr yn berchen ar gyfran sylweddol o'r cwmni. Gall perchnogaeth gweithwyr fod yn un o dri math:

- *Perchnogaeth gweithwyr uniongyrchol* – gan ddefnyddio un neu ragor o gynlluniau cyfranddaliadau â manteision treth, mae gweithwyr yn dod yn gyfranddalwyr unigol cofrestredig sy'n dal y rhan fwyaf o'r cyfranddaliadau yn eu cwmni.
- *Perchnogaeth gweithwyr anuniongyrchol* – mae cyfranddaliadau'n cael eu dal gyda'i gilydd ar ran gweithwyr, fel arfer drwy ymddiriedolaeth budd gweithwyr.
- *Perchnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol gyfunol* – cyfuniad o berchnogaeth cyfranddaliadau unigol ac ar y cyd.

**Cymdeithasau Tai**: Mae Cymdeithasau Tai yn gwmnïau sy'n cael eu rheoli'n wirfoddol ac maent yn darparu tai fforddiadwy i'w rhentu ac i'w prynu. Maent yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf ac yn ail-fuddsoddi unrhyw incwm dros ben er mwyn cynnal eu stoc dai neu ychwanegu ati.

**Cwmnïau Cymdeithasol**: Busnesau masnachol sy'n darparu cyflogaeth integredig i bobl ag anableddau neu anfanteision eraill yn y gweithle yw cwmnïau cymdeithasol.

**Ymddiriedolaethau Datblygu**: Mae Ymddiriedolaethau Datblygu yn sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned ac maent yn ymwneud ag anghenion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu cymuned. Maent yn eiddo i'r gymuned leol ac yn cael eu rheoli ganddi. Eu nod yw cynhyrchu incwm drwy weithgaredd masnachu sy'n eu galluogi i symud oddi wrth ddibyniaeth ar gymorth grant.

**Cwmni Buddiannau Cymunedol** – Cwmni cyfyngedig, wedi'i ffurfio dan Ddeddf Cwmnïau 2006, sydd â nodweddion ychwanegol arbennig i ddarparu fframwaith cyfreithiol pwrpasol, gan gynnwys cymalau cloi asedau, i fentrau cymdeithasol sy'n mabwysiadu ffurf cwmni cyfyngedig. Mae cwmnïau buddiannau cymunedol ar gyfer pobl sydd eisiau rhedeg busnes neu weithgaredd arall er budd y gymuned, ac nid er budd preifat yn unig.

**Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus** – Mae hwn yn sefydliad sy'n rhedeg busnes fel menter gydweithredol neu er budd y gymuned. Efallai y bydd angen rhoi rhesymau arbennig i ddangos pam y dylai sefydliad gael ei gofrestru fel cymdeithas ddiwydiannol a darbodus yn hytrach na chwmni.

**Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol** – Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn rhoi'r hawl a ganlyn i awdurdodau lleol: *"to do for a commercial purpose anything which they are authorised to do for the purpose of carrying on any of their ordinary functions"*. Cyfeirir at hyn fel y pŵer i fasnachu. Er mwyn masnachu rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu cwmni, y cyfeirir ato fel cwmni masnachu awdurdod lleol. Dim ond mewn meysydd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau neu swyddogaethau craidd yr awdurdod hwnnw y gall cwmni masnachu awdurdod lleol fasnachu. Mae'r cwmni'n annibynnol ar y cyngor, er bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddal o leiaf 51% o gyfranddaliadau'r cwmni. Mae ganddo ei Fwrdd Cyfarwyddwyr ei hun, sy'n gweithredu er budd pennaf y cwmni yn unig. Mae angen cydymffurfio â rheoliadau caffael lle bo hynny'n berthnasol. Y cwmni masnachu awdurdod lleol cyntaf ym maes gofal cymdeithasol oedolion oedd Essex Cares Ltd a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2009. Yn Ne-ddwyrain Lloegr, mae Cyngor Bwrdeistref Wokingham wedi sefydlu Optalis a ddechreuodd weithredu yn gynnar yn 2011.

**Practis Gwaith Cymdeithasol** – Yn Lloegr, mae Practisau Gwaith Cymdeithasol yn cael eu treialu ym maes gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion. Mae'r practisau'n dilyn modelau proffesiynau 'traddodiadol', lle mae practisau wedi eu sefydlu ers tro e.e. meddygon teulu, cyfreithwyr a phenseiri. Disgwylir y bydd practisau yn eiddo i weithwyr cymdeithasol, neu'n cael eu harwain ganddynt, ond gallent gyflogi staff ychwanegol i ychwanegu at ystod sgiliau'r practis. Bydd Awdurdodau Lleol yn comisiynu gwasanaethau gan bractisau gwaith cymdeithasol drwy gontract, ond byddant yn cadw cyfrifoldebau strategol, a byddant yn rheoli ac yn monitro perfformiad y practisau a'r bartneriaeth gyda hwy. Bwriedir iddynt fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol, â ffurf gyfreithiol ar wahân ac, o ganlyniad, byddant yn gyfrifol

am reoli eu sefydliadau eu hunain. Mewn gwasanaethau oedolion, mae'r pwyslais ar sefydlu practisau fel mentrau cymdeithasol.

**Atodiad 2 – Cronoleg o Bolisïau Llywodraeth y DU ar Sefydliadau Cymdeithas Sifil**

**Gorffennaf 2010**
Llywodraeth Glymblaid y DU yn ymrwymo fel a ganlyn yn *Our Programme for Government*: *“We will support the creation and expansion of mutuals, co-operatives, charities and social enterprises, and enable these groups to have much greater involvement in the running of public services.”*

**Awst 2010**
Lansio sefydliadau cydfuddiannol Pathfinder â 12 o sefydliadau yn deillio o wasanaethau cyhoeddus. Cefnogir y rhain gan fentoriaid ac arweinwyr sy'n arbenigo mewn modelau perchnogaeth gweithwyr, fel Partneriaeth John Lewis a'r Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus.

**Hydref 2010**
Cyhoeddi *Building a Stronger Civil Society: A strategy for voluntary and community groups, charities and social enterprises*, sy'n egluro sut y gallai diwygiadau'r Gymdeithas Fawr greu cyfleoedd i sefydliadau cymdeithas sifil a pha fath o gefnogaeth fydd ar gael. Y strategaeth hirdymor i'w hadeiladu o amgylch tri amcan: hwyluso'r gwaith o redeg sefydliad sector gwirfoddol neu gymunedol; cael mwy o adnoddau i mewn i'r sector er mwyn ei wneud yn fwy gwydn ac annibynnol; hwyluso'r broses o weithio gyda'r wladwriaeth.

Roedd dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd yr un pryd, *Supporting a Stronger Civil Society: An Office for Civil Society Consultation on Improving Support for Frontline Civil Society Organisations,* yn gofyn am farn sefydliadau cymdeithas sifil ynglŷn â pha fath o gefnogaeth fyddai fwyaf buddiol i sefydliadau.

**Tachwedd 2010**
*Araith ar Sefydliadau Cydfuddiannol, Y Gwir Anrhydeddus Frances Maude* – Cyhoeddiad y byddai pob adran yn sefydlu'r hawl i weithwyr sector cyhoeddus gymryd y gwaith o redeg gwasanaethau drosodd, gan gynnwys yr hawl i weision sifil sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan adrannau ffurfio sefydliadau cydfuddiannol (dan yr hawl i ddarparu).

Cyhoeddiad bod y Llywodraeth yn mynd i fuddsoddi dros £10 miliwn i ariannu rhaglen i gefnogi rhai o'r sefydliadau cydfuddiannol mwyaf addawol ac arloesol er mwyn iddynt allu cyrraedd sefyllfa parodrwydd i fuddsoddi.

Papur Gwyrdd *Modernising Commissioning: Increasing the role of charities, social enterprises, mutuals and cooperatives in public service delivery* – Dogfen ymgynghori yn sail i Bapur Gwyn yn y dyfodol ar Ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yn canolbwyntio ar rôl comisiynu er mwyn cryfhau rôl sefydliadau cymdeithas sifil mewn gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn gofyn am farn ynglŷn â thair elfen allweddol er mwyn cynyddu cystadleuaeth a rhoi mwy o ddewis i gwsmeriaid: cyflwyno tâl yn seiliedig ar ganlyniadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus; nodi pa gyfrannau o wasanaethau penodol ddylai gael eu datblygu gan ddarparwyr annibynnol,

gan gynnwys sefydliadau cymdeithas sifil; a chyflwyno hawliau newydd i gymunedau redeg gwasanaethau, a bod yn berchen ar asedau, ac i wasanaethau cyhoeddus ffurfio sefydliadau cydfuddiannol.

**Rhagfyr 2010**
*Y Bil Lleoliaeth*, a gychwynnwyd gan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir yn cynnwys sefydlu hawliau newydd i gymunedau lleol brynu asedau lleol (hawl i brynu) ac i sefydliadau cymunedol wneud cais i gymryd y gwaith o redeg gwasanaethau drosodd (hawl i herio).

Cyhoeddi Compact Newydd â sefydliadau cymdeithas sifil. Mae'r cytundeb yn fyrrach, ac yn fwy penodol, ac mae'n ceisio creu'r amgylchedd priodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'n cael ei gefnogi gan gyfres o fesurau atebolrwydd a thryloywder sy'n cael eu hamlinellu mewn canllaw newydd ar Atebolrwydd Compact a gyhoeddwyd yr un pryd.

**Chwefror 2011**
Lansio wyth sefydliad cydfuddiannol Pathfinder arall a chyhoeddi y bydd Julian Le Grand, Athro Polisi Cymdeithasol yn Ysgol Economeg Llundain, yn arwain Tasglu Sefydliadau Cydfuddiannol newydd i hybu diwygio yng nghraidd y llywodraeth â chefnogaeth y Prif Weinidog.

*Growing the Social Investment Market: A Vision and Strategy* – Yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth o farchnad buddsoddiadau cymdeithasol lewyrchus lle gall mentrau cymdeithasol gael gafael ar y cyfalaf y mae arnynt ei angen i dyfu, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chwmnïau cymdeithasol. Rhagwelir rôl allweddol i Fanc y Gymdeithas Fawr - *The Big Society Bank*.

**Gorffennaf 2011**
*The Big Society Bank* – **Big Society Capital** erbyn hyn – yn agor ar gyfer busnes â chyllid o £500 miliwn o gyfrifon banc cwsg a £200 miliwn gan bedwar o fanciau mwyaf y DU. Nid yw'r banc yn ariannu gwasanaethau'n uniongyrchol, ond mae'n buddsoddi mewn cyrff cyswllt ariannol yn y farchnad buddsoddiadau cymdeithasol, a fydd yn eu tro'n cynyddu mynediad at gyllid i sefydliadau cymdeithasol rheng flaen. Mae'r buddsoddiad cyntaf o £1 miliwn yn mynd i elusen menter dyngarwch Private Equity Foundation, ar gyfer grantiau i gefnogi rhaglen o gynlluniau talu ar sail canlyniadau a fydd yn helpu pobl ifanc i gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Dylid cyflwyno ceisiadau am fuddsoddiad i'r Pwyllgor Buddsoddiadau i ddechrau, ac mae manylion am y gronfa a'r broses ymgeisio i'w gweld ar wefan y Gronfa Fawr: www.biglotteryfund.org.uk

*Open Public Services* – Papur Gwyn yn amlinellu agwedd y Llywodraeth at wasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar gymhwyso pum prif egwyddor - dewis, datganoli, amrywiaeth, tegwch ac atebolrwydd. Mae'n mynegi'r farn mai ansawdd y gwasanaeth sy'n bwysig, nid y model perchnogaeth, ac mae'n nodi ymrwymiad i agor y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ystod o ddarparwyr sy'n cystadlu er mwyn cynnig gwell gwasanaethau. Yn dilyn

ymgynghoriad, bydd y Llywodraeth yn nodi rhaglen waith i weithredu'r agenda gwasanaethau cyhoeddus agored, gan gynnwys cynigion sydd angen deddfwriaeth. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth lawn i'r rhai sy'n ystyried sefydlu sefydliad cydfuddiannol.

*The Road Ahead: A journey through public service reform for civil society organisations* – Llythyr a anfonwyd at sefydliadau cymdeithas sifil gan y Gwir Anrhydeddus Nick Hurd, y Gweinidog dros Gymdeithas Sifil, yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn '*Open Public Services*'. Mae'n cyfeirio at nod y rhaglen gwerth £30 miliwn a gyhoeddwyd yn gynharach, sef y **Rhaglen Trawsnewid Seilwaith Lleol**: *"to help infrastructure organisations improve their offer in respect of contracting support and more effective tools for civil society organisations to engage with local commissioners"*.

Cyhoeddi rhagor o gefnogaeth ar ffurf rhaglen **Parodrwydd i Fuddsoddi a Gwneud Contractau**. Mae'r rhaglen hon yn werth £10m a bydd yn gweithredu am dair blynedd o Ebrill 2012 ymlaen. Ei nod yw helpu sefydliadau cymdeithas sifil i fanteisio ar y cyfleoedd newydd sy'n codi o farchnadoedd newydd ym maes cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a mathau newydd o gyllid cymdeithasol – gan gynnwys benthyciadau a chyfrannau ecwiti – yn cael eu hwyluso drwy Fanc y Gymdeithas Fawr. Nodi cynlluniau hefyd ar gyfer gwneud caffael yn fwy hygyrch, ac ymrwymiad i ddatblygu cynigion ar gyfer gwella comisiynu, a hybu'r comisiynwyr mwyaf arloesol, er mwyn dod â gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio at ei gilydd mewn un lle.

**Tachwedd 2011**
Cafodd y Ddeddf Lleoliaeth Gydsyniad Brenhinol, gan gyflwyno'r Hawl i Wneud Cais, sy'n rhoi cyfle i drigolion gymryd asedau lleol fel siopau a thafarnau drosodd, a chyflwyno'r Hawl i Herio, sy'n ei gwneud yn haws i grwpiau lleol sydd â syniadau da gyflwyno'r syniadau hynny ac yn hybu gwelliannau mewn gwasanaethau lleol.

**Atodiad 3 – Cynlluniau peilot ar gyfer practisau gwaith cymdeithasol**

**Birmingham**
Mae'r cynllun peilot hwn yn treialu ffordd newydd o weithio, ac yn canolbwyntio ar bobl sydd ag anabledd corfforol. Ei nod yw helpu pobl i wneud mwy o bethau ac i fod yn fwy annibynnol. Bydd yn cynnig dull newydd o hybu ac adeiladu'r rhwydweithiau sydd eu hangen er mwyn cefnogi pobl yn eu cymunedau eu hunain. Gwneir hyn drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy hyblyg, a sicrhau seilwaith cynaliadwy.

Bydd timau gwaith cymdeithasol wedi eu cysylltu â sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, ac â gwasanaethau sy'n galluogi pobl. O ganlyniad, byddant yn gallu datblygu 'cynnig estynedig' i bobl anabl. Bydd hyn yn caniatáu i weithwyr cymdeithasol weithio mewn cysylltiad llawer agosach ag unigolion, ac i weithio mewn cymunedau.

**Lambeth**
Mae'r cynllun peilot hwn yn rhan o weledigaeth y cyngor i Lambeth fod yn Fwrdeistref Gydweithredol. Bydd y cynllun peilot yn arwain y ffordd drwy fabwysiadu ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaethau yn y cyngor, a hynny drwy sefydliadau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol. Gweledigaeth Lambeth yw tîm yn cael ei arwain gan weithwyr cymdeithasol a fydd yn cynnig ymyriadau cynnar i bobl â lefelau isel o anghenion. Ni fyddai'r bobl hyn yn cael cefnogaeth gan wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion fel arfer.

Bydd Lambeth yn gweithio mewn partneriaeth â phobl leol mewn ffyrdd arloesol a chreadigol, o'r cysylltiad cyntaf. Bydd yn gwneud hyn drwy gynghori pobl sy'n rheoli eu hanghenion gofal eu hunain; drwy estyn allan i bob rhan o'r gymuned; a thrwy helpu pobl i gadw eu hunain yn ddiogel rhag niwed ac yn annibynnol. Bydd y cynllun peilot yn adeiladu ar lwyddiant gwaith y cyngor yn datblygu gofal mwy personol i bobl sy'n byw yn Lambeth.

**Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln**
Y grŵp o gleientiaid yw pobl hŷn a phobl sydd ag anabledd corfforol, nam ar eu synhwyrau neu anabledd dysgu. Bydd y practis gwaith cymdeithasol newydd yn gweithio mewn cysylltiad agos iawn â chymunedau, meddygon teulu, ymarferwyr gofal eraill ac arbenigwyr.

Bydd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn helpu i asesu anghenion a datblygu cynlluniau personol wedi eu teilwra. Y nod yw atal problemau a all arwain at ddirywiad mewn cyflwr iechyd, derbyn cleifion i'r ysbyty, neu i ofal preswyl neu ofal nyrsio.

**Swydd Amwythig**
Bydd cynllun peilot Practis Gwaith Cymdeithasol newydd Swydd Amwythig yn ymwneud â chreu menter gymdeithasol ddielw. Nod y cynllun yw cefnogi hyd at 1,800 o breswylwyr ledled y sir. Bydd y tîm yn profi dull gwahanol o asesu pobl hŷn, pobl ag anabledd corfforol a phobl ag anableddau dysgu drwy:

- ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth, asesiad a chyngor i gynyddu annibyniaeth drwy ailsefydlu ac ailalluogi
- darparu cyngor, cefnogaeth a mynediad at dechnolegau cynorthwyol
- dyrannu cyllidebau personol i'r rhai hynny sy'n gymwys
- edrych ar ddewisiadau amgen wrth ddatblygu cynlluniau cefnogi
- gwneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau a threfnu cefnogaeth
- cynnal asesiadau ac adolygiadau gofalwyr
- datblygu rhwydweithiau cefnogi cymheiriaid.

**Stoke-on-Trent**
Bydd y practis yn darparu asesiad a rheolaeth achos i bobl â Chyflyrau Niwrolegol Hirdymor, yn enwedig Sglerosis Ymledol, clefyd Parkinson a Chlefyd Niwronau Motor. Bydd y practis yn gweithredu fel menter gymdeithasol, yn cael ei harwain gan sefydliad sector gwirfoddol mewn partneriaeth ag ymarferydd gwaith cymdeithasol annibynnol.

Yn ychwanegol at hyn, bydd y practis yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion lefel isel gan ganolbwyntio ar atal, ymyriadau cynnar ac ymgysylltiad amserol. Bydd hefyd yn cynnwys cefnogaeth i aelodau o'r teulu a gofalwyr. Bydd y practis yn gweithio mewn cysylltiad agos â nifer o wahanol weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau dull cyfannol o gyflenwi gwasanaethau a sicrhau gwell canlyniadau. Bydd barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ganolog i'r practis pan fydd yn cael ei ddatblygu, a thrwy'r adeg y bydd yn cael ei weithredu, ei fonitro a'i werthuso.

**Suffolk**
Bydd prosiect Suffolk yn cefnogi oedolion sydd â nam ar eu synhwyrau. Bydd yn cynnwys asesiadau statudol o unigolion a gofalwyr, ynghyd ag ymyriadau cynnar, gwaith cynllunio cefnogaeth a rheoli gofal. Prif nod y prosiect yw gwella canlyniadau a chynnig mwy o ddewis i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau. Gobeithir gwneud hyn drwy weithio gyda phartneriaid mewn ffordd fwy creadigol er mwyn sefydlu gwell adnoddau yn Suffolk.

Bydd y gwasanaethau'n cynnwys; gwaith cymdeithasol; adsefydlu; asesiadau gwasanaethau synhwyraidd deuol; cyngor a chyfarwyddyd; cyfarpar i bobl sydd â nam ar eu clyw; a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain neu Saesneg. Er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth, bydd Cyngor Sir Suffolk yn sefydlu cwmni yn cael ei arwain gan weithwyr cymdeithasol.

**Surrey**
Mae pobl sydd wedi colli un o'u synhwyrau wedi cael budd yn ddiweddar o strategaeth gomisiynu wedi ei chydgynllunio yn y sir. Un o ganlyniadau'r strategaeth yw gwerthuso dichonoldeb darparu gwasanaethau i bobl fyddar yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cael ei gyflenwi drwy fath newydd o sefydliad, yn seiliedig ar fodel menter gymdeithasol. Bydd y practis gwaith cymdeithasol yn darparu llwyfan i dreialu'r cynlluniau hyn. Bydd y gwasanaethau'n seiliedig ar ddull cefnogi sy'n canolbwyntio ar unigolion, lle bydd mwy o bobl yn rheoli eu cyllidebau eu hunain ac yn cael mynediad at wasanaethau cymunedol. Mae'r Cyngor yn teimlo'n gyffrous iawn ynglŷn â'r

potensial i wella rhagor ar y canlyniadau i breswylwyr. Mae prosiect y Practis Gwaith Cymdeithasol hefyd yn gobeithio y bydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, y Coleg Gwaith Cymdeithasol, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, y Cyngor Cenedlaethol Byw'n Annibynnol a'r Grŵp Llywodraeth Leol yn cael eu cynnwys.

**Arloeswyr Practisau Gwaith Cymdeithasol:**
Dechreuodd y rhain i gyd ym mis Mawrth 2012 ac mae pob un yn cael grantiau bach a chymorth.

| Enw'r Prosiect | Lleoliad | Sylwadau |
|---|---|---|
| Cyngor Dinas Birmingham | Birmingham | Gwaith cymdeithasol i ddatblygu capasiti, sgiliau a hyder mewn sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr. Rhwydweithiau dysgu cymdeithasol cymheiriaid. Anelu at ddatblygu'r capasiti i helpu eu hunain. |
| Cyngor Canol Swydd Bedford | Canol Swydd Bedford | Ystod o ymatebion gwaith cymdeithasol ychwanegol neu ddirprwyol i amgylchiadau diogelu. |
| Clarifi Consulting | Ipswich | Gwasanaeth arbenigol i oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan yn blant. |
| Counter Human Trafficking Bureau (CHTB) | Llundain | Tîm gwaith cymdeithasol cenedlaethol i weithio gyda dioddefwyr masnachu mewn pobl – wedi'i gysylltu â swyddogaethau diogelu'r Awdurdodau Lleol - gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn "agored i niwed", CHTB, ADASS UKBA a'r system cyfiawnder troseddol.<br>Hyd at 100 o bobl (10% o atgyfeiriadau cenedlaethol) – y rhai sy'n cael eu cyflwyno i sylw Awdurdodau Lleol. Defnyddir y cyllid sbarduno ar gyfer sefydlu ac i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol fel bod modd sefydlu contractau yn ôl y galw neu gontractau bloc. |
| Greenwhich a Daybreak | Greenwich | Partneriaeth gyda'r cyngor, yn cael ei chefnogi gan y bwrdd diogelu. Agweddau adferol at amgylchiadau diogelu. |
| ibk initiatives a Lives Unlimited | Caerefrog | Bydd sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr/teuluoedd yn cyflogi gweithiwr cymdeithasol. Partneriaeth rhwng pobl anabl a gweithiwr cymdeithasol. Gweithio gyda phobl yn eu 20au neu eu 30au. Gwerthusiad gan y Ganolfan Diwygio Lles. |
| Cyngor Medway | Medway | Canolbwyntio ar ddarparu gwell llety sefydlog ar gyfer 40 o bobl ag anghenion iechyd meddwl. Bydd hyn yn rhan o fenter gymdeithasol fwy. Cyfle i staff eithrio i mewn i gael cyfranddaliadau, a gobeithio ymestyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. |
| Safe and Settled Ltd | Walsall, Swydd Stafford | Gwybodaeth, Cyngor ac Eiriolaeth, asesu a chynllunio cefnogaeth – yn enwedig ar gyfer pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain. |
| The Carers' Resource | Skipton | Cynllunio cefnogaeth, datblygu capasiti a rhoi gwybodaeth i'r rhai hynny nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth gwasanaethau statudol, drwy ddewis neu oherwydd amgylchiadau. |
| The Independent Social Work Partnership | Sir Gaer | Gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb ac ar-lein am ddim i bobl nad ydynt yn bodloni'r meini prawf neu'n ariannu eu gofal eu hunain. |

**Atodiad 4 Deunydd Darllen Defnyddiol / Dogfennau Cyfeiriol**

- Ychwanegu Gwerth: Dangos enghreifftiau o arferion da wrth gaffael a chyflenwi
- Budd i'r Gymuned – Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru
- Making Assets Work: The Quirk Review (2007), y potensial i drosglwyddo asedau cyhoeddus
- Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru: Deall er mwyn Dylanwadu (2009)
- Rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru (2010) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) Y Pwyllgor Menter a Dysgu
- Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)
- Social Enterprise UK: Social Enterprise Survey 2011
- Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- Y Trydydd Dimensiwn (2008): Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol
- Canolfan Cydweithredol Cymru (2011) Menter Gymdeithasol yng Ngwasanaeth y Cyhoedd
- Llywodraeth Cymru (Mehefin 2011), 'Local, regional, national: what services are best delivered where?' wedi'i gomisiynu gan Carl Sargeant AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- Addicott, R. (2011) Social enterprise in health care: Promoting organisational autonomy and staff engagement, Llundain: The Kings Fund.
- Yr Adran Iechyd (2010) Leading the Way Through Social Enterprise – The social enterprise pathfinder evaluation. Y Llyfrfa: Llundain.
- Ellins, J. a Ham, C. (2009) NHS Mutual. Llundain: Nuffield Trust.
- Hall, K. Miller, R. a Millar, R. (2012) 'Push or Pull: what motivates healthcare staff to spin out of the NHS?', Social Enterprise Journal. Ar gael ar-lein yn awr
- Macmillan, R. (2010) The Third Sector Delivering Public Services: An Evidence Review, Papur Gwaith 20, Third Sector Research Centre.
- Miller, R. Millar, R. a Hall, K. (2012) 'Spin outs and social enterprise: The Right to Request programme in the English NHS', Public Money and Management, 32 (3).
- Miller, R. a Millar, R. (2011) 'Social enterprise spin-outs from the English health service: a Right to Request but was anyone listening?', Third Sector Research Centre, Papur Gwaith 52.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2011) Establishing social enterprises under the Right to Request Programme, Yr Adran Iechyd, Y Llyfrfa, Llundain.
- Gwerthusiad o Gronfa Fuddsoddi Mentrau Cymdeithasol: gweler http://www.tsrc.ac.uk/Research/SEIFEvaluation/tabid/757/Default.aspx

**Atodiad 5**

**Astudiaethau Achos yng Nghymru**

**Darparwyd yr astudiaethau achos a ganlyn gan Ganolfan Cydweithredol Cymru**[1]

**Menter Fachwen**

Sefydlwyd Menter Fachwen yn 1988 gan grŵp o ffrindiau a brynodd lain fechan o dir ac adeilad gwag. Mae wedi datblygu fel menter lle gall pobl ag anableddau gael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn eu cymuned leol.

Mae'r fenter yn cynnwys nifer o fusnesau, pob un yn ei gymuned a'i safle ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdy saer, gwasanaeth arlwyo a chaffi â chyfleuster twristiaeth gynaliadwy cysylltiedig, canolfan arddio a chanolfan adnoddau TGCh gymunedol. Mae pobl ag anableddau dysgu dwys yn cymryd rhan yn y gymuned, drwy weithio yn un o'r pum menter a reolir gan y sefydliad.

Mae adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn prynu darpariaeth sgiliau byw'n annibynnol gan Fenter Fachwen. Darperir y sgiliau o fewn fframwaith ehangach o ddewisiadau gwasanaeth ar gyfer awdurdodau lleol y disgwylir iddynt ganolbwyntio ar unigolion er mwyn galluogi pobl i gyflawni eu potensial llawn fel dinasyddion yn eu cymunedau lleol. O'i chymharu â darpariaeth fewnol yr awdurdod lleol ar gyfer anableddau dysgu, mae costau gweithredu Menter Fachwen yn llawer is. Erbyn hyn mae gan y sefydliad gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer 16 o gleientiaid sy'n cael eu cyfeirio'n uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol a 22 contract arall gydag unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae llawer o'r cleientiaid wedi symud ymlaen i waith cyflogedig yn eu cymuned leol.

Mae'r sefydliad yn gwbl hunangynhaliol ac mae ganddo drosiant blynyddol o tua £600,000. Yn y gorffennol, mae grantiau wedi cyfrannu tuag at ei gyllid cyfalaf a refeniw. Datblygwyd y sefydliad ar sail yr egwyddor o ddefnyddio cyfuniad o grantiau a refeniw a gynhyrchwyd drwy gyflenwi gwasanaethau dan gontract. Mae'n buddsoddi yn y busnes ac yn datblygu'r mentrau, ac mae'r mentrau'n masnachu yn y gymuned leol. Mae'r sefydliad yn ariannu ei hun drwy'r refeniw a gynhyrchir gan y pum busnes ynghyd â'r cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau cleientiaid unigol.

Mae'r mentrau unigol yn cynhyrchu gweddill sy'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r pecynnau gofal ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r holl refeniw'n cael ei gronni ac yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu pecyn gwasanaeth wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer pob unigolyn, yn hytrach na

[1] Canolfan Cydweithredol Cymru – Menter gymdeithasol yng ngwasanaeth y cyhoedd
Archwilio'r manteision a'r rhwystrau i fentrau cymdeithasol –Tachwedd 2011

chael y cyllid yn dilyn pob unigolyn. Mae hyn yn creu elfen o draws-sybsideiddio. Gall Menter Fachwen ddefnyddio'r ddealltwriaeth fanwl o bob defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael ei datblygu drwy'r rhyngweithiadau dyddiol i ymateb i ofynion unigryw unigolion.

Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth yn cynnwys nifer o dargedau sy'n seiliedig ar ansawdd, hyfforddiant a chymwysterau staff a safonau gwasanaeth. Gwneir cytundebau'n flynyddol a chynhelir adolygiadau rheolaidd. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei ail-drafod mewn cyfarfod blynyddol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd er mwyn sicrhau'r gwerth ychwanegol mwyaf i'r awdurdod lleol.

**Gofal a Thrwsio Abertawe**

Sefydlwyd Gofal a Thrwsio Abertawe yn 2000 ar ôl i'r prosiect “Staying Put” a oedd yn cael ei weithredu gan Gymdeithas Tai Abertawe ddod i ben. Cafodd ei sefydlu i gynorthwyo pobl hŷn yn yr ardal oedd angen rhywun i wneud mân waith cynnal a chadw ar eu tai. Mae'r gwasanaeth mân waith atgyweirio ac addasu hwn yn helpu'r henoed i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus yw Gofal a Thrwsio Abertawe ac mae'n un o rwydwaith o ddwy ar hugain o asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn mân waith â phris isel. Mae'r prosiectau hyn, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyflawni fel prosiectau ar wahân, yn cael eu defnyddio fwyfwy gan unigolion hŷn sy'n talu am y gwasanaeth eu hunain.

Mae'n darparu ystod o wasanaethau atgyweirio ac addasu sy'n canolbwyntio ar y client. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n atal damweiniau neu'n atal cyflyrau iechyd sy'n bodoli'n barod rhag gwaethygu. Mae'r buddsoddiadau bach amserol yn golygu bod pobl hŷn yn gallu aros yn eu cartrefi am fwy o amser, gan leihau'r angen am ofal preswyl, a bod modd cyflymu'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai. Mae mesurau i gynyddu diogelwch yn nhai pobl hŷn, sy'n cael eu darparu gan Ofal a Thrwsio Abertawe, hefyd yn lleihau troseddau ac ofn troseddau, sydd unwaith eto'n cefnogi pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys Gwiriad Cartrefi Iach, rhaglen Addasiadau Brys yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, sy'n ymateb ar unwaith i anghenion penodol, er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae tua 65% o ymholiadau'n dod oddi wrth bobl hŷn yn uniongyrchol; bydd Gofal a Thrwsio Abertawe'n teilwra pecyn cymorth yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Mae'n cynnig gwerth unigryw. Yn hytrach na dim ond ymateb i'r angen penodol a nodwyd gan yr asiantaeth gyfeirio dan sylw, bydd ymweliad gan weithiwr achos yn nodi a yw'n bosibl bod gan yr unigolyn anghenion eraill sy'n gysylltiedig â thai.

Mae'r sefydliad yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi ystod o wasanaethau craidd. Mae hefyd yn rhedeg nifer o gontractau wedi eu caffael yn lleol ar draws nifer o adrannau a gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys

dau gytundeb lefel gwasanaeth gydag adran dai Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer ei Grant Ymwelwyr Iechyd sy'n ariannu mân waith, wedi eu nodi gan yr ymwelydd iechyd, ac mae'n helpu'r cleient i wneud cais am arian ar gyfer y prosiectau.

Nid yw Gofal a Thrwsio Abertawe'n cystadlu yn erbyn darparwyr eraill o ran pris. Ei gyfuniad o allu a gwasanaethau sy'n rhoi mantais iddo.

**Cymdeithas Mind Dyffryn Clwyd**

Mae Cymdeithas Mind Dyffryn Clwyd yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Cafodd ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl o ganlyniad i gynllun i ddod o hyd i lety i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ers hynny mae wedi datblygu ei gwasanaethau i lenwi bwlch yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, ar sail cynnig gan sefydliadau iechyd meddwl allanol i ganiatáu i bobl gael gafael ar wasanaethau, cefnogaeth a chyfleoedd a fyddai'n eu hintegreiddio yn y gymuned leol.

Mae gweithgareddau Mind Dyffryn Clwyd yn seiliedig ar ethos eiriolaeth wreiddiol y gymdeithas, sef rhoi sylw i fuddiannau pobl sy'n cael eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl. Mae'r cynnig o dai â chymorth wedi troi hyn yn wasanaethau diriaethol, sydd bellach yn ffurfio cnewyllyn gweithgareddau Mind Dyffryn Clwyd. Mae'r gwasanaethau'n amrywio o ofal preswyl i ddeg oedolyn sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus, i ddarparu cefnogaeth ‘fel y bo'r angen’ i bobl ag anghenion gofal parhaus sy'n byw mewn 19 o fflatiau.

Yn ogystal â'r gwasanaethau sefydledig hyn, mae Mind Dyffryn Clwyd wedi datblygu rhagor o wasanaethau gwerth ychwanegol i'w brif grŵp targed gan gynnwys portffolio o wasanaethau allgymorth gwledig sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd meddwl, yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae hefyd wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ddull newydd arloesol o weithio gyda phobl sydd â chyflyrau cronig, Rhaglen Gofal Emosiynol i Gyflyrau Cronig, EC3. Mae'r rhaglen EC3 hefyd yn darparu hyfforddiant i weithwyr Gofal Sylfaenol ar bob lefel er mwyn gweithio gydag effeithiau emosiynol Cyflyrau Cronig.

Darperir gwasanaethau craidd y sefydliad, yr uned gofal preswyl a thai â chymorth, ar sail contract treigl tair blynedd, a'r rhain yw ei egwyddorion ariannol sylfaenol. Mae gweithio mewn cysylltiad agos â'r Bwrdd Iechyd Lleol, y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a chymdeithasau tai lleol yn fwyaf penodol, wedi caniatáu i Mind Dyffryn Clwyd ddatblygu gwybodaeth arbenigol drylwyr ac enw da iddo'i hun ymhlith comisiynwyr.

Mae ei sefyllfa ariannol yn sefydlog â throsiant o £800,000 i £1 miliwn y flwyddyn. Mae tua un rhan o dair o'r trosiant hwn yn dod o'r gwasanaethau tai â chymorth, tra mae dwy ran o dair ohono'n cael ei gynhyrchu o gyllid cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol.

**Adfywio Lles *(Wellbeing Regeneration)***

Mae Adfywio Lles yn deillio o brosiect peilot gofal traed, a gomisiynwyd gan bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Podiatreg y GIG, yr awdurdod lleol, y Bartneriaeth 50+/Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin (Bwrdd Iechyd Hywel Dda erbyn hyn). Yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot, sefydlwyd y fenter gymdeithasol yn 2008. Cofrestrwyd hi ym mis Chwefror a dechreuodd fasnachu ym mis Ebrill y flwyddyn honno. Roedd y cyfarwyddwr, sydd o gefndir iechyd cymunedol, wedi gweld bwlch yn y farchnad, sef diffyg gwasanaethau gofal traed fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin. Rhaid ystyried creu'r fenter yng nghyd-destun ehangach cynlluniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda i integreiddio gwasanaethau. Prif nod integreiddio gwasanaethau yw ategu gwasanaethau statudol mewn ardal. Gellir ystyried Adfywio Lles fel cyfrwng strategol a grëwyd i gyflawni'r agweddau hynny nad ydynt o fewn gallu'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn sicrhau llywodraethu clinigol, safonau allweddol ac asesiad podiatreg ar gyfer y gwasanaeth. Yn ychwanegol at hyn, cyfrannodd y bwrdd iechyd lleol gyllid a gwasanaeth monitro yn ystod y ddwy flynedd ddatblygu gyntaf. Cafodd Adfywio Lles sgôr o 100% ac, o ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wedi chwarae llai o ran ers hynny. Adlewyrchir y ddealltwriaeth bod symud llai a pheidio â gwneud ymarfer corff yn cael effeithiau corfforol, cymdeithasol a meddyliol andwyol, ac yn amharu llawer iawn ar les, ym mhortffolio gwasanaeth Adfywio Lles. Mae'r gwasanaeth gofal traed ei hun yn cynnig mwy na therapïau arferol, er enghraifft gwasanaethau gwerthu esgidiau priodol, gan gynhyrchu refeniw o ganlyniad i hynny, ac mae'n cynnwys gwasanaeth ffitio a chynghori. Mae hefyd wedi datblygu nifer o wasanaethau therapiwtig.

Datblygir gwasanaethau ychwanegol ar sail yr egwyddor o osgoi dyblygu gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r cynllun peilot cymunedol i ddarparu gwasanaethau fflebotomi, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r ysbyty lleol, yn ymateb i giwiau hir yn yr adran Fflebotomi yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Gweithiodd Adfywio Lles gyda'r meddyg teulu arweiniol lleol a'r Tîm Adnoddau Cymunedol ar gynllun peilot i ddod â'r gwasanaeth allan i'r gymuned. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad gan y Bwrdd Iechyd i symud gwasanaethau allan o'r sector acíwt a gweithio mewn cysylltiad agosach â'r trydydd sector.

Mae Adfywio Lles yn gweithio ar y cynsail o ddefnyddio grantiau i dreialu gweithgareddau newydd. Darparodd y cytundeb lefel gwasanaeth gwreiddiol gyda'r bwrdd iechyd lleol gymhorthdal ar gyfer gofal traed fforddiadwy. Darperir y contract gofal traed yn eang.

Torrwyd bron i 100,000 o ewinedd traed y llynedd ac mae nifer y cleientiaid (bron i 1,700 o gwsmeriaid) yn cynyddu'n ddyddiol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn cynhyrchu dwy ran o dair o refeniw Adfywio Lles.

**Vision 21 (Cyfle Cymru)**

Sefydlwyd yr elusen gofrestredig a menter gymdeithasol hon yng Nghaerdydd dros 25 mlynedd yn ôl gan weithiwr cymdeithasol ifanc a oedd wedi gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu ac a oedd yn credu nad oedd Canolfannau Gwasanaeth Dydd traddodiadol yn darparu llawer o weithgareddau a oedd yn eu hysgogi neu'n rhoi boddhad iddynt. Erbyn hyn mae gan y sefydliad 5 canolfan, ynghyd â datblygiadau sy'n cael eu cefnogi mewn gwahanol rannau o dde a gorllewin Cymru. Drwy ei bartneriaethau, mae'n darparu hyfforddiant galwedigaethol wedi'i achredu'n genedlaethol, rhaglenni datblygiad personol a dewisiadau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu. Ei genhadaeth yw '*cynnig digon o amser a chefnogaeth i bobl sydd ag anableddau dysgu i ddarganfod a datblygu sgiliau a phrofiadau newydd, gan arwain at ddewisiadau deallus a grymuso go iawn'*. Mae'r agwedd hon yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ynglŷn â thrin pobl sydd ag anabledd dysgu ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae Vision 21 yn credu y gall creu mentrau cymdeithasol arloesol a chynaliadwy ledled Cymru sicrhau bod y cyfleoedd ar gyfer cydraddoldeb mewn cyflogaeth yn dod yn realiti a darparu sail ar gyfer mentrau adfywio cymunedol yn y dyfodol. Mae'n ail-fuddsoddi yn ôl yn y gymuned yn barhaus er mwyn sicrhau twf cyson a fydd yn ei alluogi i sicrhau cyfle cyfartal i rai o aelodau mwyaf difreintiedig y gymuned.

Mae'r mentrau amrywiol yn Vision 21 yn darparu cyflogaeth i 66 o weithwyr ac yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i wirfoddolwyr. Mae ei incwm yn dod o ffynonellau cymysg, ac mae refeniw o fentrau a chynlluniau hyfforddi'n cael ei ategu gan grantiau a gweithgareddau codi arian. Mae ei fentrau cymdeithasol yn cynnwys canolfannau arlwyo, garddwriaeth a manwerthu, gweithdai crochenwaith a gwaith coed a fferm gymunedol, sydd i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth. Mae cyfleoedd eraill yn deillio o'i bartneriaethau strategol, er enghraifft, partneriaeth â chymdeithas dai i staffio a rhedeg y tai bwyta mewn dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol newydd.

**Cafwyd yr astudiaethau achos a ganlyn gan WCVA [2]**

**Gwasanaethau integredig: cymorth sy'n gysylltiedig â thai**

Mae'r prosiect hwn, a sefydlwyd gan elusen iechyd meddwl, yn darparu llety i saith oedolyn sydd angen lefel ddwys o gefnogaeth fel rhan o'u hadferiad, ac mae dau aelod o staff ar ddyletswydd 24 awr y diwrnod. Mae'n cynnig amgylchedd sefydlog i bobl sydd newydd adael yr ysbyty ac sy'n gweithio tuag at fyw'n annibynnol, ac yn galluogi cleientiaid i aros yn eu cartrefi drwy'r rhan fwyaf o achosion o argyfwng neu gymryd cam yn ôl.

Roedd y prosiect yn cynnwys creu cyfres unigryw o bartneriaethau. Daeth ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir, y darparwr cymorth sy'n

[2] WCVA - Public services: co-design, co-delivery

gysylltiedig â thai, y prif gymdeithas tai yn yr ardal, y Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG at ei gilydd. Yr hyn sy'n nodedig am brosiect Aberystwyth yw ansawdd arbennig ei lety â fflatiau sy'n darparu amgylcheddau therapiwtig dymunol. Mae'r fflatiau wedi eu dodrefnu i safon uchel, mae naws newydd a chroesawus iddynt ac maent yn darparu'r math o gartref y byddai pobl eisiau byw ynddo. Mae'r prosiect yn darparu'r amgylchedd priodol, ac mae hefyd yn cael ei gefnogi gan gynllun adfer trefnus sy'n perthyn i'r client ond sy'n cael ei gefnogi gan y staff. Ag 'Agwedd Unigolyn Cyfan' mae'r client yn cael edrych ar bob agwedd ar ei fywyd, ac mae hyn yn ei alluogi i edrych ar faterion fel addysg, meddyginiaeth, therapïau eraill, bywyd cymdeithasol, iechyd corfforol ac arian. Yn bennaf oll, mae'n cynorthwyo'r cleientiaid – hyd yn oed pan maent yn wael iawn – i fod yn annibynnol wrth iddynt ddechrau gwella.

Dywedodd un o gleientiaid y prosiect: "Mae gen i fflat modern, braf â chyfarpar da yma. Mae'n lle i mi fy hun: mae gen i breifatrwydd ac annibyniaeth ond rwy'n gwybod y gallaf gael cefnogaeth unrhyw bryd. Mae cael y fflat hwn yn bendant wedi fy helpu i wella. Mae'r prosiect yn garreg gamu tuag at annibyniaeth. Mae'n gweithredu fel pont rhwng bod yn yr ysbyty a symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'n gam pwysig iawn i bobl sydd wedi bod mewn ysbyty am gyfnod hir oherwydd byddai'n anodd symud i fflat ar eich pen eich hun."

Mae'r prosiect yn darparu cymorth cymunedol sy'n canolbwyntio ar y cleient yn ei gyfanrwydd, ac mae hefyd wedi arbed llawer o arian i'r awdurdod lleol yn barod drwy ddod â chleientiaid sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir yn ôl i'w hardal eu hunain (£0.5m yn y flwyddyn gyntaf). Mae wedi lleihau gwariant ar wasanaethau cyhoeddus gan ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleientiaid yn y gymuned. Mae datblygu cymorth cysylltiedig â thai yn y gymuned, gan ddod â phobl adref a'u galluogi i gyfrannu i'w cymunedau, wedi bod o fudd i'r cleient ac i gomisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus.
Ffynhonnell: Cymorth Cymru

**Gwasanaeth Min Nos: cludiant adref o'r ysbyty 'y tu allan i oriau' ac asesiad risg**

Mae'r gwasanaeth hwn yn ceisio sicrhau nad yw pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty'n ddiangen drwy gynnig cludiant adref o'r ysbyty i gleifion dros 55 oed sy'n ddigon da o safbwynt meddygol i gael eu rhyddhau o adran damweiniau ac argyfwng mewn dau Ysbyty Cyffredinol lleol, ac atal achosion o aildderbyn i'r ysbyty drwy asesiadau risg yn y cartref a chyfeirio cleifion at sefydliadau cymorth cymunedol a statudol, gan arbed adnoddau i Ymddiriedolaeth y GIG a lleihau dioddefaint pobl. Gall staff y fenter Min Nos ddarparu gwasanaethau eraill hefyd gan gynnwys: gwasanaeth cyfeillio i gleifion; cefnogi staff y GIG yn yr adrannau drwy gyflawni rhestr gytunedig o dasgau.

Mae'r gwasanaeth Min Nos yn cael ei ariannu gan y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n gweithredu bum niwrnod yr wythnos, rhwng 2pm a 10pm. Mae gyrwyr, sydd i gyd yn ddwyieithog, ar gael yn y ddau ysbyty i gludo cleifion adref mewn ffordd gyfeillgar. Mae pob claf yn cael ei

gludo i'w gartref, yn cael cymorth i setlo ac yn cael cynnig archwiliad diogelwch cartref a chyfeiriad at weithgareddau/gwasanaethau eraill os yw hynny'n briodol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi darparu gwasanaeth trosglwyddo i ysbytai eraill, ac mae wedi croesi ffiniau daearyddol a oedd yn golygu nad oedd modd defnyddio trefniadau cludiant arferol.

Yn y gorffennol roedd pobl hŷn a oedd yn ddigon da o safbwynt clinigol i gael eu hanfon adref yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd a) roedd pryder ynglŷn â'u diogelwch, b) nid oedd y gwasanaeth cludo cleifion mewn ambiwlans ar gael, c) nid oedd cludo mewn tacsi'n briodol neu ch) nid oedd staff cartrefi gofal ar gael i gasglu'r unigolyn hŷn. Mae'r gwasanaeth yn goresgyn y rhwystrau hyn ac yn atal achosion o dderbyn cleifion i ysbytai yn ddiangen. Roedd cost y derbyniadau hyn, ar sail un noson y pen (er bod yr arhosiad arferol yn hwy), yn fwy na'r cyllid a ddarparwyd i'r gwasanaeth Min Nos pan gafodd ei fonitro dros gyfnod o 6 mis yn 2009.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r gyrwyr ar gael yn y ddau ysbyty i fod yn 'ffrindiau' i gleifion ac i fynd ar negeseuon syml ar ran y staff. Cafodd defnyddwyr gwasanaethau eu cyfeirio at grwpiau cefnogaeth gymdeithasol lleol, Gofal a Thrwsio, y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Feddyg Teulu. Ni ellir rhoi gwerth ariannol i'r gwahaniaeth y mae wedi ei wneud i'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth, ond mae'r bobl hyn wedi dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gofalu amdanynt, eu bod yn gwerthfawrogi cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill a'u bod yn teimlo rhyddhad nad ydynt yn gorfod aros yn yr ysbyty.

Y gwersi a ddysgwyd yw bod angen mwy na chludiant cleifion arferol neu wasanaethau tacsi pan fo pobl agored i niwed yn cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys ac unedau penderfyniadau clinigol. Mae darparu cyswllt â gwasanaethau eraill, yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, yn helpu i integreiddio'r system gofal ac yn sicrhau bod modd diwallu'r angen am gymorth lefel isel. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â chostau cymharol y gwasanaeth y tu allan i oriau a'r gwasanaeth arferol yn ystod y dydd, ond byddai'n ddefnyddiol.

Ffynhonnell: F Zinovieff & B Collis (2010) The Role of the Voluntary Sector in Delayed Transfer of Care (DToC)/Hospital Discharge and Prevention of Readmission. Adroddwyd wedi'i baratoi i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyswllt: B Collis, bcollis@wcva.org.uk

**Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y defnyddwyr: Barnardo's Cymru: Cynnwys gwirfoddolwyr yn y gwaith o gefnogi pobl ifanc agored i niwed**

Mae Barnardo's yn rhedeg nifer o wasanaethau yng Nghymru sy'n darparu gwahanol fathau o gefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn llety, neu sydd wedi bod mewn llety sy'n cael ei drefnu gan yr awdurdod lleol, er mwyn iddynt allu rheoli'r newid o adael gofal i fyw'n annibynnol yn llwyddiannus. Mewn un gwasanaeth penodol, mae gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr â Chynghorwyr Pobl Ifanc cyflogedig. Effaith hyn yw bod gwirfoddolwyr yn cael

eu gweld fel rhan o'r tîm, gan ddarparu ystod ehangach o brofiadau a chefnogaeth i'r bobl ifanc. Darperir hyn dros nifer o flynyddoedd, gan ddatblygu perthynas, cymryd mewn rhan mewn gweithgareddau grŵp a dod i ymddiried mewn pobl eraill. Gallant gynnig sgiliau penodol (e.e. coginio, crefftau syml o gwmpas y tŷ) yn ogystal â chefnogi datblygiad sgiliau bywyd mewn ffordd hyblyg, 'yn ôl y galw'. Mae defnyddwyr gwasanaethau'n dweud bod y gwirfoddolwyr 'yn gyfeillgar, yn gefnogol ac yn hawdd i siarad gyda hwy' a chan fod ganddynt gefndir tebyg mae defnyddwyr y gwasanaethau'n teimlo eu bod yn eu deall yn dda. Maent yn gobeithio y bydd y gefnogaeth y maent yn ei chael yn parhau ar ôl y cyfnod pan na fyddant yn gymwys i dderbyn gwasanaethau statudol.

Yn ychwanegol at hyn, roedd y bobl ifanc a oedd yn gadael gofal yn cael eu hannog yn eu tro i wirfoddoli drwy gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, ac roedd hynny'n datblygu eu hunan hyder a'u profiad o fywyd. Roedd y bobl ifanc yn cysylltu eu brwdfrydedd i wirfoddoli â'u profiad o gael cymorth gan wirfoddolwr.

Y gwersi a ddysgwyd yw y gall gwirfoddolwyr fod yn elfen o'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig 'gwerth ychwanegol', a chynnig llawer o brofiadau a sgiliau nad ydynt o reidrwydd gan bobl sydd â gyrfa mewn gofal cymdeithasol. Drwy weld gwirfoddolwyr yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaeth mae'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth yn rhoi'r gorau i feddwl 'dydych chi ddim ond yn gwneud hyn oherwydd eich bod yn cael tâl am wneud'. Maent yn dechrau ystyried eu hagweddau a'u chymhellion eu hunain, ac mae hynny'n aml yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Ffynhonnell: M Andrews (2009) The Impact of Volunteer Support on Service Users, Barnardo's Cymru. Cyswllt: melanie.andrews@barnardos.org.uk

**Gwasanaethau integredig: Hyfforddwyr Ffordd o Fyw: cynorthwyo pobl sydd â phroblemau iechyd hirdymor i geisio gwella eu hiechyd drwy weithgareddau cymunedol**

Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei dreialu yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr gan bartneriaeth sy'n cynnwys yr awdurdodau lleol, y trydydd sector, cyrff iechyd lleol, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Galw Iechyd Cymru. Mae'n ymwneud â chael hyfforddwr ffordd o fyw mewn meddygfa i fynd drwy raglen syml o bennu targedau gwella iechyd gyda chleifion sy'n cael eu cyfeirio ato gan y meddyg teulu. Mae'r cleifion hyn yn cael eu cefnogi wedyn drwy ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys ymarfer corff a gweithgareddau cymdeithasol, addysgol a therapiwtig lleol yn cael eu darparu gan gyrff cymunedol, annibynnol a chyhoeddus.

Un elfen o'r cynllun peilot oedd casglu manylion gwasanaethau perthnasol a'u mewnbynnu i ran gwasanaethau lleol Galw Iechyd Cymru ar y we. Roedd gan yr hyfforddwyr wybodaeth fanwl am y gwasanaethau a oedd ar gael yn y system gofal sylfaenol, cyfleusterau hamdden yr awdurdodau lleol a'r grwpiau cymorth gwirfoddol a chymunedol lleol.

Yr effaith yw bod y cleifion a fu'n cymryd rhan, yn gyffredinol, wedi gweld gwelliant sylweddol yn eu hiechyd, yn ôl yr atebion a roddwyd i holiadur Euroqol EQ-5D. Dywedodd llawer ohonynt hefyd eu bod yn gwneud mwy o ymarfer corff, yn bwyta'n iachach a bod ganddynt fwy o hyder. Roedd sgiliau'r hyfforddwyr ffordd o fyw a mynediad at gyfleoedd lleol yn elfen allweddol o'u llwyddiant. Casglwyd y cyfleoedd lleol hyn at ei gilydd gan y cyngor gwirfoddol sirol lleol, a oedd â gwybodaeth gefndir a chysylltiadau.

Y gwersi a ddysgwyd yw y gall gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol, sy'n cynnwys integreiddio'r sector gwirfoddol fel rhan o lwybr iechyd y claf, ddarparu cyd-destun ar gyfer arloesi na fyddai'n bosibl fel arall.

Ffynhonnell: A Simpson a M Longley (2009) Delivering Integrated Services Project – Self Care, Prevention and Promotion: An Evaluation of the Lifestyle Coach Pilot, Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol Morgannwg

**Gwasanaethau integredig: Prosiect i ddatblygu consortiwm yng Nghonwy sy'n cysylltu Gofal Canolraddol yn ddi-dor â gwasanaethau cymorth y trydydd sector.**

Roedd y prosiect hwn wedi'i rannu'n ddwy ran wahanol gyda rhan un yn ymwneud â chael cefnogaeth leol a chymorth strategol, cynllunio'r gwasanaeth a sicrhau cyllid. Defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi gwaith rhagarweiniol yn ymwneud â datblygu prosiect yn cael ei arwain gan Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Codi Pontydd Cadarn yng Nghonwy.

Dangosodd gwaith mapio gwasanaethau'r trydydd sector a nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth fod sefydliadau'r trydydd sector yn adnodd heb ei ddefnyddio y gallai Gwasanaeth Gofal Canolraddol Conwy fanteisio arno. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ar y cyd â sefydliadau â diddordeb (gan gynnwys Tîm Gwasanaeth Gofal Canolraddol Conwy a chomisiynwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol). Roedd y rhain yn cynnwys gwaith i nodi bylchau mewn gwasanaethau (gan Dîm Gwasanaeth Gofal Canolraddol Conwy), cyflwyniadau gan sefydliadau'r trydydd sector am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig, cyflwyniad ar y dull consortiwm o ddarparu gwasanaeth â chyfle i ofyn cwestiynau, a chydgynllunio gwasanaeth lleol newydd.

Defnyddiwyd canlyniadau'r gwaith mapio i lunio cyfarwyddiadur ar y we, ac ar bapur, o wasanaethau'r trydydd sector sydd ar gael yn lleol. Darparodd y sesiynau gyda sefydliadau â diddordeb wybodaeth i ddatblygu ail ran y prosiect, cynllun peilot am flwyddyn ar gyfer gwasanaeth yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Gofal Canolraddol yng Nghonwy. Y prif elfennau yw:

- Un pwynt mynediad at wasanaethau yn cael ei ddarparu gan nifer o sefydliadau trydydd sector drwy gydgysylltydd gwasanaeth
- Cyfarwyddiadur ar y we o wasanaethau gwirfoddol a chymunedol

- Gwasanaeth galluogi gwirfoddolwyr
- Gwasanaeth seibiant tymor byr i ofalwyr.

Sefydlwyd Tîm Prosiect er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws sectorau, sefydliadau ac adrannau a darparu cyfrwng i roi ffurf i'r gwasanaeth, gan ddiffinio a mireinio'r ffiniau ac ystyried agweddau ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Un rôl bwysig iawn ar gyfer y tîm yw darparu gwybodaeth ar gyfer y posibilrwydd o brif ffrydio a chyflwyno'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y consortiwm. Dechreuodd ail ran y prosiect ar 5 Hydref 2009 â lansiad y cynllun peilot. Mae Grŵp Gweithredol wedi cael ei sefydlu hefyd i gwblhau'r gwaith a fydd yn cael ei wneud gan gonsortiwm yn cynnwys y canlynol:

- Y Groes Goch Brydeinig, y sefydliad a fydd yn cynnal swydd cyd-gysylltydd y gwasanaeth a'r gwirfoddolwyr
- Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru, y sefydliad sy'n cynnal y gwasanaeth seibiant i ofalwyr
- Partneriaeth Llyfr y Gymuned Conwy
- Gwasanaeth Gofal Canolraddol Conwy.

Bydd effaith bosibl y prosiect yn arwain at "brofi" model o weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, a gellir defnyddio'r hyn a ddysgir mewn mannau eraill er mwyn cyflawni'r dyheadau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau cydweithredol, yn canolbwyntio ar y dinesydd ac yn cael eu hariannu ar y cyd, sydd wedi eu hamlinellu mewn dogfennau strategol yn ddiweddar fel Creu'r Cysylltiadau; Adolygiad Beecham, Cynllun Oes a'r Trydydd Dimensiwn. Bydd y model hefyd yn darparu model o fframwaith ar gyfer caffael gwasanaethau y gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw nifer o asiantaethau ariannu ac unrhyw nifer o sefydliadau gwirfoddol, ac unrhyw gyfuniad o'r ddau.
Ffynhonnell: Papur Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Tachwedd 2009

**Taliadau Uniongyrchol Wrecsam**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ymwneud â chyllidebau unigol/personol fel rhan o'i brosiect Cymorth Hunangyfeiriedig (sy'n cael ei alw'n Gymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion erbyn hyn) er mis Ebrill 2008. Ar hyn o bryd mae tua 100 o bobl ag anableddau dysgu wedi cael budd o'r hyblygrwydd a'r dewis a gynigir gan y prosiect Cymorth Hunangyfeiriedig / Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion. Dylid gadael i'r unigolyn arwain y broses asesu a rhaid i'r unigolyn fod yn ganolog i bob penderfyniad sy'n cael ei wneud ynglŷn â'i gymorth. Rhaid canolbwyntio ar alluogi a hybu annibyniaeth, gan ganolbwyntio ar allu unigolion, yn hytrach na'u hanallu.

Wrth drefnu cymorth mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng rhwydweithiau cymorth naturiol (di-dâl) a chymorth sy'n cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol a/neu asiantaethau eraill. Mae cyfleoedd i gynnal a meithrin rhwydweithiau naturiol yr unigolyn. O fewn y model, mae nifer o opsiynau y gall pobl eu dewis er mwyn creu pecyn cymorth wedi'i deilwra. Rhaid i'r pecyn

hwn ganolbwyntio ar ganlyniadau, a gall gynnwys cyfarpar a gweithgareddau lle bo'n briodol. Mae cyfleoedd hefyd i'r ymarferwyr sy'n ymwneud â'r broses hon weithio mewn cysylltiad agos ag unigolion a theuluoedd i'w cynorthwyo i ddod o hyd i atebion eraill a allai sicrhau'r canlyniadau heb ddibynnu ar wasanaethau cyflogedig.

Mae nifer o opsiynau ar gyfer rheoli'r gyllideb unigol / bersonol, (yn ogystal â Thaliad Uniongyrchol) gan gynnwys taliad anuniongyrchol i aelod o'r teulu neu ymddiriedolaeth. Gall cronfa wasanaeth unigol sy'n cael ei dal gan sefydliad darparu neu gan yr awdurdod lleol reoli'r gyllideb ar ran yr unigolyn. Mae'r unigolyn a'r rhai sy'n bwysig iddo, e.e. aelodau o'r teulu neu eiriolwr yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ysgrifennu ei gynllun cymorth, a all gael ei hwyluso gan bwy bynnag y mae'r unigolyn yn ei enwebu, naill ai o'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion neu o'i rwydwaith cymorth naturiol. Mae llawer iawn o gefnogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd i rannu gwybodaeth ar gael i unigolion fel bod gan bobl bob amser rywun i'w helpu drwy unrhyw ran o'r broses. Mae ymchwil yn Lloegr yn feirniadol iawn o awdurdodau lleol am beidio â darparu digon o gefnogaeth â'r broses a rhoi mwy o faich ar ofalwyr. Mae'r wybodaeth hon wedi galluogi Cyngor Wrecsam i sefydlu trefniadau cefnogi sy'n sicrhau bod Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion ar gael i bawb yn y gwasanaeth anabledd dysgu, beth bynnag ei allu.

Elaine McGuire – Rheolwr Datblygu, 19 Ebrill 2010
Ffynhonnell: Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion

**Cymorth Hunangyfeiriedig: astudiaeth o daliadau uniongyrchol**

Mae diddordeb cynyddol mewn modelau cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion neu gymorth hunangyfeiriedig, lle dyrennir cyllideb bersonol i bobl sydd angen gwasanaethau cymorth gofal sy'n rhoi rheolaeth iddynt dros eu harian, eu cymorth ac, yn y pen draw, eu bywydau. Mae Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion yn ceisio datblygu a hyrwyddo model i Gymru. Mae'n cynnwys awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau, sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau, a sefydliadau sy'n cynrychioli'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae saith awdurdod lleol yn edrych sut y gall cymorth hunangyfeiriedig weithio, ac maent yn gweithio gyda grwpiau amrywiol o gleientiaid.

Mae nifer o gynlluniau taliadau uniongyrchol yn cael eu gweithredu, lle mae pobl anabl yn cael taliadau i brynu a threfnu eu gofal eu hunain, yn aml â chefnogaeth asiantaethau byw'n annibynnol sydd wedi cael eu sefydlu fel mentrau cymdeithasol.

Darparodd dadansoddiad o gost ac adnoddau taliadau uniongyrchol mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru gefnogaeth gref i'r consensws sy'n datblygu mewn deunydd ysgrifenedig nad oes angen i daliadau uniongyrchol, os ydynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol, fod yn fwy costus na gwasanaethau traddodiadol, ac y gallent dros gyfnod fod yn llai costus. O ystyried hefyd y

dystiolaeth gynyddol fod bodlonrwydd, annibyniaeth a rheolaeth defnyddwyr yn cynyddu'n sylweddol, er enghraifft, drwy gynnig mwy o hyblygrwydd ynglŷn â pha bryd mae cymorth yn cael ei ddarparu a chan bwy, mae'r achos o blaid cost a budd taliadau uniongyrchol yn gryf.

Canfu'r dadansoddiad fod tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai'r awdurdodau lleol wneud arbedion cost cyfle sylweddol â gwell polisïau, systemau, hyfforddiant a gweithdrefnau, ynghyd â màs critigol o ddefnyddwyr. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau eraill a oedd yn awgrymu bod trefniadau gweinyddol rhy gymhleth, diffyg màs critigol, diffyg hyfforddiant a phrofiad ymhlith rheolwyr gofal a diffyg gwasanaethau cymorth effeithiol yn llesteirio cyfraddau derbyn, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cynlluniau taliadau uniongyrchol.

Roedd y data'n adlewyrchu cymorth i bobl â nam corfforol yn bennaf, sef prif ddefnyddwyr taliadau uniongyrchol o hyd, er bod defnydd gan bobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu ac, i raddau llai, pobl ag anawsterau iechyd meddwl yn cynyddu.

Yn fyr, â chefnogaeth y Cynllun Byw'n Annibynnol, roedd y cynlluniau taliadau uniongyrchol a astudiwyd yn dangos gwelliant sylweddol o'u cymharu â'r trefniadau traddodiadol o safbwynt cost a'r defnydd o adnoddau. Mae tystiolaeth gref sy'n awgrymu y gellir rhagweld mwy o arbedion cost cyfle os bydd cynlluniau'n cael eu hintegreiddio'n llawnach ag ymarfer a gweithdrefnau a phan fydd sylw'n cael ei roi i faterion penodol yn ymwneud â pholisi a gweithdrefnau fel y nodwyd uchod.

Ffynhonnell: Independence pays: a cost and resource analysis of direct payments in two local authorities (Tim Stainton, School of Social Work, University of British Columbia; Steve Boyce, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ceri J. Phillips, Canolfan Economeg Iechyd ac Astudiaethau Polisi, Prifysgol Cymru, Abertawe, March 2009)

**Gwasanaethau a arweinir gan y gymuned: Grŵp Bywydau Cynaliadwy Abertawe – edrych ar atebion newydd**

Yn Abertawe, mae'r grŵp Bywydau Cynaliadwy, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe a'r Consortiwm Bywydau Cymunedol, wedi dechrau ymchwiliad cydweithredol sy'n gofyn "sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ganfod modelau gofal cymdeithasol i Abertawe sy'n gynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol?" Ar sail ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf mae'n datblygu menter Time Together a fydd yn dechrau yn 2010. Bydd y fenter yn ymwneud â chymorth a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac adeiladu cymunedau mwy ymatebol lle mae pobl yn cefnogi ei gilydd. Mae'r elfennau a ganlyn yn cael eu cynllunio:

- Bydd Time Together yn gweithio mewn partneriaeth â dinasyddion Gorseinon i ddatblygu cymuned gryfach lle mae pobl yn rhoi mwy o gefnogaeth i'w gilydd.

- Bydd y gymuned hon yn galluogi pobl sydd angen gofal cymdeithasol a chymorth i weithio gyda grwpiau cymunedol ac asiantaethau cymorth i adeiladu rhwydweithiau a strwythurau ffurfiol ac anffurfiol sy'n rhoi mwy o rym, ac sy'n fwy cynaliadwy o safbwynt ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Creu cynghrair gydweithredol - Cynghrair Time Together. Bydd y gynghrair yn dod â sefydliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol a chymorth, comisiynwyr, a grwpiau cymunedol at ei gilydd, i gydweithio er mwyn cydgysylltu a datblygu cymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion i bobl sy'n byw yn ardal Gorseinon, a chynyddu'r defnydd cydweithredol o asedau ac adnoddau cymunedol.
- Datblygu Rhwydwaith Time Together mewn partneriaeth â dinasyddion Gorseinon. Bydd aelodau'r rhwydwaith yn gallu cyfrannu tuag at waith y prosiect, gan ddarparu gofal cymdeithasol a chymorth i'w gilydd, a chael eu gwobrwyo â chredydau amser y gallant eu defnyddio i gael mynediad at weithgareddau a digwyddiadau cymunedol ac, yn y pen draw, at gymorth sy'n cael ei ddarparu gan aelodau eraill o'r rhwydwaith.
- Defnyddio gwefan rhwydweithio cymdeithasol Pobl Abertawe i gefnogi cyfathrebu cyfartal ac agored rhwng asiantaethau, dinasyddion a grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn cefnogi gwaith y Gynghrair a'r Rhwydwaith.
- Hybu camau gweithredu a gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu hysbrydoli gan egwyddorion Bywyd Un Blaned.

**Atodiad 6** **Mathau eraill o ymgysylltu cymdeithasol**

**Gwirfoddolwyr**

**Banc Amser gofal cymdeithasol, Japan**

Mae'n debyg bod strwythur poblogaeth Japan yn wynebu argyfwng gan fod y boblogaeth hŷn yn cynyddu mor gyflym. Mae system gofal cymdeithasol y wlad yn cael ei hariannu bron yn gyfan gwbl ag arian cyhoeddus, a gallai'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn arwain at bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus (OECD 2005).

Mewn ymateb i'r her hon cyflwynodd Japan gynllun gofal iechyd yn 1991 - *hureai kippu*. Math o fanc amser yw hwn mewn gwirionedd sydd wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer gofalu am yr henoed. Mae pobl sy'n gwirfoddoli'n ennill credydau. Mae nifer y credydau'n dibynnu ar yr amser a roddir ac ar y math o dasg, ac mae tasgau anos yn cael mwy o gredyd. Mae'r credydau'n cael eu storio, yn union yr un fath â chynilion, ond mai oriau sy'n cael eu cynilo ac nid arian, neu *yen* (Kent 2001).

Mae'r cynllun yn gweithio yr un fath â banc. Golyga hyn fod modd bancio credydau ar gyfer y dyfodol fel math o yswiriant gofal cymdeithasol. Felly, pan fo ar unigolyn angen cymorth gall ef neu hi ddefnyddio'r credydau a enillwyd. Gellir trosglwyddo credydau i bobl eraill hefyd. Mae llawer o bobl yn darparu cymorth i unigolyn hŷn sy'n agos atynt, ac yna'n trosglwyddo'r credydau y maent yn eu hennill i berthynas oedrannus sy'n byw mewn rhan arall o'r wlad. Drwy wneud hyn gallant sicrhau bod perthnasau'n cael cymorth heb orfod symud i fyw yn agos atynt (Alderidge *et al* 2002).

Gwelwyd bod y cynllun yn darparu gofal o safon uchel. Yn ychwanegol at hyn, mae'n well gan y rhan fwyaf o'r bobl hŷn dderbyn cymorth dan y cynllun *hureai kippu* na thalu mewn *yen*, gan eu bod yn datblygu perthynas gyda'u gofalwyr. Mae'n well ganddynt y cynllun hefyd na gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan elusennau, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddibynnol (Liataer 2001).

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y mae Japan wedi ymateb i'r her o ddarparu gofal cymdeithasol drwy ganolbwyntio ar 'berthnasoedd bob dydd'. Yn hytrach na gwasanaethau arloesol sy'n cael eu darparu gan y wladwriaeth, mae Japan wedi ymateb drwy ddulliau arloesol o gyfnewid a thalu. Mae'r rhain wedi cryfhau cysylltiadau cymdeithasol ac wedi annog teuluoedd a chymunedau i chwarae mwy o ran.

**Bancio amser**

**Beth yw bancio amser? –** Offeryn cymdeithasol wedi'i gynllunio i ddatblygu deialog fwy gweithredol rhwng sefydliadau cymunedol a 'phobl mewn cymunedau' yw bancio amser – y bwriad yw newid o sefyllfa lle mae pobl yn 'derbyn gwasanaethau cymunedol yn oddefol' i sefyllfa lle maent yn 'ddinasyddion sy'n gweithredu i newid'.

Mae bancio amser yn ffordd newydd a gwahanol i bobl ddod at ei gilydd i helpu pobl eraill a'u helpu hwy eu hunain yr un pryd. Mae'r cyfranogwyr yn 'talu eu hamser i mewn' i'r banc drwy roi cymorth a chefnogaeth ymarferol i bobl eraill, a gallant 'dynnu eu hamser allan' pan fydd arnynt angen rhywbeth eu hunain.

Mae banciau amser yn mesur ac yn pennu gwerth yr holl wahanol fathau o gymorth a sgiliau y gallwn eu cynnig i'n gilydd, ond maent yn gydraddol iawn. Mewn banc amser, mae *pawb* yn dod yn rhoddwr ac yn dderbyniwr.

Rhoddir yr un gwerth i amser pawb: Un awr = 1 credyd amser

Bydd 'brocer' (gweithiwr cyflogedig yn aml) yn hwyluso ac yn cofnodi cyfnewidiadau rhwng unigolion ac yn datblygu aelodaeth y Banc Amser. Bydd y brocer yn cyfweld pobl pan fyddant yn ymuno â'r banc amser ac yn helpu pobl i ddarganfod beth y gallant ei gyfrannu yn ogystal â pha gymorth y mae arnynt ei eisiau gan bobl eraill.

Mae pobl yn helpu ei gilydd i wneud pob mathau o bethau - gwneud galwadau ffôn, rhannu prydau bwyd a rhoi lifft i'r siopau - unrhyw beth sy'n dod â phobl at ei gilydd.

**Dolenni cyswllt**

**1. Think Local / Act Personal**
http://www.thinklocalactpersonal.org.uk/BCC/hottopics/Timebanking1/TimebankingUK/?parent=6636&child=6712

- **Cliciwch yma am enghraifft o'r archwiliad sgiliau a ddefnyddir gan fanciau amser pan fyddant yn recriwtio aelodau newydd (yn agor mewn ffenestr newydd)**
- **Cliciwch yma i weld ein hastudiaethau achos Bancio Amser**
- **Cliciwch yma i weld fideo o fodel bancio amser proffesiynol Leeds Creative Timebank.** (yn agor mewn ffenestr newydd)

- Banciau amser a gwella iechyd
Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn egluro'n fyr sut y gellir addasu banciau amser yn llwyddiannus yn y sector iechyd, er mwyn cadw pobl yn iach, cyflymu adferiad ac arbed adnoddau prin y GIG.
- Yr achos busnes dros fanciau amser
Mae'r adroddiadau hyn yn cyflwyno banciau amser i lunwyr polisïau, rheolwyr, ymarferwyr a chomisiynwyr. Maent yn dangos sut y gall bancio amser fod yn ffordd o helpu sefydliadau i gyflawni gwahanol agendâu a blaenoriaethau...
- Bancio amser mewn gwahanol rannau o'r DU

**2. Bancio Amser – Cymru**

http://www.timebankingwales.org/

Mae banciau amser Cymru ychydig yn wahanol i'r model bancio amser traddodiadol gan eu bod yn cael eu 'cynnal' gan asiantaethau cyhoeddus a chymunedol. Gwahoddir aelodau o'r gymuned i ymgysylltu a dod yn berchnogion gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach na bod yn dderbynwyr goddefol. Mae'r asiantaeth 'gynnal' yn gweithredu fel y banc canolog ac yn cydnabod aelodau sydd wedi rhoi amser â chredydau. Gellir defnyddio'r credydau hyn wedyn i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol, ar sail oriau *quid pro quo*.

Mae'r broses gydgynhyrchiol hon o gyfnewid syniadau yn newid diwylliant y gymuned drwy ailddefnyddio talentau pobl yng nghyd-destun democratiaeth gyfranogol, hybu gweithgaredd cydfuddiannol, annog adnewyddu sifil ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol cadarnhaol.

***Cefndir Timebanking Wales***

Yn 2003 daeth Prifysgol Casnewydd, Time Banks UK a Phlant y Cymoedd at ei gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Sefydliad Arian Cymunedol Cymru (WICC) a datblygu'r syniad newydd o fancio amser. Daeth y Sefydliad hwn mor llwyddiannus, nes iddo esblygu 5 mlynedd yn ddiweddarach yn ddau sefydliad newydd er mwyn ehangu'r gwaith hwn. Mae Timebanking Wales bellach yn gweithio ledled Cymru, gan ddarparu rhaglenni bancio amser ar raddfa lawer mwy i'r trydydd sector, ac mae ei chwaer sefydliad, Spice, yn gwneud yr un peth yng nghyswllt ymgysylltu pobl â gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU. http://justaddspice.org/

**3. Timebanking UK**

http://www.timebanking.org/about/timebanking-resources/research/older-people/

**4. Cydgynhyrchu / gofal cymdeithasol**

http://www.scie.org.uk/publications/briefings/briefing31/

**5. Effaith banciau amser yn y DU**

https://docs.google.com/viewer?a=v&q=cache:TQnU_dpscegJ:www.rbwm.gov.uk/public/consultation_carebank_time_banks_impact_document.pdf+timebanking+-+social+care&hl=en&gl=uk&pid=bl&srcid=ADGEESjXy0MHr5jMM4y5eIwcedcLpBibOD30hy-rkjBmXIFJXdyAT82SAVPOr4sXpBxNZdQo_OsHjHgWN4SNsPbV75Bxn4sByKi5R891b2Y7k5GLhFdRaVLBc0TYCzMT5qKxWSu5M2a7&sig=AHIEtbQG4I4uk0CVCcUCZSC15igd5jOUGw

**6. Model yng Ngogledd Swydd Hertford**

http://www.slivers.com/services/donating-time/timebanking/

**7. SPICE**

http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=timebanking%20-%20social%20care&source=web&cd=175&ved=0CDoQFjAEOKoB&url=http%3A%2F%2Fwww.cynnalcymru.com%2Fsites%2Fdefault%2Ffiles%2FBen%2520Dineen%2520March%25202011.pdf&ei=vi5eT_2fGIma8gPH1MXyDg&usg=AFQjCNEwDc9of0rry1f3L3RjcVaDHGjqTg

**8. Timebanking UK**

http://www.timebanking.org/

**9. Timebanking – Scotland**

http://www.vds.org.uk/Home/tabid/288/Default.aspx

**Atodiad 7 Astudiaethau Achos o Loegr**

**South Leeds Live at Home Scheme (SLLAHS)**

Mae SLLAHS yn cynnig swyddogaeth gymdeithasol a chefnogol i gynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'n gweithredu dan ambarél y Methodist Homes Association (MHA), ac yn cael cyllid gan y gymdeithas honno, drwy grantiau bach eraill a thrwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd i roi'r gorau i ddarparu gofal cartref lefel isel, a bwriadai gynyddu'r credyd pensiwn a lwfansau gweini er mwyn i bobl hŷn allu prynu eu gwasanaethau eu hunain. Penderfynodd staff SLLAHS y byddent yn gwneud cais am £4,000 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydlu cangen fasnachu er mwyn trefnu darpariaeth gofal cartref gan ddefnyddio'r staff presennol.

Yn anffodus, ni chafodd y gangen fasnachu newydd ei chymeradwyo gan MHA, felly sefydlwyd Cwmni Buddiannau Cymunedol Angels Housekeeping Ltd i ymgymryd â gweithgareddau gweinyddu, y rhestr gyflog, sicrhau ansawdd, rheoli, marchnata a datblygu busnes i Dust Angels - partneriaeth rhwng dau weithiwr sy'n darparu gwasanaethau glanhau. Y ddau weithiwr hyn a rheolwr SLLAHS yw cyfarwyddwyr Angels Housekeeping. Mae'r rolau'n annibynnol ar SLLAHS.

Mae SLLAHS yn dal i fodoli, ac mae Memorandwm ac Erthyglau Angels yn nodi y bydd unrhyw weddill a gynhyrchir yn mynd i SLLAHS. Ymhen amser bwriada Angels ehangu'r buddiolwyr i gynnwys grwpiau eraill sy'n cefnogi'r henoed yn Leeds. Mae'r model prisio fel a ganlyn: mae defnyddwyr yn talu £9 yr awr; telir £6 o'r swm hwn a threuliau i weithwyr ac mae'r gweddill yn cefnogi gwasanaethau Angels.

Roedd grantiau'n cael eu cynnig i alluogi sefydliadau darparu gwasanaeth gofal cartref i ddod yn Fentrau Cymdeithasol. Penderfynodd staff SLLAHS wneud cais am £4,000 i sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol (Angels Housekeeping) i gyflawni contractau gyda staff hunangyflogedig i ddarparu gwasanaethau ac i ddarparu gwaith gweinyddol a swyddogaethau eraill er mwyn datblygu'r busnes. (Gwrthododd cyllidwr SLLAHS ar y pryd gymeradwyo sefydlu cangen fasnachu, a dyna pam y ffurfiwyd cwmni newydd.)

Mae unrhyw weddill a gynhyrchir yn mynd yn ôl i SLLAHS er budd yr henoed yn Ne Leeds. Mae Angels Housekeeping wedi ymrwymo i wneud gwasanaethau'n fforddiadwy, gan dalu cyflog teg i staff a sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu. Er bod tipyn o ffordd i fynd, nid yw'r cwmni'n rhagweld y bydd mwy na 50% o'i incwm yn dod o farchnadoedd masnachol, er mwyn dal i ganolbwyntio ar ei genhadaeth.

Defnyddiwyd y grant o £4,000 i dalu costau sefydlu, ac mae grant gan WYSE Link wedi ariannu cyflogau'r cyfarwyddwyr yn rhannol. Mae'r cyfraddau fesul

awr wedi'u strwythuro fel bod ychydig o elw'n cael ei wneud wrth ddarparu gwasanaeth ar ôl talu cyflogau a chostau gweinyddol. Ceisir cael rhagor o grantiau i alluogi cyfarwyddwyr i ddatblygu'r busnes drwy edrych ar fwy o weithgareddau masnachol a allai sybsideiddio gwasanaethau i'r henoed yn y pen draw a chynyddu'r cyfraniad i SLLAHS. Mae'r cynllun busnes yn adlewyrchu'r nod o weithredu heb fod yn ddibynnol ar grantiau.

Â chymorth gan Social Business Consulting, ysgrifennodd y cyfarwyddwyr gynllun busnes i gael grant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a WYSE Link. Roedd yr adnoddau a'r cymorth ychwanegol a oedd ar gael ar adeg sefydlu'r cwmni'n cynnwys y canlynol:

- **Ariannol:** Mae'r costau sefydlu wedi bod yn isel diolch i gymorth o ffynonellau amrywiol. Defnyddir ystafell fechan mewn eglwys leol fel swyddfa, a thelir rhent o £1,000 y flwyddyn.
- **Personél (staff, gwirfoddolwyr, bwrdd / ymddiriedolwyr):** Ni thalwyd am amser y staff yn ysgrifennu'r cynllun busnes. Mae'r ddau aelod cyflogedig o staff yn Angels Housekeeping wedi cael eu talu ag arian grantiau hyd yn hyn. Mae'r cyfarwyddwr arall yn rhoi ei amser yn wirfoddol.
- **TG:** Cafwyd cyfrifiadur yn rhodd a gwariwyd £250 ar raglen meddalwedd ar gyfer cyflogau.
- **Asedau:** Nid yw'r cwmni wedi prynu asedau, ond mae'n bosibl y bydd angen safle mwy ymhen amser.
- **Arall:** Mae £300 o grant o £500 a gafwyd gan ARISE wedi cael ei wario ar ddeunydd cyhoeddusrwydd, a rhoddwyd hysbyseb am ddim yng nghylchgrawn y plwyf. Nid oes gan y sefydliad unrhyw ofynion adrodd.

**SEQOL**

Mae SEQOL, un o Sefydliadau Cydfuddiannol Pathfinder, yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i boblogaeth Swindon. Mae'r sefydliad, sy'n cyflogi dros 700 o weithwyr, wedi cael contract pedair blynedd a hanner gan y Cyngor ac NHS Swindon i ddarparu ystod o wasanaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau gofal brys, gwasanaethau gofal canolraddol (ailsefydlu ac ailalluogi), nyrsio cymunedol, gwaith cymdeithasol, a chyflogaeth â chymorth.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae Swindon wedi arloesi drwy integreiddio Iechyd Oedolion a Gofal Cymdeithasol, â Thimau Cymunedol ar y Cyd, cyllid ar y cyd a chyfarwyddwyr wedi eu penodi ar y cyd.

Yn dilyn menter genedlaethol gan y llywodraeth i wahanu rolau comisiynu a darparu'r GIG lleol, roedd Cynghorwyr, meddygon teulu, ac ymarferwyr rheng flaen yn fwy na neb, yn awyddus iawn i gadw'r dull integredig y treuliodd Swindon flynyddoedd lawer yn ei fireinio. Roedd angen model gweithredu newydd, mwy darbodus, â mwy o gysylltiad â'r cymunedau yr oedd yn eu gwasanaethu.

O ganlyniad, lansiwyd SEQOL, a oedd yn seiliedig ar ganghennau darparu NHS Swindon a Chyngor Bwrdeistref Swindon, ar 30 Medi 2011.

Cwmni Buddiannau Cymunedol cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yw SEQOL. Anogir gweithwyr i gymryd llawer mwy o gyfrifoldeb am lwyddiant y sefydliad. Er enghraifft, sefydlwyd Cynulliad Cydweithwyr *(Colleague Assembly)*. Mae hyn yn galluogi'r gweithwyr hynny sydd wedi manteisio ar eu hawl i brynu cyfranddaliad i drafod a gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion strategol allweddol i'r sefydliad, gan ysgogi gwelliant o'r rheng flaen. Etholir cynrychiolwyr cydweithwyr ac mae'r Cyd-gadeiryddion yn aelodau o'r Bwrdd.
*“Rwy'n teimlo'n gyffrous ac yn gadarnhaol iawn ynglŷn â chael y cyfle hwn i weithio mewn ffordd wahanol. Yn SEQOL, bydd cydweithwyr a minnau'n ymwneud mwy fyth â llywio dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol lleol, gan weithio gyda'r cymunedau y byddwn yn eu cefnogi.”*

- Jeanette Grant, Rheolwr Gweithredol a Chyd-gadeirydd Cynghrair Cydweithwyr SEQOL

Yn ychwanegol at hyn, yn ystod y cyfnod o baratoi i fod yn sefydliad cydfuddiannol, bu SEQOL yn ymgysylltu â'r gweithwyr drwy raglen ddatblygu sefydliadol er mwyn sicrhau, ochr yn ochr â'r newid yn ffurf y sefydliad, bod pwysigrwydd diwylliant sefydliadol a newid ymddygiad yn cael ei gydnabod. Roedd y broses ymgysylltu'n cynnwys gweithdai, cyfarfodydd mentora a sesiynau yn ymdrin â'r gallu i reoli newid, yn ogystal â chynnwys cydweithwyr yn llawn yn y broses o ddiffinio gwerthoedd a gweledigaeth y cwmni ac ymddygiadau sefydliadol newydd.

Mae model gweithredu SEQOL hefyd yn seiliedig ar ‘strwythur gwastad’ heb lawer o lefelau rheolaeth, gan gadw'r pŵer a'r penderfyniadau cyn agosed ag sy'n bosibl at y rheng flaen. Mae SEQOL wedi gweld cynnydd mewn cynhyrchiant a lleihad mewn costau unedau ar draws y rhan fwyaf o'r llinellau gwasanaeth. Gwnaethpwyd hyn drwy newid mewn diwylliant, lle mae cydweithwyr yn deall eu busnes a'r angen i feddwl mewn ffordd wahanol er mwyn cyflenwi gwasanaethau o safon uchel o fewn cyfyngiadau ariannol tynn. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o gost, er enghraifft, rhoi posteri mewn cypyrddau stoc yn nodi cost cyfarpar unigol er mwyn cefnogi newid ymddygiad a lleihau gwastraff.

**Gwasanaethau Cymunedol Canol Essex**

Mae Gwasanaethau Cymunedol Canol Essex *(Central Essex Community Services - CECS)*, a lansiwyd ym mis Ebrill 2011, yn ddarparwr gwasanaethau iechyd cymunedol sy'n cyflogi tua 1,100 o staff.

*Nid yw sefydlu sefydliad sy'n eiddo i'r staff yn dasg hawdd o bell ffordd, ond efallai ei fod yn rhoi mwy o foddhad i chi na llawer iawn o dasgau eraill. Gwybod mai'r nod yn y pen draw oedd grymuso staff yn hytrach na'u difreinio oedd yn ein gyrru ni yn ein blaenau.*

- John Niland, Prif Weithredwr Gwasanaethau Cymunedol Canol Essex

Sefydlwyd CECS fel rhan o fenter y Llywodraeth i wahanu rolau comisiynu a darparu'r GIG lleol. Roedd CECS wedi bod yn gweithio tuag at y nod o wahanu'r rolau ers blynyddoedd. O ganlyniad, ym mis Ebrill 2011, lansiwyd CECS. Mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol cyfyngedig drwy gyfranddaliadau sy'n gweithredu'n annibynnol o GIG Canol Essex. Mae CECS yn eiddo i'w staff, ac mae gan y staff hawl i un cyfranddaliad o £1.

Â chyllideb o tua £47 miliwn, mae'n darparu pob un o'r gwasanaethau iechyd cymunedol yr oedd yn eu darparu cyn gwahanu, gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, gwasanaethau cyflyrau hirdymor ac ailsefydlu yn dilyn gwaeledd neu anaf.

Mae 70% o staff CECS yn dal rolau clinigol ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cael cyfle i weithio o bell, gan ddefnyddio cyfrifiaduron llechen i gofnodi data a gwybodaeth am gleifion. Roedd yn un o'r sefydliadau iechyd cymunedol cyntaf yn y wlad i wneud hyn.

Mae dod yn sefydliad cydfuddiannol wedi lleihau cyfraddau salwch staff yn sylweddol. Mae'r rhain wedi gostwng o 4.9% i 3.4%, lleihad o dros 2 ddiwrnod y pen y flwyddyn ers iddynt ddeillio o'r GIG ym mis Ebrill 2011. Mae'r cyfraddau'n dal i ostwng. Yn ychwanegol at hyn, dangosodd arolwg staff a gynhaliwyd yn Hydref/Tachwedd 2011 fod 90% o'r staff yn edrych ymlaen i fynd i'r gwaith, o'i gymharu ag 86% yn 2010.

Ar ben hynny, mae CECS erbyn hyn yn gallu bod yn llawer mwy ymatebol wrth wneud cais am fusnes newydd ac mae wedi llwyddo i ennill tendrau. Mae staff gweithredol yn ymwneud yn llawn â cheisiadau – mae'r lefel hon o ymgysylltu'n adlewyrchu diddordeb gwirioneddol y staff yn llwyddiant eu sefydliad.

Enillodd CECS gontractau i ddarparu gwasanaethau cymunedol yn ne Essex, Waltham Forest, Redbridge, Caergrawnt a Peterborough. Mae hefyd yn awyddus i gynnig model Gofal Integredig, ac ar hyn o bryd mae'n cynnal trafodaethau cychwynnol gyda Gofal Cymdeithasol a sefydliad Anabledd sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr ynglŷn â'r model gorau i wneud hyn.

Yn ychwanegol at hyn, mae CECS yn gobeithio defnyddio technoleg i ymestyn ei wasanaethau teleofal a theleiechyd, gan helpu i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain ac osgoi derbyniadau diangen i ysbytai.

**Walsall Home Care Co-operative**

Roedd Solihull yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf i wahodd tendrau i ddarparu ei wasanaethau gofal. I ddechrau, dyfarnwyd tua 30 o gontractau, y rhan fwyaf i grwpiau gwirfoddol a chymunedol bach. Ni allai'r mentrau cymunedol hyn gynnal gwasanaethau, ac yn y diwedd cymerodd cwmnïau sector preifat y gwaith drosodd ar sail pris isel a nifer uchel. Er hyn, mae mentrau cymdeithasol yn dal i weithredu mewn marchnadoedd penodol megis

gwasanaethau i blant anabl, gofal seibiant, a gwasanaethau i rai sydd ag anghenion arbennig.

Un o'r arloeswyr oedd Cwmni Cydweithredol Gofal Cartref Walsall *(Walsall Home Care Co-operative)*, a sefydlwyd yn 1989 gan swyddog gofal awdurdod lleol a ddechreuodd wasanaeth ymweld ar gyfer pobl hŷn. Dechreuodd y prosiect fel arbrawf â 12 o ofalwyr lleol a thyfodd yn gyflym i 28. Er mwyn rheoli'r busnes a chydgysylltu'r gwaith, sefydlwyd menter gydweithredol â chymorth gan Asiantaeth Datblygu Cwmnïau Cydweithredol ardal y Black Country a grant bach. Creodd Cwmni Cydweithredol Gofal Cartref Walsall dros 250 o swyddi mewn tair blynedd.

Mae model Walsall wedi cael ei atgynhyrchu mewn ardaloedd eraill. Yn Telford, mae Cwmni Cydweithredol Gofal Cartref Wrekin *(Wrekin Home Care Co-operative)* wedi creu tua 80 o swyddi.

**Cwmni Buddiannau Cymunedol City Health Care Partnership, Hull**

Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol City Health Care Partnership (CHCP) yn fenter gymdeithasol annibynnol, y rhennir ei pherchnogaeth, ac sy'n darparu gwasanaethau GIG i dros 500,000 o bobl yn Hull ac East Riding of Yorkshire.

Mae'n cynnig triniaethau cymunedol amrywiol, yn ogystal ag ymyriadau cynnar sy'n helpu i leihau'r angen am ofal acíwt mewn ysbytai, ac yn hybu ffyrdd iach o fyw. Os yw claf wedi cael ei dderbyn i ysbyty, mae cymorth ar gael i'w alluogi i ddychwelyd i'w gartref cyn gynted ag y bo modd, â'r cymorth meddygol y mae arno'i angen.

Fel menter gymdeithasol a Chwmni Buddiannau Cymunedol, gall CHCP ddarparu gwasanaethau o ansawdd arbennig mewn ffyrdd sy'n hyblyg, yn ymatebol ac yn cynnig gwerth da am yr arian. Er dod yn Gwmni Buddiannau Cymunedol mae'r tîm wedi gallu cyflwyno gwasanaethau newydd ac arferion arloesol.

Un o'r llwyddiannau allweddol hyn yw creu clinig gofal lliniarol arbenigol sy'n cynnig rhaglen gyfannol o ofal i gleifion â salwch sy'n byrhau bywyd. Nodwedd unigryw'r gwasanaeth yw bod y tîm clinigol yn gallu ymweld â chleifion yn eu cartref yn hytrach na disgwyl i'r claf ddod atynt hwy. Mae ymgynghorydd, fferyllwyr, metronau cymunedol o amrywiaeth o feysydd gwasanaeth a nyrsys Macmillan i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i reoli symptomau cymhleth. Mae hefyd yn lleihau'r angen i dderbyn cleifion i'r ysbyty, yn helpu i gyfrannu tuag at dargedau QIPP ysbytai lleol, ac yn bennaf oll, yn caniatáu i ragor o gleifion farw yn eu cartrefi, os ydynt yn dymuno hynny.

Mae'r adborth gan gleifion a chlinigwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn, felly rhyddhawyd cyllid i ymestyn y gwasanaeth i ardal orllewinol y ddinas.

Dywedodd un gofalwr: "*Roedden ni'n methu â deall pam ein bod wedi cael ein cyfeirio, ar ôl bod dan ofal yr ysbyty ar gyfer y canser. Ond mae'r clinig yma mor wahanol. Mae'n canolbwyntio ar sut y mae'r salwch yn effeithio arnoch chi, a beth y gellir ei wneud i'ch cefnogi chi drwyddo*."

Mae datblygiadau arloesol eraill yn cynnwys datblygu 'teleiechyd' ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau hirdymor, treialu Cyllidebau Iechyd Personol a datblygu Gwasanaeth Rheoli Meddyginiaethau.

Fel sefydliad sy'n eiddo i'r gweithwyr, sy'n caniatáu i'r holl staff parhaol brynu cyfranaddaliad o £1 yn y sefydliad, mae staff yn cael ymdeimlad o berthyn, atebolrwydd a'r hawl i gael llais yn y modd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg ynghyd â chynlluniau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

"Mae angen i chi fod yn frwdfrydig … bod y gwasanaeth yn newid er gwell," eglurodd Heidi Sykes, Nyrs Ysgol/Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus Arbenigol.

Mae staff o bob rhan o'r sefydliad hefyd wedi ymwneud â datblygu arbedion effeithlonrwydd, a rhyddhau mwy o'u hamser i ganolbwyntio ar y gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r dull gweithredu 'o'r gwaelod i fyny' yn cydnabod mai staff sy'n gwneud gwaith penodol sydd yn y sefyllfa orau i allu nodi lle mae prosesau gwastraffus i'w cael, ac mae'n eu galluogi i wneud pethau'n wahanol, gan ddarparu mwy o werth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

"Rydw i wedi bod yn dweud o hyd bod staff hapus sy'n cael eu cynnwys mewn penderfyniadau yn helpu i ddarparu gwasanaethau gwell, sy'n ddiogel ac yn seiliedig ar ansawdd. Mae CHCP wedi chwarae rhan flaenllaw yn y newidiadau i'r ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu, ac rydym yn edrych ymlaen i weithio gyda'n staff, cleifion a phartneriaid yn ystod y misoedd nesaf, er mwyn diwallu anghenion y ddarpariaeth gofal iechyd, sy'n newid o hyd, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu," meddai Andrew Burnell, Prif Weithredwr Cwmni Buddiannau Cymunedol CHCP.

Fel Cwmni Buddiannau Cymunedol, mae CHCP wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at les ehangach y gymuned leol. Er enghraifft, drwy gyflwyno cynllun grantiau bach, mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol yn gwneud cais am hyd at £1,000 i gefnogi gweithgareddau sy'n hybu iechyd a lles. Hyd yn hyn, mae 51 o wahanol sefydliadau wedi cael budd o'r cyllid hwn, gyda'r prosiectau'n amrywio o erddi cymunedol i gymorth profedigaeth i blant a phobl ifanc.

**Cwmni Buddiannau Cymunedol Your Healthcare, Kingston**

Mae menter gymdeithasol Your Healthcare (YHC) yn darparu 23 o wasanaethau gofal iechyd cymunedol i'r gymuned leol yn Kingston. Mae'r

gwasanaethau'n cynnwys nyrsys ardal, nyrsys ysgol, gofal diabetes a ffisiotherapi.

Â llai o fiwrocratiaeth, gall mentrau sy'n cael eu harwain gan staff wneud penderfyniadau cyflymach mewn ymateb i anghenion cleifion. Mae hyn yn sicr wedi digwydd yn achos YHC. “Yn ystod misoedd cyntaf Your Healthcare, fe wnaethom ni weithredu model arloesol tri phartner, gyda meddygon teulu ac Age Concern, i gynnig darpariaeth gofal sylfaenol integredig o un o'n safleoedd – nid oedd angen achos busnes crand. Ychydig wythnosau gymerodd y broses a dim ond £8,000 oedd y gost sefydlu. Erbyn hyn mae un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn elwa o ddwy syrjeri lawn, bum niwrnod yr wythnos â gofal yn cael ei ddarparu ar garreg y drws”, eglura Siobhan Clarke, y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Er bod YHC yn dal i ddarparu gofal dan gontractau'r GIG, fel menter gymdeithasol gall fanteisio ar bartneriaethau newydd hefyd. Yn ddiweddar, gofynnwyd iddo fod yn bartner allweddol mewn canolfan gofal dydd a gofal preswyl newydd gydag Age Concern. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl dan gyfyngiadau'r GIG.

O ganlyniad i ddod yn Gwmni Buddiannau Cymunedol, mae YHC hefyd wedi ymestyn ei wasanaeth Ymateb Cyflym, gan leihau nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i ysbytai. Mae'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i aros yn eu cartrefi yn ystod cyfnod o salwch acíwt, gan dderbyn triniaeth glinigol yn eu cartrefi. Cysylltir â chleientiaid o fewn dwy awr ar ôl i YHC dderbyn y manylion atgyfeirio.

“Gallwn blygu fel y mynnwn ac mae gennym ryddid i weithredu ar sail anghenion lleol heb orfod mynd drwy brosesau biwrocratig cymhleth – ond gallwn sicrhau'r cyhoedd a defnyddwyr ein gwasanaethau y bydd unrhyw weddill ariannol y byddwn yn ei gynhyrchu'n mynd yn ôl i'r man lle mae ei angen fwyaf – y gwasanaethau rheng flaen,” meddai Siobhan.

**Carbi care**

Mae Carib Care yn fudiad gwirfoddol annibynnol, wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant. Daw'r aelodau a'r pwyllgor rheoli o'r gymuned leol. Mae llawer o bobl sy'n derbyn gwasanaethau hefyd yn aelodau, ac yn cymryd rhan yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol sy'n ethol y pwyllgor rheoli.

Tyfodd y gwasanaeth o archwiliad beirniadol o'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol, a gyfeiriodd at y ffaith nad oedd darpariaeth briodol ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol. Cysylltwyd ag eglwysi lleol i geisio mynd at y cymunedau hyn. Anogwyd datblygiadau a dechreuwyd prosiect gofal cartref drwy garedigrwydd Cyngor Eglwysi Affro-Caribïaidd Huddersfield, ond roedd hi'n anodd gwneud cynnydd gan nad oedd digon o bobl ar gael a oedd yn meddu ar y profiad a'r sgiliau i ysgrifennu cynlluniau busnes, cyd-drafod ac

ati. Roedd angen nodi'r prif gyfranwyr, dwyn perswâd, gwneud ymchwil a chyflwyno tystiolaeth ddemograffig real.

Erbyn hyn mae Carib Care yn darparu 500 awr o ofal cartref yr wythnos. Mae'n darparu gofal personol ac ymarferol, ac yn rhedeg cynllun cyfeillio. Mae ar fin agor canolfan gofal dydd ac mae ganddo gontract gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Kirklees i ddarparu 40 o leoedd yr wythnos. Mae'r ganolfan yn bwriadu darparu gweithgareddau a bwydydd ‘traddodiadol’ ond yng nghyd-destun y diwydiant Affro-Caribïaidd. Bydd yn cysylltu â chyfleusterau hyfforddiant cyfrifiadurol sy'n defnyddio'r rhyngrwyd a'r Fenter Byw'n Iach leol.

Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i ddatblygu tai â gofal drwy gymdeithas dai. Bwriedir darparu ar gyfer preswylwyr ag anghenion gofal amrywiol a lleoli tîm gofal yno.

**Canolfan Ddydd Blakelock**

Cwmni cydweithredol gweithwyr yn Hartlepool yw Canolfan Ddydd Blakelock. Mae'n darparu gofal dydd i henoed bregus ar ddau safle yn y dref. Sefydlwyd y cwmni cydweithredol pan benderfynodd yr awdurdod lleol, Cyngor Sir Cleveland ar y pryd, roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau gofal dydd eu hunain, a gwahodd tendrau cystadleuol amdanynt. Cyflwynodd Asiantaeth Datblygu Mentrau Cydweithredol Cleveland gais, ac ennill y tendr. Aeth ati wedyn i recriwtio aelodau i ymgymryd â'r contract fel cwmni cydweithredol.

Mae'n llawer mwy darbodus na'r cyfleusterau gwreiddiol, ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd gwell am lai o gost. Mae mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth na phan oedd yn eiddo i'r cyngor. Pan gymerodd y cwmni cydweithredol y gwasanaeth drosodd, bu'n rhaid iddo weithio'n galed i gael cefnogaeth rhai o'r staff ar y bwrdd. Roedd y staff a'r defnyddwyr, yn enwedig y bobl hŷn, yn erbyn newid. Un newid mawr a welwyd yw'r rhyddid i recriwtio staff yn fwy hyblyg. Erbyn hyn mae'r cwmni cydweithredol yn cyflogi 12 o bobl, ond mae hefyd yn annog rhai defnyddwyr i weithio fel gwirfoddolwyr. Mae 230 o ddefnyddwyr cofrestredig yn Blakelock ac 80 yn Abdiel. Mae'r ddau safle'n darparu ar gyfer henoed bregus.

Mae adran y gwasanaethau cymdeithasol yn asesu darpar gleientiaid ac yna'n eu cyfeirio. Mae Blakelock hefyd yn darparu cyfleusterau cymdeithasol i bobl sy'n fwy abl. Nid yw'r bobl sy'n defnyddio'r canolfannau'n ymwneud â'r busnes. Mae'r staff yn annog defnyddwyr i awgrymu gweithgareddau neu raglenni, ond mae eu hymdrechion i gynnal grŵp defnyddwyr wedi methu.

Mae trosiant blynyddol y cwmni cydweithredol yn £200,000. Mae tua 75% o'r swm hwn yn dod o gontract gydag adran y gwasanaethau cymdeithasol. Mae defnyddwyr yn talu swm bach bob diwrnod am goffi ganol bore, cinio dau gwrs a the a bisgedi yn y prynhawn. Mae'r fenter yn gwneud elw bychan bob blwyddyn.

**Eldonia House**

Cartref gofal preswyl yw Eldonia House ac mae'n eiddo i Ymddiriedolaeth Ddatblygu Eldonia. Tyfodd yr ymddiriedolaeth ei hun o sefydliad cydweithredol Portland Gardens Housing Co-operative. Tyfodd y sefydliad mewn ymateb i alw lleol am ailddatblygu safle a arferai fod yn rhan o burfa Tate and Lyle yn Lerpwl. Darparwyd tai yn Eldonian Village. Tua 11 o flynyddoedd yn ôl, agorodd y gymuned y cartref preswyl wedi'i adeiladu'n bwrpasol mewn ymateb i anghenion preswylwyr hŷn.

Mae hyn yn golygu bod pobl yn gallu aros yn eu cymuned eu hunain wrth i'w hanghenion newid. Mae hyn yn rhyddhau tai i bobl iau. Mae'r cartref yn rhan o gymuned glos; mae'r preswylwyr wedi byw'n lleol iawn, ac mae eu ffrindiau a'u perthnasau'n dal i alw heibio'n ddyddiol fel pe baent gartref.

Mae rheolwyr y cartref gofal yn adrodd i bwyllgor rheoli Eldonian Village. Mae gan y cartref 30 o breswylwyr, ac mae 90% ohonynt yn dod o Eldonian Village neu'r ardal gyfagos. Mae llawer wedi'u geni yn yr ardal. Mae gan bob un ystafell sengl *en suite*. Mae gan y cartref gyfradd ddefnyddio o 100% fel arfer. Mae tua 30 o staff.

Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn ariannu'r holl breswylwyr, ac mae'r cartref yn gwneud elw sy'n cael ei ailfuddsoddi mewn cyfarpar ac eitemau dodrefnu. Mae'r berthynas agos rhwng y cartref a'r ymddiriedolaeth ddatblygu'n hanfodol i'w llwyddiant. Mae hyn yn gwella ei henw da, ac yn galluogi anghenion preswyl y gymuned gyfan i gael eu diwallu gan yr un sefydliad. Mae'r trosiant staff yn isel ac mae'r cyflog yn rhesymol o'i gymharu â gweddill y sector.

**West Midlands Co-operative**

Cymdeithas gydweithredol manwerthu yw'r West Midlands Co-operative, ac mae'n eiddo i'w chwsmeriaid. Mae ganddi dri chartref gofal, The Willows yn Codsall, a Castle Meadows a Nether Crest yn Dudley. Mae 140 o leoedd yn y tri chyfleuster, ac mae gan Nether Crest adain nyrsio â 40 o leoedd. Prynwyd pob un gan y sector preifat. Mae'r cartrefi wedi eu sefydlu fel adran fasnachu o'r gymdeithas gydweithredol. Gall unrhyw un o gwsmeriaid y gymdeithas fod yn aelod, ac mae hyn yn cynnwys staff, preswylwyr a pherthnasau cleientiaid yn y cartrefi gofal.

Mae'r aelodau'n ethol aelodau'r bwrdd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol; daw wyth o'r gymuned ac mae pedwar yn gynrychiolwyr staff. Dirprwy Brif Weithredwr y Gymdeithas yw Pennaeth yr Adran Gofal, ac mae'r rheolaeth weithredol yn nwylo Pennaeth Cartrefi Gofal. Dechreuodd y gymdeithas ymwneud â gofal yn wreiddiol pan gododd y cyfle i brynu cartref a oedd hefyd yn atal cystadleuydd manwerthu rhag datblygu safle. Anogodd hyn y gymdeithas i ddatblygu'r busnes gofal, ac erbyn hyn mae'n cael ei weld fel rhan sylweddol o'r holl bortffolio gwasanaeth i'w haelodau.

Daw'r rhan fwyaf o'r incwm o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a daw llai na 5% ohono oddi wrth breswylwyr. Ar hyn o bryd, mae'r trosiant o gwmpas £2.25m. Fel grŵp, mae'r cartrefi'n gwneud elw wrth fasnachu, ond mae eu perfformiad unigol yn gymysg. Mae'r rhai gorau'n gwneud cyfradd elw uchel ar gyfalaf a fuddsoddwyd, tra mae ar y cartrefi a brynwyd yn fwy diweddar angen gwelliannau a gwaith atgyweirio i fodloni safonau ansawdd ac achredu. Ar hyn o bryd mae tanddefnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu yn lleihau elw. Mae'r elw i gyd yn mynd tuag at ddatblygu'r cartrefi presennol, ond yn y dyfodol, bydd ehangu'r rhwydwaith cartrefi gofal yn flaenoriaeth.

Roedd gan rai o'r cartrefi enw gwael, defnydd isel ac anawsterau staffio pan gawsant eu prynu. Mae'r gymdeithas wedi gweithio'n galed i ddatrys y materion hyn, gwella telerau ac amodau, cyflwyno hyfforddiant, atgyweirio ac ehangu adeiladau a gwella dodrefn a chyfarpar. Cyn gynted ag y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar ansawdd y gofal, bydd y cartrefi'n cael enw da a bydd y cyfraddau defnyddio'n gwella. Dim ond pan geir sicrwydd cyson ynglŷn ag ansawdd y bydd y cartrefi'n cael eu nodi fel cartrefi sy'n rhan o'r gymdeithas. Mae'n gynnar eto, ond mae'r cartrefi sydd wedi gwella yn cael enw da ymhlith darpar breswylwyr – ac maent yn llawn.

Mae'r cartrefi'n gartrefi preswyl neu nyrsio traddodiadol, ond bod y gwaith gweinyddu a datblygu'n cael ei ddarparu drwy'r busnes manwerthu cydweithredol craidd. Mae gosod y cartrefi o fewn y gymdeithas yn creu synergedd busnes sylweddol. Mae gan y gymdeithas lawer iawn o brofiad yn barod mewn rheoli adnoddau dynol, datblygu eiddo a rheoli, ac mae'r rhain i gyd ar gael i gefnogi datblygiad y cartrefi gofal. Mae cyfleoedd i fasnachu gyda'r gymdeithas hefyd gan ei bod yn berchen ar swyddfeydd post lleol, fferyllwyr ac ymgymerwyr angladdau. Hyd yn hyn, nid yw prynu bwyd yn uniongyrchol rhwng y canghennau manwerthu a gofal wedi bod yn bosibilrwydd ymarferol.

**ELIC**

Yn 2005, daeth Paul Haigh, a 5 neu 6 o feddygon teulu eraill, i'r casgliad bod yn rhaid cael ffordd well o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal roeddent ei angen. Roedd pob un ohonynt yn poeni ynglŷn â'r rhan gynyddol oedd yn cael ei chwarae gan ofal iechyd preifat, a diffyg gofal ataliol, ac yn credu y gellid sefydlu menter gymdeithasol ddielw. Ffurfiwyd ELIC ym mis Gorffennaf 2006 â'r nod o gynorthwyo meddygon teulu a staff gofal sylfaenol eraill i weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu gwasanaethau o safon uchel. Ar hyn o bryd, mae ELIC yn ymwneud â'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ymddiriedolaeth gofal sylfaenol leol - City and Hackney Teaching PCT. Mae 90% o feddygon teulu Hackney yn aelodau o ELIC.

Mae ELIC yn darparu ar gyfer poblogaeth o 212,000 o bobl, wedi eu cofrestru gyda 34 o bractisau yn Ninas Llundain a bwrdeistref Hackney yn Llundain. Mae'n sefydliad aelodaeth, ac roedd 250 o feddygon teulu, nyrsys practis a rheolwyr practis wedi eu cofrestru fel aelodau yn 2007. Mae'n cael ei oruchwylio gan gyngor o aelodau â 10 cynrychiolydd proffesiynol ac un

unigolyn sy'n cynrychioli buddiannau cleifion. Ailfuddsoddir unrhyw arian sydd dros ben er budd cleifion lleol.

Mae ELIC yn gweithio gyda'r practisau yn ei ardal i ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol, ac yn pennu safonau gofal unffurf i bob practis. Gan weithredu fel corff masnachu *'quasi'*, mae'n helpu practisau i sicrhau contractau, llwybrau atgyfeirio, gwell amseroedd aros a mynediad at wasanaethau yn ogystal â darparu ymagweddau cyson at reolaeth a biwrocratiaeth. Mae'r aelodau'n talu ffi o 95c y claf i ymuno ag ELIC.

Dyfarnwyd y contract ar gyfer gwasanaeth clustiau, trwyn a gwddf yn Hackney i ELIC, i gymryd 30% o'r atgyfeiriadau presennol i ysbytai. Mae'r contract yn werth tua £250,000 y flwyddyn.

Mae ELIC yn helpu'r 34 practis sy'n aelodau ohono i ennill contractau, gan gynnig cefnogaeth weinyddol, cymorth i wneud tendrau a chyngor. Mae ELIC yn cynorthwyo practisau i ennill contractau gan ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, ac mae'r practisau unigol yn dal i gefnogi ELIC drwy dalu ffioedd. Mae hyn yn cael ei weld fel defnydd da o arian. Mae ELIC yn dal yn hyderus, wrth i ymwybyddiaeth o'u brand gynyddu, ac i bobl ddod i weld yr effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau, y gall gael mwy o ddylanwad ar gyfeiriad polisi. Hoffai ymestyn i fwrdeistrefi eraill hefyd ymhen amser.

Mae ELIC wedi cynorthwyo 34 practis i wneud dros £2.6m o arbedion yn Hackney er 2006, ar sail atgyfeiriadau ysbytai. Mae'r arbedion hyn yn dda i'r GIG, yn dda i bractisau meddygon teulu ac yn dda i'r cleifion. Gellir gwneud penderfyniadau cyflymach a mwy effeithlon, a chynnig mwy o gysondeb yn y gofal i gleifion: "*nid yw gofal iechyd yn y fwrdeistref yn gymaint o loteri ag yr arferai fod o ran cysondeb gofal, safonau ac ymarfer beth bynnag yw'r lleoliad. Rheolir cyflwr cleifion yr un fath ym mhob practis*". Mae'r aelodau'n rhoi hanner eu cynilion i ELIC i brynu gwasanaethau newydd gan ganolbwyntio ar hyn o bryd ar ofal ataliol ym maes methiant y galon a gordewdra.

**Atodiad 8 – Astudiaethau Achos o'r Alban**

**Stewartry Care**

Mae Stewartry Care yn ddarparwr gwasanaethau gofal iechyd personol cymhleth yn y cartref, ac yn cynorthwyo pobl mewn llawer o wahanol amgylchiadau beth bynnag eu salwch, anabledd neu anghenion gofal iechyd. Mae'r tîm yn cynnig ystod o wasanaethau gofal angenrheidiol hanfodol yn amrywio o ymweliadau hanner awr i ofal 24 awr i tua 400 o gleifion. Mae'r cwmni'n cynnig cymorth â phrydau a bwydo PEG, gwasanaeth rhoi bath, gofal personol, gofal cathetr, cludiant wedi'i addasu ar gyfer cadeiriau olwyn, gofal seibiant, cymorth symudedd gan gynnwys offer codi, cysgu yn nhŷ rhywun, gofal tra mae rhywun yn wael a gofal lliniarol.

Mae Stewartry Care yn credu bod gan bob unigolyn hawl i gael rheolaeth dros ei fywyd ei hun, a hawl i aros yn ei gartref ei hun a chadw'i ffordd o fyw. Stewartry Care erbyn hyn yw'r darparwr gofal iechyd personol yn y cartref annibynnol mwyaf yn Dumfries a Galloway, a dyma'r cwmni mwyaf sy'n eiddo i'r gweithwyr yn ne'r Alban. Dim ond yn Dumfries a Galloway y mae'n weithredol ar hyn o bryd, ond nid oes dim yn ei atal rhag darparu ei wasanaethau mewn rhannau eraill o'r Alban.

Sefydlwyd y gwasanaeth yn 1993 gan Jane Young, nyrs gofrestredig a oedd yn siomedig nad oedd gofal priodol ar gael i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Credai y gellid gwella'r sefyllfa hon, a sefydlwyd Stewartry Care cyn bod deddfwriaeth yn y maes hwn. Roedd arni eisiau darparu - a dangos effeithiolrwydd – dulliau gofal eraill yn lle gofal preswyl. Ar ôl darparu'r gwasanaeth am 18 mis, dechreuodd Adran Gwaith Cymdeithasol Dumfries a Galloway brynu gwasanaethau. Yn 2004, daeth y cwmni'n eiddo i'r gweithwyr.

Mae gan Stewartry Care Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Adran Gwaith Cymdeithasol Dumfries a Galloway sy'n rhoi cynlluniau gofal unigol ar gontract. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cynigir pecynnau preifat teilwredig hefyd sy'n cynnig hyd at 24 awr o ofal.

Ers i'r gweithwyr ddod yn berchen ar y cwmni yn 2004, mae pryder wedi'i fynegi ynglŷn â phennu ffioedd unedau a'r trefniadau sy'n ymwneud â dyrannu pecynnau gofal gan yr awdurdod lleol. Teimla Stewartry Care fod hyn yn cael effaith negyddol ar ei weithrediadau, gan fod ei gyfraddau unedau'n cael eu cadw'n isel o'u cymharu â'r rhai a ddyfernir i ddarparwyr gofal preifat eraill a gwasanaeth mewnol yr awdurdod lleol yn ôl pob tebyg er mwyn annog amrywiaeth o gyflenwad, a hynny mae'n debyg er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE.

Mae'r cynlluniau hirdymor ar gyfer Stewartry yn cynnwys edrych ymhellach na Dumfries a Galloway ar gyfleoedd mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill yn yr Alban ac yn Lloegr yn ogystal ag ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig gwasanaeth i gymunedau alltud yn Sbaen a/neu Cyprus.

Mae Stewartry Care yn darparu gwerth ychwanegol drwy ddarparu gofal iechyd yn y cartref. Â'i staff arbenigol, sydd wedi eu hyfforddi'n dda, mae'n cadw nifer o bobl allan o'r ysbytai a hefyd yn rhoi iddynt yr urddas o allu marw gartref. Maent yn ymfalchïo bod canran y staff y maent yn llwyddo i'w cadw yn uchel ac yn priodoli hyn i raddau helaeth i'w rhaglen hyfforddi a chynefino drylwyr a chynhwysfawr.

**Unity Enterprise**

Elusen ryng-eglwysig Albanaidd a sefydlwyd yn 1989 yw Unity Enterprise. Mae wedi ymrwymo i helpu pobl i gael eu cynnwys yn llawn, o safbwynt diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, yn eu cymunedau. Eu gweledigaeth yw chwarae rhan flaenllaw drwy ddarparu gwasanaethau arloesol o safon uchel i unigolion a chymunedau. Mae Unity yn darparu ei wasanaethau yng Ngorllewin a Chanol yr Alban, ond nid oes dim i'w rwystro rhag ymestyn hyn i rannau eraill o'r Alban. Mae ei wasanaethau'n cynnwys canolfannau gofalwyr, gwasanaethau cymorth tai, gofal cymunedol, addysg, hyfforddiant, partneriaethau busnes, mentrau cymdeithasol gan gynnwys menter llogi cychod, asiantaeth deithio a chaffis.

Drwy'r gwasanaethau hyn darperir hyfforddiant, profiad gwaith, cyfarwyddyd, cefnogaeth, datblygiad personol, addysg a gweithgareddau cymdeithasol i bobl ifanc ac oedolion sydd ag anableddau a/neu anfanteision cymdeithasol. Daw 98% o'r £3.5m o incwm blynyddol drwy gontractau ag asiantaethau statudol gan gynnwys Cymdeithasau Tai, Cwmnïau Menter Lleol ac Awdurdodau Lleol, ac mae hyd y contractau'n amrywio o 12 i 36 mis.

Mae pryder bod angen i adrannau caffael awdurdodau lleol ddatblygu newid diwylliannol tuag at fentrau cymdeithasol, oherwydd er ei bod yn ymddangos bod parodrwydd ymhlith aelodau etholedig i gefnogi mentrau cymdeithasol bach a chanolig eu maint, gall prosesau mewnol fod yn rhwystr. Gallai cefnogaeth Llywodraeth yr Alban i fentrau cymdeithasol fod yn fwy rhagnodol.

Mae Unity yn awyddus i ddal i gynnig gwasanaeth cyflawn a hyblyg i gleientiaid, gan gydnabod yr elfennau rhyng-gysylltiedig sy'n cyfrannu tuag at eu hiechyd. Oherwydd ei bryder y gall agenda 'gwerth gorau' beri i unigolion gael eu rhoi mewn categorïau rhy benodol, mae Unity yn awyddus i ddatblygu ei gymorth cyflawn, hyblyg a sicrhau dilyniant.

Mae dros 15,000 o bobl yn cael budd o wasanaethau Unity bob blwyddyn. Mae Unity yn ymyrryd er mwyn cefnogi pobl, a dod â hwy'n nes at eu cymuned. Un enghraifft yw eu Tîm Cynnal a Chadw Cymorth Tai sy'n gweithio gyda phobl a fyddai'n cael budd o gymorth i gynnal a chadw eu cartref (e.e. peintio ac addurno, atgyweirio cartrefi).

**Canolfan Addysg a Gofal KIBBLE**

Mae stori Canolfan Kibble yn dechrau yng nghanol y 19eg Ganrif, pan nad oedd darpariaeth wladol i bob pwrpas. Sefydlwyd y Kibble Reformatory Institution (ysgol benyd ar fferm) yn 1857 drwy waddol elusennol gan

Elizabeth Kibble a oedd yn dod o deulu cyfoethog a oedd yn gysylltiedig â diwydiant tecstilau Paisley. Yn ei hewyllys a thestament olaf dyddiedig 1840 datganodd y dylai'r arian gael ei ddefnyddio i'r diben a ganlyn: *"found and endow in Paisley an Institution for the purpose of reclaiming youthful offenders against the laws."*

Goroesodd Kibble yn ei ymgorfforiad cynharaf drwy roi hyfforddiant mewn crefft i droseddwyr, gan godi ffioedd lleoliad ar 'Fwrdeistrefi' (Cynghori) ledled yr Alban a chynhyrchu incwm drwy werthu cynnyrch o'r fferm a'r gweithdai.

Ymddengys bod Kibble wedi bod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd, bod ganddi hunaniaeth leol gref a'i bod yn cael ei llywodraethu'n annibynnol gan ymddiriedolwyr lleol amlwg. Mae'r sail gymunedol gref hon wedi parhau'n ddi-dor yn ôl pob golwg am dros 150 o flynyddoedd, ac yn ôl staff Kibble mae'n un o'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag at lwyddiant y sefydliad.

Er bod bylchau yn yr archifau, mae prosiect hanes llafar yn edrych ar stori Kibble wedi awgrymu bod agwedd a dulliau'r ysgol wedi bod yn arloesol erioed. Mae Kibble hefyd yn dal ar ei safle gwreiddiol, ac yn cadw at ei ethos o gynnig gofal, addysg a chefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn helbul.

Am bron i 80 o flynyddoedd, tan y 1930au, bu Kibble yn gweithredu fel math cynnar o fenter gymdeithasol cyn dod yn fwyfwy dibynnol ar gyllid cyhoeddus, deddfwriaeth a chefnogaeth.

Daeth trobwynt â Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 1932 pan benderfynwyd ailddynodi ysgolion penyd yn Ysgolion Cymeradwyedig a throsglwyddo'r gwaith rheoleiddio i Adran Addysg yr Alban. Roedd hyn, ynghyd â'r cyllid canolog a gyflwynwyd, yn darparu mwy o unffurfedd a sefydlogrwydd i'r gwasanaethau a ddarperid gan Kibble ond yn lleihau ei annibyniaeth a'i hyblygrwydd yn fawr iawn.

Am y rhan fwyaf o'r 20fed Ganrif, ariannwyd gwaith Kibble â grantiau gan y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Yn ystod y cyfnod hwn dan ddylanwad a rheolaeth y sector cyhoeddus, mae'n debyg bod y gallu i gadw dylanwad a chysylltiadau cryf â'r sector cyhoeddus wedi dod yn fwyfwy pwysig i lwyddiant Kibble.

Er iddo gael nifer o ffurfiau amrywiol dros y blynyddoedd mewn ymateb i'r newid ym mholisi'r Llywodraeth, gwelwyd newid pwysig arall yn 1986 pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyllid i Kibble i Gyngor Rhanbarthol Strathclyde. Arweiniodd newid mewn polisi cymdeithasol, ac yn yr agenda gofal yn y gymuned, ynghyd â lleihad yng nghyllid y Llywodraeth i'r sector ysgolion preswyl at ddegawd o danfuddsoddi yn adeiladau, adnoddau a staff Kibble.

Yn y 1990au cynnar, yng ngeiriau un aelod o'r staff ar y pryd, roedd gan Kibble "ddiwylliant sefydliadol marwaidd" a oedd yn gyndyn o fanteisio ar gyfleoedd. Pan sefydlwyd yr arweiniad Gweithredol newydd yn 1993

dywedwyd bod "sylweddoliad cynyddol" o sefyllfa ansicr y sefydliad o ganlyniad i'r newidiadau mawr o'i amgylch.

Y dyddiad tyngedfennol yn hanes Kibble oedd 1 Ebrill 1996, pan ddaeth Cyngor Rhanbarthol Strathclyde i ben ac y sefydlwyd awdurdodau unedol newydd. Golygai hyn fod Kibble wedi colli ei unig gyllidwr a'i 'grant bloc', a oedd yng ngeiriau un aelod uwch o'r staff yn darparu "sefydlogrwydd a chyfforddusrwydd". Roedd hefyd yn golygu bod Kibble yn colli'r gefnogaeth logistaidd a gweinyddol (e.e. mynediad at gerbydau, gwasanaethau cyfrifyddu ac adnoddau dynol ac ati) yr oedd wedi dod i ddibynnu arni.

Mae aelodau o'r Tîm Gweithredol yn Kibble ar y pryd yn cyfeirio'n ôl at yr argyfwng hwn fel 'newid mawr' pan "newidiodd rheolau'r gêm dros nos" ac y diflannodd y grantiau a oedd yn darparu rhwyd diogelwch. Mae hyn, fel y newidiadau cynharach yn amgylchedd gweithredu Kibble, yn dangos cymaint o ddylanwad ac effaith y gall newid sydyn mewn polisi cyhoeddus, deddfwriaeth neu strwythur ei gael.

Nid oedd hwn yn dir ffrwythlon i dyfu menter gymdeithasol newydd. Â'r dyfodol yn ansicr iawn, gadawyd Kibble â hen neuaddau a chymarebau staff isel, cyfradd ddefnyddio o ddim ond 50%, dyled o £80,000 i'w thalu, costau blynyddol o £1.4m i'w talu, a thîm staff o tua 60 i'w cefnogi.

O ystyried sefyllfa Kibble yn 1995/96 roedd y dewis yn syml; naill ai cau'r sefydliad, neu fynd ati o ddifri i 'werthu' ei wasanaethau addysg a gofal preswyl i awdurdodau lleol ledled yr Alban.

Aeth yr uwch staff a'r cyfarwyddwyr am yr ail ddewis; penderfyniad dewr ar y pryd o ystyried sefyllfa'r sefydliad, ac un a oedd yn dangos greddf gref i oroesi ymhlith y staff. Roedd yn benderfyniad a arweiniodd yn y diwedd at drawsnewid Kibble o sefydliad gwirfoddol a oedd yn dibynnu ar grantiau i fenter gymdeithasol lwyddiannus.

Mae'r gwytnwch hwn ar adeg mor anodd yn cael ei briodoli i raddau helaeth, gan y rhai a oedd yn dal swyddi cyfrifol ar y pryd, i ddylanwad grŵp o uwch aelodau profiadol o staff a oedd yn rhannu'r un syniadau yn Kibble. Roedd gan y staff hyn:

- brofiad cryf ac ymarferol o'r sector addysg a gofal;
- cred bod "rhywbeth gwerth ei arbed" yn Kibble;
- dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithredu Kibble fel busnes;
- ystod gref o sgiliau busnes (e.e. dau o'r pedwar uwch reolwr wedi cael MBA), a oedd yn gymharol anghyffredin yn y sector gwirfoddol ar y pryd;
- agwedd addasol a hyblyg ynghyd ag ymdeimlad cyffredin o bwrpas a gallu i edrych i'r dyfodol; a
- dyfalbarhad a dewrder sylfaenol i ddal i gefnogi newidiadau.

Mae staff Kibble ac asiantaethau allanol yn credu bod Prif Weithredwr presennol Kibble (a benodwyd yn 1993) yn gatalydd newid hanfodol. Disgrifiwyd yr unigolyn hwn fel un sydd ag ystod o nodweddion entrepreneuraidd cymdeithasol, gan gynnwys arweiniad, ysgogiad, syniadau, cysylltiadau, gwybodaeth, pen busnes, a brwdfrydedd cymdeithasol. Mae hefyd wedi cael ei ddisgrifio fel un sy'n dod â "gweledigaeth a phwrpas newydd" yn ogystal ag "egni ac ymdeimlad o antur".

Elfen arall sy'n cael ei hystyried yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn, ac ar ôl hynny, yw rôl ac arbenigedd Ymddiriedolwyr. Dangosodd yr unigolion amlwg hyn, sydd â chysylltiadau da, ac sy'n dod o'r gymuned fusnes yn bennaf, fod ganddynt ffydd yn y staff a rhoddasant gefnogaeth iddynt ar adegau hollbwysig. Cyfranasant sgiliau amrywiol hefyd - sgiliau masnachol, sgiliau cyfreithiol a sgiliau datblygu busnes. Ymddengys bod hyn yn adeiladu ar draddodiad maith o arweinwyr busnes lleol a swyddogion yn gweithio gydag Ymddiriedolaethau yn ystod y 150 o flynyddoedd sy'n rhan o hanes Kibble.

Gweithiodd y staff uwch a'r Ymddiriedolwyr mewn cysylltiad agos drwy'r cyfnod hwn i ailgynllunio ac ad-drefnu Kibble. Roedd angen camau pwysig er mwyn ailddatgan annibyniaeth Kibble a chreu menter gymdeithasol addas i'r diben:

- roedd y gwaith o ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid a oedd yn bodoli'n barod (gan gynnwys y banc) a datblygu cynllun busnes yn canolbwyntio ar sicrhau goroesiad yn y tymor byr i ganolig;
- creu cwmni cyfyngedig drwy warant â statws elusennol i weithredu fel cangen weithredol Kibble a sefydlu Bwrdd Gweithredol (model anarferol yn y trydydd sector) – yn y strwythur newydd hwn daeth y pedwar aelod uwch o staff yn Gyfarwyddwyr Gweithredol, gan ddarparu yng ngeiriau un ohonynt "ymdeimlad o berchnogaeth" a galluogi cyfathrebu agos ac uniongyrchol ag Ymddiriedolwyr;
- datblygu seilwaith sefydliadol – gwasanaethau mewnol fel adnoddau dynol, cyllid, gwasanaethau atodol, TGCh, codi arian, cyfathrebu, ac ati – a oedd yn adlewyrchu statws annibynnol newydd Kibble; ac
- adfywio'r diwylliant sefydliadol drwy benodi staff newydd mewn swyddi allweddol, rhoi'r grym iddynt i arwain newid a gwelliannau yn eu meysydd gwasanaeth, datblygu ffyrdd newydd o weithio, a sefydlu dull mwy masnachol o weithredu.

Roedd angen amser i drawsnewid Kibble. Roedd y pryderon mwyaf yn y pum neu chwe blynedd nesaf yn ymwneud â'r ymdrech i oroesi o ddydd i ddydd. Cyfeiriwyd at y cyfnod hwn gan yr uwch staff fel cyfnod o "ddal llygoden a'i bwyta hi", â phroses "gymhleth" a "di-drefn" o newid, ac un lle'r oedd angen cryn benderfyniad er mwyn goresgyn heriau o ddydd i ddydd. Roedd goroesi'n cael ei ystyried fel y prif brawf o lwyddiant yn ystod y cyfnod hwn pan oedd llawer o ysgolion preswyl eraill yn cau.

Yr her hollbwysig oedd ffurfio perthynas fusnes gynhyrchiol newydd gydag awdurdodau lleol. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd Cynghorau'n dod i delerau

â thoriadau yn eu cyllidebau ar ôl ad-drefnu. Roeddent yn gyndyn o ildio'r gallu i bennu'r pris am wasanaethau gan y trydydd sector, ac nid oeddent yn gyfarwydd â gwneud contractau gyda mentrau cymdeithasol. Roedd Kibble hefyd yn dechrau "nofio yn erbyn llif" polisi cymdeithasol a oedd yn ffafrio dewisiadau cymunedol yn hytrach na gofal preswyl. Golygai'r dylanwadau hyn gyda'i gilydd fod darpar brynwyr awdurdodau lleol yn benderfynol o roi'r gorau i ddefnyddio Kibble os gellid dod o hyd i drefniadau amgen.

Arweiniodd hyn at drafodaethau maith a pharhaus, a thensiynau gydag awdurdodau lleol, a oedd am y tro yn dal yn ddibynnol ar wasanaethau Kibble. Golygai hyn fod angen i Kibble ddatgan ei annibyniaeth a sefyll yn gadarn mewn trafodaethau ynglŷn â phris a manylebau gwasanaethau. Golygai ddweud 'na' wrth Gynghorau oedd yn gwsmeriaid pwysig, ac atal gwasanaethau lle'r oeddent yn methu â thalu, neu'n amharod i dalu, pris a oedd yn hyfyw o safbwynt economaidd, neu lle gallai ansawdd y gwasanaeth o ganlyniad i hynny fod yn y fantol. Yn y diwedd, ar ôl dyfalbarhau, cafodd Kibble yr hawl i bennu prisiau a pholisïau derbyn, a chytuno ar drefniadau 'prynu yn ôl y galw' â nifer cynyddol o awdurdodau lleol.

Yn ystod y cyfnod maith hwn o galedi, roedd gallu'r tîm Gweithredol i wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol yn hollbwysig. Yn ôl un adroddiad gan uwch aelod o'r staff, "y peth mwyaf calonogol oedd cymaint o bethau gawsom ni'n iawn – ac roedd llawer o'r pethau gawsom ni'n anghywir yn anghywir oherwydd ein bod ni wedi rhoi amcan rhy isel o'r galw ac o faint y newidiadau oedd yn dod ".

Tra'r oedd y rheolwyr yn canolbwyntio ar oroesi yn y blynyddoedd cynnar ar ôl 1996, dechreuodd y sylw droi tuag at fesurau hirdymor y byddai eu hangen er mwyn cryfhau sefyllfa Kibble yn yr amgylchedd marchnad newydd.

Fel y dywedodd un rheolwr, dechreuodd Kibble weithredu "mewn gêr uwch" o tua 2002 ymlaen a sylweddoli potensial llawn Canolfan Addysg a Gofal Kibble ar ôl iddi gael ei hailfrandio a'i had-drefnu.

Yn y cyfnod o 1996 i 2010 cynyddodd trosiant Kibble o £1.4m i dros £18m. Mae nifer y staff wedi cyrraedd 322 FTE, ac mae nifer yr awdurdodau lleol Albanaidd y mae'n eu gwasanaethu wedi cynyddu o chwech i 26 (allan o 32).

Mae'r twf anhygoel hwn wedi ei alluogi drwy strategaeth sy'n seiliedig ar fuddsoddiad sylweddol. Cydnabuwyd gan uwch staff a chyfarwyddwyr o gyfnod cynnar bod angen buddsoddiad mawr mewn tri maes er mwyn creu newid sylweddol yn y rhagolygon ar gyfer Kibble:

- Buddsoddiad mewn cyfleusterau. Ar ôl blynyddoedd o danfuddsoddi yn ei gampws 18 acer, cydnabuwyd y gallai'r cyfleusterau a oedd ganddo i'w cynnig fod yn fantais unigryw o safbwynt cystadleuol. Arweiniodd hyn at fuddsoddiad o dros £20m er 1996 mewn gwaith adnewyddu a datblygu parhaus, gan gynnwys agor uned ddiogel £11m (y Ganolfan Ddiogel) yn 2007. Golygai hyn y gellid darparu cyfleusterau sydd ymhlith y gorau o'u bath yn y DU.

- Buddsoddiad mewn gwasanaethau. Cydnabuwyd hefyd bod yn rhaid i Kibble ddarparu'r math o wasanaethau a oedd yn ymateb i anghenion pobl ifanc ac a oedd yn ofynnol gan brynwyr awdurdodau lleol er mwyn bod yn llwyddiannus. Roedd hyn yn golygu llawer o waith parhaus i arloesi, datblygu ac ailffurfio gwasanaethau. Mae wedi arwain at sbectrwm o wasanaethau cysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar blant, ac sy'n darparu ar gyfer yr anawsterau amrywiol a wynebir gan bobl ifanc sydd mewn perygl wrth iddynt ddatblygu. Mae'r gwasanaethau erbyn hyn yn rhychwantu gwasanaethau preswyl a chymunedol dwys, gofal diogel, ymyriadau arbenigol, dewisiadau eraill yn lle cadw yn y ddalfa, cwricwlwm addysgol llawn, maethu dwys, menter a chyflogaeth, gofal drwy'r broses ac ôl-ofal. Cyflwynwyd KibbleWorks hefyd fel canolfan fenter a chyflogaeth newydd bwysig, lle gall pobl ifanc weithio a hyfforddi ochr yn ochr ag oedolyn sy'n rhedeg busnes cymdeithasol cynaliadwy a hyfyw o safbwynt masnachol. Mae'r cyfuniad hwn o wasanaethau arbenigol yn unigryw i Kibble yn yr Alban ac yn elfen ganolog o'i fantais gystadleuol.
- Buddsoddiad mewn pobl. Cydnabuwyd bod angen i staff gael eu harfogi'n llawn i gyflenwi'r gwasanaethau cymharol arbenigol hyn, mewn maes lle mae mwy a mwy o reoleiddio. Mae'r rheolwyr yn honni eu bod wedi ymdrechu'n galed iawn i recriwtio'r staff mwyaf deallus ac ymroddedig sydd ar gael. Datblygwyd rhaglenni hyfforddiant teilwredig hefyd ac mae ymrwymiad sylweddol i fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol i bobl ar bob lefel yn y sefydliad. Mae hyn wedi helpu i greu'r hyn a ddisgrifiwyd fel gweithlu hynod gystadleuol, arbenigol a hyblyg. Ymddengys bod y diwylliant dysgu hwn, a ddisgrifiwyd fel "dull Kibble" gan un aelod o'r staff, wedi cael ei sefydlu erbyn hyn, ac yn ôl pob sôn mae wedi arwain at lefelau uchel o ymrwymiad a lefelau isel o drosiant staff.

Ymddengys bod y parodrwydd i wneud buddsoddiadau o'r fath wedi creu cylch rhinweddol o dwf yn Kibble. Yn sgîl y cyfleusterau, sgiliau a gwasanaethau newydd daeth mwy o alw gan awdurdodau lleol, ac arweiniodd hynny at ddefnydd parhaol o leoliadau (a rhestri aros). Roedd y cyfuniad o wasanaethau unigryw a defnydd llawn yn hwb i drosiant ac elw'r ganolfan, a golygai hynny fod modd buddsoddi rhagor mewn staff, gwasanaethau a chyfleusterau.

Yn dilyn y buddsoddiad a'r twf yn Kibble, mae rheolwyr, staff a phartneriaid wedi cyfeirio at nifer o ffactorau cysylltiedig sy'n allweddol i'r cyfnod hwn o lwyddiant cyson:

- Y gallu i gael arian sefydlu – mae Kibble wedi dod yn dipyn o arbenigwr ar gael pecynnau buddsoddi 'cymysg' (grantiau, benthyciadau ac incwm ffioedd) sydd wedi darparu sail i'r strategaeth fuddsoddi;
- Cyrraedd 'màs critigol' – mae Kibble wedi gallu cyrraedd maint penodol yn y farchnad, a chynnig cwmpas a chyfuniad cysylltiedig o wasanaethau a ffrydiau incwm, sy'n helpu i ddiogelu rhag gostyngiad annisgwyl yn y galw am wasanaethau unigol;

- Marchnadoedd arbenigol – Mae Kibble wedi gwneud penderfyniad bwriadol i gynnig gwasanaethau cynyddol arbenigol i grŵp o gleientiaid sydd mewn perygl, a thrwy hynny gynnig ateb na allai darparwyr eraill mewn marchnad orlawn ei gynnig a gofyn am ffioedd uwch i adlewyrchu hyn;
- Dylanwadu ar y galw yn y farchnad – Mae Kibble wedi arwain neu gymryd rhan mewn nifer o brosiectau ymchwil proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol a mentrau dysgu y dywedir eu bod wedi dylanwadu ar bolisi, rhoi cyfeiriad i ymarfer proffesiynol, a'i sefydlu fel arweinydd yn ei faes;
- Gogwydd fentro – Mae Kibble yn canolbwyntio llawer ar fenter (e.e. Kibbleworks) a dangosodd barodrwydd i fentro'n ofalus, a diwylliant 'gallu gwneud' a grynhowyd gan un aelod o'r staff yng nghyd-destun mentrau newydd fel "os gallwn ddweud 'ie', fe wnawn ni ddweud 'ie'".
- Arloesi cyson – Mae Kibble wedi creu diwylliant o fod yn agored a gallu addasu i newid, annog a chefnogi syniadau staff, a sicrhau ei fod yn un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu agweddau, technoleg ac arferion newydd; a
- Cynnal proffil – ers tua 2003 mae Kibble wedi bod yn rhannu mwy o'i syniadau, yr hyn y mae wedi ei ddysgu, a'i lwyddiannau, ac mae hynny wedi helpu i wella'i broffil fel menter gymdeithasol flaenllaw a chreu cyfleoedd newydd.

Mae staff a phartneriaid hefyd wedi dweud bod yr arweiniad parhaus a chryf yn y sefydliad yn bwysig iawn iddo. Mae craidd yr uwch dîm rheoli yn Kibble wedi'i sefydlu ers dros ddegawd ac mae wedi ceisio dod ag arferion arwain o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol. Er y parhad hwn, mae rheolwyr wedi gwylio nad ydynt yn llaesu dwylo drwy annog diwylliant o ddysgu ac ymchwilio hyd at y lefelau uchaf un.

Nid yw dylanwad cefnogaeth o'r tu allan mor amlwg. Fel y dywedodd un uwch reolwr, mae Kibble wedi "mynd yn fwy a phara'n hirach" na dylanwad unrhyw un math penodol o gefnogaeth allanol. Drwy fynd yn sefydliad mwy mae Kibble wedi gallu datblygu llawer iawn o arbenigedd mewnol (e.e. strategaeth, cyllid, adnoddau dynol ac ati), er bod ei gryfder yn dal i ddod o nifer o ffynonellau, e.e.

- perthynas fancio masnachol faith a chynhyrchiol;
- ewyllys da, cysylltiadau ac arbenigedd yn y gymuned leol a chefnogwyr blaenllaw;
- rhannu dysgu a chydweithio ag ystod o bartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol; a
- dod â chyngor arbenigol am fentrau cymdeithasol ac arbenigedd proffesiynol i mewn 'yn ôl y galw'.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae amgylchiadau economaidd llewyrchus, a'r twf cysylltiedig yng ngwariant y sector cyhoeddus wedi cael dylanwad cadarnhaol ar dwf Kibble. Mae hyn hefyd wedi arwain at

gystadleuaeth o ffynonellau amrywiol (h.y. y sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol) a mathau eraill o ddarpariaeth (e.e. carchardai, ymyriadau cymunedol, mesurau ataliol). Fel y dywedodd un aelod o staff uwch Kibble, "y llanw'n codi a phob cwch yn codi gydag ef".

Ar ôl cyfnod o anawsterau economaidd mewn marchnadoedd defnyddwyr, mae gwariant y sector cyhoeddus yn dechrau crebachu erbyn hyn. Mae hon yn duedd sy'n debygol o gyflymu, gwaethygu ac ymledu drwy'r sector cyhoeddus yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau.

Ers dechrau'r dirywiad economaidd presennol yn 2008 mae Kibble wedi cael ei gysgodi i raddau helaeth rhag ei effeithiau gwaethaf. Nid yw cyllidebau prynu awdurdodau lleol wedi lleihau'n sylweddol eto, a Kibble yw'r darparwr sy'n cael ei ddewis gan y prif gwsmeriaid o hyd. Mae'r cyfraddau defnyddio a'r elw cyson yn dystiolaeth o hyn.

Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r staff, y cyfarwyddwyr a'r partneriaid yn cydnabod bod ansicrwydd y farchnad yn debygol o arwain at bwysau cynyddol ar fodel busnes Kibble. Gallai'r cynnydd anorfod mewn diweithdra a throseddu ymhlith pobl ifanc greu mwy o alw am wasanaethau. Mae Kibble hefyd yn dal yn ddibynnol i raddau helaeth ar benderfyniadau prynu nifer cymharol fach o awdurdodau lleol. Bydd pob un o'r rhain yn chwilio am ffyrdd o arbed arian, a bydd pob un yn wynebu fyrdd rhatach o bosibl (os nad llai priodol) o ddarparu gwasanaethau.

Ochr yn ochr â hyn gallai'r agenda caffael sector cyhoeddus sy'n esblygu arwain at drefniadau prynu bloc ar raddfa fawr mewn gwasanaethau gofal preswyl. Mae'n bosibl y gallai hyn herio'r hyblygrwydd, yr annibyniaeth a'r cyfleoedd i arloesi sydd wedi ysgogi cymaint o'r twf yn Kibble.

Mae hyn wedi creu amgylchedd gweithredu cynyddol ansefydlog ac ansicr; amgylchedd lle gallai goroesiad ddibynnu ar nifer o strategaethau parhaus, megis:

- ehangu'r meysydd arbenigedd a thrwy hynny ffrydiau incwm;
- ymrwymiad i gyd-drafod ac ennill busnes ar sail ansawdd yn hytrach na phris;
- hyblygrwydd i addasu gwasanaethau a gynigir mewn ymateb i newid yn anghenion cwsmeriaid;
- cynyddu prisiau i adlewyrchu gwelliant mewn gwasanaethau a chynnal maint yr elw;
- parodrwydd i roi'r gorau i wasanaethau sy'n tanberfformio neu sy'n anhyfyw o safbwynt economaidd; ac
- awydd parhaus i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae Kibble yn cydnabod na fydd yr hyn sydd wedi gweithio yn y gorffennol yn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol, ac mae wedi ymrwymo i ailddyfeisio'i hun yn barhaus. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw'r gallu i esblygu a newid mewn

ffyrdd sy'n gyson â'r genhadaeth gymdeithasol sydd wedi gyrru'r sefydliad yn ei flaen ers canol y 19eg Ganrif.

Mae'r strategaeth bum mlynedd bresennol ar gyfer y sefydliad wedi pennu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y dyfodol a fydd yn gweld Kibble:

- yn parhau'n adnodd cenedlaethol sy'n datblygu ystod o ddulliau gweithredu unigoledig ac arbenigol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl;
- yn cynnig ei brif weithgareddau yn Renfrewshire ond yn datblygu ystod o bartneriaethau yn genedlaethol er mwyn sicrhau parhad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth;
- yn ceisio bod yn sefydliad blaenllaw yn ei faes, yn arwain yr agenda, yn cydweithio, ac yn rhannu gwybodaeth mewn ffordd agored; ac
- yn dal i weithredu fel menter gymdeithasol flaenllaw yn defnyddio model ffi-am-wasanaeth i gynnal ei weithrediadau.

Oherwydd yr heriau a'r ansicrwydd sydd o'n blaenau mae Kibble yn bwriadu edrych ar bosibiliadau creadigol a radical er mwyn cyflawni ei genhadaeth mewn ffyrdd gwahanol, gan ddefnyddio ffyrdd newydd o lywodraethu efallai, ffyrdd newydd o gydweithio, a strwythurau gweithredol newydd.

Oherwydd maint y sefydliad, a'i aeddfedrwydd, mae cynllunio ar gyfer olyniaeth hirdymor hefyd yn debygol o fod yn fwy o ystyriaeth ar ôl cyfnod maith a pharhaus o arweiniad sydd wedi arwain at gyfran helaeth o'i lwyddiant.

**Healthy Communities Collaborative**

Prosiect yn Perth a Kinross yw hwn lle mae grwpiau o bobl hŷn yn gweithio mewn partneriaeth â thîm bach o staff. Nod gwreiddiol y prosiect oedd lleihau nifer yr achosion o gwympo ymhlith pobl dros 65 oed, ac roedd yr amcanion ehangach yn cynnwys gwella iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl hŷn.

Cafodd y gwirfoddolwyr hŷn eu recriwtio drwy ymweliadau â grwpiau cymunedol lleol gan dimau rheoli'r prosiect, a thrwy anfon gwahoddiadau i ddigwyddiadau ymgyfarwyddo. Yn dilyn hynny, sefydlwyd timau ardal – pob un yn cynnwys 5 neu 6 o bobl hŷn yn cael eu cefnogi gan 6 gweithiwr cymorth. Trefnwyd sesiynau hyfforddi a thrafodaethau amser tîm er mwyn i'r grwpiau allu penderfynu beth roeddent am ei weithredu yn eu cymunedau a sut y gellid gwneud y gwaith. Bob blwyddyn mae'r timau'n canolbwyntio ar agwedd wahanol ar iechyd. Yn 2006 er enghraifft, ar ôl canolbwyntio ar 'Ymarfer Corff' cafodd aelodau o'r tîm eu hyfforddi fel Hyfforddwyr Ymarferion o'ch Cadair ac Arweinwyr Teithiau Cerdded.

Roedd y buddion a nodwyd gan werthusiad o'r prosiect yn cynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol, gweithgaredd corfforol a gwelliannau i iechyd meddwl. Bu'r rhaglen mor llwyddiannus nes bod deg o dimau'n gweithredu yn ardal Perth a Kinross erbyn hyn. Cynhaliwyd y rhaglen hon gan

awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr ac mae'n enghraifft ddefnyddiol o'r potensial i raglenni partneriaeth gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

**Cacennau Cartref a Chroeso: The Hub Café**

**“Weithiau mae newid yn cael ei daflu arnoch chi, ond o'r eiliad honno roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth oedd yn gysylltiedig â'r gymuned. Roedd yn syniad syml ond yn waith caled iawn!”**

Mae'r fenter hon yn cynnig caffi un prynhawn yr wythnos mewn neuadd eglwys leol, ynghyd ag adloniant i ddynion a merched wedi ymddeol sy'n byw yn East Kilbride a'r cyffiniau. Mae'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr ar sail cost, ac mae unrhyw arian sydd dros ben ar ôl gwerthu tocynnau'n mynd tuag at yr adloniant. Mae'r Hub erbyn hyn yn croesawu rhwng 40 a 60 o bobl hŷn bob dydd Iau, ac yn cynnig rhaglen amrywiol o adloniant sy'n amrywio o gitarwyr i gorau, o olrhain hanes teulu i bingo a phob math o bethau eraill. Nod y caffi yw dod â phobl hŷn yn y gymuned at ei gilydd i deimlo'n ifanc am y prynhawn ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau wythnosol.

**“Roeddwn i'n rhoi posteri ar y waliau bob wythnos mewn tai gwarchod, llyfrgelloedd, eglwysi a chanolfannau celf, yn ogystal â hysbysebu yn y wasg leol – a bob yn dipyn daeth pawb i wybod am yr Hub Café.”**

Mae blwyddyn gyntaf y fenter wedi bod yn fwrlwm o weithgareddau i Ena a'i thîm o wirfoddolwyr. Mae'r Hub Cafe wedi bod yn rhan o DVD a gomisiynwyd gan y prosiect Better Futures lleol, a chafodd Ena hefyd gyfle i gyfarfod pobl eraill sy'n gwneud y math yma o beth mewn rhannau eraill o'r byd mewn cynhadledd mentrau gwirfoddol yn Fienna. Ym mis Mawrth 2012 bydd nifer o'r cynrychiolwyr yn ymweld â'r Hub Cafe ar gyfer derbyniad dinesig, ac mae Ena erbyn hyn yn cysylltu â chyfeillion yng Ngwlad Pwyl a Sbaen ar Skype.

**Hours Time**

Banc amser awr am awr sy'n seiliedig ar gydraddoldeb yw'r fenter hon. Bydd yn dod â grwpiau amrywiol yn Galloway at ei gilydd, gan gynnig cyfle i bobl rannu eu sgiliau a'u talentau - pobi, garddio, codi sypiau o goed tân, glanhau ffenestri, ymweld ag unigolion sy'n unig a chefnogi mamau ifanc. Bydd yn helpu i gefnogi pobl sy'n ansicr yn gymdeithasol, yn teimlo'n isel, yn ddi-waith neu'n unig. Bydd hefyd yn helpu'r bobl hŷn niferus sy'n dod i Galloway ar ôl ymddeol i wneud cyfraniad defnyddiol ac yn eu helpu i ddatblygu cysylltiadau yn eu cymuned newydd.

**“Pan oeddwn i'n byw yn Nyfnaint fe wnes i lenni i rywun a chefais ddarn o gig carw yn ôl! – roedd cyfnewid sgiliau'n arfer bod yn rhan o fywyd. Felly, rydw i wedi cysylltu â phobl yn y gymuned leol a dweud ‘os oes yna rywbeth dydych chi ddim yn hoffi ei wneud fe wna i e i chi, os gwnewch chi rywbeth arall yn gyfnewid am hynny’ ac maen nhw'n dod i ddeall y syniad.”**

Dangosodd profiad Annie o weithio gyda grwpiau agored i niwed fod bwlch yn y ddarpariaeth, gan nad oedd llawer iawn o gefnogaeth ar gael i bobl oedd yn gweld dirywiad bach yn eu cyflwr. Drwy Hour Time, mae'n ceisio'u helpu i deimlo'n dda ynglŷn â hwy eu hunain, a cheisio elwa ar brofiad pobl hŷn er mwyn ymgysylltu â phobl iau a allai fod yn cael anawsterau.

**“Mae'r syniad o gydraddoldeb wedi fy sbarduno i sefydlu'r banc amser – mae'n gwneud i mi fod eisiau gwneud rhywbeth i helpu i gefnogi pobl a dangos bod gan bob un ohonom sgiliau y mae pobl eraill yn eu gwerthfawrogi. Ond mae Age Unlimited Scotland wedi darparu eglurder a ffocws penodol, a gwneud i mi feddwl yn ymarferol am wneud hyn hefyd.”**

**Footprints Aberdeen**

**“Rydym yn darparu pont ddibynadwy i bobl hŷn gael manteisio ar gyfleoedd heddiw drwy gyfryngau electronig.”**

Treuliodd John Tomlinson ac Andrew Lawtie o Aberdeen ran helaeth o'u bywydau mewn llywodraeth leol yn Aberdeen, cyn symud i rolau ymgynghori, John fel hyfforddwr busnes ac Andrew yn codi arian i elusen leol. Roedd y ddau'n frwdfrydig iawn ynglŷn â'u menter, Footprints Aberdeen, ond roedd dod o hyd i amser yng nghanol holl brysurdeb gwaith a bywyd yn dipyn o her.

Menter gymdeithasol sy'n seiliedig ar y we yw eu menter. Mae'n annog pobl hŷn i ymddiddori mewn cyfrifiaduron, ac yn ceisio'u cael i wneud mwy o ddefnydd ohonynt. Mae ganddi nifer o nodau cymdeithasol, ond y brif nod yw hybu a chefnogi annibyniaeth pobl hŷn a'u siawns o fyw yn eu cartrefi a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.

**“Mae gan y ddau ohonom, neu roedd gan y ddau ohonom, rieni nad ydynt yn byw yn yr oes dechnegol, a gwnaeth hynny i ni feddwl sut y gallem gael y genhedlaeth hon i fanteisio ar dechnoleg cyfrifiaduron. Bydd y bachyn yn wahanol i bawb – diddordebau, teulu, siopa, newyddion lleol – mae'r rhain i gyd i'w cael drwy'r rhyngrwyd, ac maen nhw'n ffordd dda o gyflwyno'r genhedlaeth hŷn i'r modd y gall cyfrifiaduron leihau eu harwahanrwydd cymdeithasol eu hunain.”**

Bydd Footprints Aberdeen ar gael i bawb, pa un a oes ganddynt gyfrifiadur ai peidio – bydd yn cysylltu pawb ac yn darparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen er mwyn gallu cyfathrebu'n ystyrlon a defnyddio gwasanaethau amrywiol fel siopa, gwasanaethau y gellir ymddiried ynddynt a chyfathrebu drwy Skype.

**“Roedd yr hyfforddiant yn wirioneddol wych. Roeddem yn ymwybodol bod angen hyfforddiant a chefnogaeth wrth i ni fynd i faes mentrau masnachol. Rhoddodd Age Unlimited Scotland yr offer i'n galluogi i ddatblygu ein cysyniad. Mae angen i ni fynd i'r cam cyflawni nawr, a bydd hynny'n gyffrous wrth i bobl ddechrau elwa. Bydd angen i'r ffordd**

**y mae'r system gofal yn cael ei darparu newid, a gobeithiwn y gallwn chwarae rhan yn y broses honno yn lleol ac mewn ardaloedd eraill.”**

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon